www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 506
Tachwedd
2022

# Mis o Chwaraeon











Mae'n wir cofiwch, mi fydd tîm pêl-droed Cymru yn cystadlu yng Nghwpan y Byd am y tro cyntaf ers 1958. Mi fydd sawl un o fro'r Eco yn mentro draw am Qatar erbyn y gêm gyntaf ar 21ain Tachwedd, felly darllenwch y paratoadau yng ngholofn Mared Rhys ar dudalen 36.

Mae yna hel atgofion am fynd i wylio gemau yn ystod Cwpan y Byd yn Lloegr yn 1966 ar dudalen 34 a 35. Rhyfeddol yw cymharu'r profiad hwnnw efo sefyllfa'r twrnamaint erbyn heddiw!

Ond yn llawer nes at adra… mae yna gymaint i ni fod yn falch ohonno yn ein bro ein hunain, felly porwch drwy'r Eco i ddarllen hanes ein talentau ifanc lleol -

Mae bachgen a fagwyd yn Llanberis a Phenisarwaun wedi dewis dilyn gyrfa ym myd rygbi, ac eisoes wedi cynrychioli Colegau Cymru. Eleni, cafodd gynnig i ymuno â thîm Rygbi Gogledd Cymru (RGC) ym Mae Colwyn, a chwaraeodd am y tro cyntaf i'r tîm fel bachwr yn erbyn Worcester Warriors. Trowch i dudalen 35 i ddarllen stori Jac Petch-Jones.

Dymuniadau gorau i ddwy ferch ifanc o Fethel sydd wedi eu dewis i ymuno ag Academi Datblygu Pêl-rwyd Cymru dan 21 oed. Yr hyn sy'n anhygoel ydi mai dim ond ym mlynyddoedd 8 a 9 y mae Efa Roberts ac Elin Cox. Trowch i dudalen 34 i ddarllen eu stori.

Mae Clwb Hoci Caernarfon wedi datblygu a bellach mae ail dîm wedi ei greu i gystadlu yn y gynghrair am y tro cyntaf ers 2009. Trowch i dudalen 35 i ddarllen eu stori.

Ydach chi'n ddigon ffit i reidio beic am dros 1,000 o filltiroedd, gan gynnwys dros rhai o ddringfeydd yr Alpau? Ydach chi'n ddigon ffit i wneud hynny gan gario popeth fyddwch ei angen ar gefn y beic hefyd?! Darllenwch hanes taith anhygoel Tomos Morgan o Waunfawr ar dudalen 27.

## Yn y rhifyn hwn:


- Noson Tân Gwyllt – yr hanes a'r ffeithiau ddiddorol – tud 2 a 3
- Chwilota – cyrens duon Bwlch y Groes ac orennau California – tud. 20
- Eisiau hysbysebu yn rhifyn Rhagfyr/Nadolig o'r Eco? – tud. 4
- Clwb Gemau Fideo – tud. 4 a 5




Elin Enfys

## Chwilio am Elin Enfys

Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.


BUSNESAU LLEOL
Cyfarchion Nadolig
Beth am roi cyfarchion Nadolig yn yr Eco i'ch cwsmeriaid?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion am fanylion.
Hefin Jones
Pant Mwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com


4

5



www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk



# Cylch yr Iaith

Annwyl Ddarllenwyr
Mae Cylch yr Iaith wedi anfon at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd ynglŷn â lle'r Gymraeg yn y gwasanaethau a ddarperir gan y sector twristiaeth o fewn y Sir. Gan fod Gwynedd yn gyrchfan gwyliau i bobl o rannau eraill o Gymru, gyda chyfran dda ohonynt yn siaradwyr Cymraeg, dylai'r sector twristiaeth sicrhau bod darpariaeth ar gyfer ymwelwyr yn y ddwy iaith.

Rydym yn sicr y byddwch yn cytuno â ni y dylai gwyliau yng Ngwynedd i siaradwyr Cymraeg fod yn brofiad Cymraeg yn eu hymwneud â'r gwahanol fusnesau sy'n darparu ar gyfer ymwelwyr. Mae hi'n bwysig hefyd bod ymwelwyr di-Gymraeg yn ymwybodol o bwysigrwydd ein hiaith a'n diwylliant unigryw wrth ddod i fwynhau'r profiad o ymweld â Gwynedd fel rhan o Gymru.

**Ar hyn o bryd, mewn sawl busnes mewn sawl ardal, mae'r hyn a gynigir i ymwelwyr yn Saesneg yn unig. Mae'n wrthun ac yn warthus nad ydi Cymry Cymraeg sy'n ymweld ag Eryri a rhannau eraill o Wynedd yn derbyn gwasanaeth yn eu hiaith eu hunain yn eu gwlad eu hunain.**

Gwyddom nad yw'r sector preifat o fewn cwmpas Safonau'r Gymraeg, ond yn sicr fe ddylid darbwyllo busnesau o werth defnyddio'r Gymraeg, a phwyso arnynt i geisio cefnogaeth ac arweiniad swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd.

Yn ein barn ni, mae angen llunio pecyn ar gyfer busnesau – pecyn a fyddai'n tanlinellu pwysigrwydd ein hiaith a'n diwylliant ac yn amlygu manteision gwasanaethau dwyieithog trwy gyflogi staff sy'n medru'r Gymraeg a defnyddio gwefannau/taflenni/arwyddion dwyieithog.

Yn gywir
**Howard Huws**
Cydlynydd Ymgyrch Dwristiaeth
Cylch yr Iaith

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Rhagfyr | 11 Tachwedd | 25 Tachwedd |
| Ionawr | 2 Rhagfyr (sylwer ei fod yn gynt) | 16 Rhagfyr (sylwer ei fod yn gynt) |
| Chwefror | 13 Ionawr | 27 Ionawr |



# Noson Tân Gwyllt

**Hanes**
**Y tân gwyllt cyntaf?**
Miloedd o flynyddoedd yn ôl llwyddodd grŵp o wyddonwyr o Tsieina, yn ddamweiniol, i gymysgu cemegau i greu ffurf gynnar o bowdr gwn. Rhoddwyd y powdr mewn hen ganghennau/goesau bambŵ a'u taflu i'r tân i greu bang uchel! Credir mai'r rhain oedd y tân gwyllt cyntaf erioed.

**Guto Ffowc (Guy Fawkes)**
Mae diwrnod Guto Ffowc (Noson Tân Gwyllt) yn dathlu cynllwyn yn erbyn Llywodraeth Lloegr yn 1605. Cynlluniodd nifer o bobl, gan gynnwys gŵr o'r enw Guy Fawkes, i chwythu'r Tai Cyffredin yn chwilfriw. Fodd bynnag daeth y llywodraeth i wybod am y cynllwyn, cyn iddo ddigwydd, ac arestiwyd Guy Fawkes a'i gyd-gynllunwyr, a dyna ddiwedd ar Gynllwyn y Powdr Gwn.

Cafwyd Guy Fawkes, ac eraill, yn euog o deyrnfradwriaeth. Cafodd Guto ei arteithio cyn cael ei ddienyddio, dri mis yn ddiweddarach. Cyhoeddodd y Senedd ddiwrnod o ddiolchgarwch cenedlaethol i ddathlu eu bod wedi goroesi'r ymosodiad, sef y 5ed o Dachwedd. Cynhaliwyd y dathliad cyntaf ar 5ed Tachwedd, 1606.

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

Rhoddion i'r Eco
- **£30** Er cof annwyl am Richard a Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, Brynrefail a Dilys Wyn Morris, Foelas, Deiniolen gan Dennis a Mair Davies, Tal y Cae, Tregarth
- **£25** Douglas Hughes Jones er cof am ei frawd Reginald.
- **£25** Susan Williams, Pant Hyfryd, Ceunant.
- **£20** Glenys a'r teulu, Rhandir Mwyn, Waunfawr er cof am Haydn.
- **£20** Er cof am Doreen Roberts, 50 Maes Padarn a Dewi Roberts, 12 Dôl Elidir - y ddau wedi huno mis Tachwedd 2020. "Mi oedd yr Eco yng ngalon Mam." Oddi wrth Derek, Delyth, Arfon a'r teulu; a Kenny a'r teulu.
- **£20** Er cof am David Greasley, Minafon, Waunfawr.
- **£10** Teulu Pant Teg, Waunfawr.
- **£10** Ieuan a Gwyneth, Llain yr Ardd, Teulu Pant Teg, Waunfawr
- £5 - Gwenllian ac Adam Owen, 2 Parc Canol, Llanrug



Bellach bydd diwrnod Guto Ffowc yn cael ei ddathlu gyda gwledd, coelcerthi a thân gwyllt. Yn aml caiff dynion gwellt, sydd wedi eu gwisgo i edrych fel Guto Ffowc - sy'n cael eu galw'n '*guys*', yn cael eu llosgi ar y goelcerth. Erstalwm byddai plant yn gwneud eu '*guy*' eu hunain ac yn gofyn am geiniog amdano - ychydig geiniogau sydd i fod i gyfrannu at dalu am y parti mawr.

### Ffeithiau diddorol

Yn ystod y Rhyfel byd 1af a'r Ail Ryfel Byd doedd neb yn cael tanio tân gwyllt na chynnau coelcerth. Pam? Oherwydd Deddf Seneddol 1914 o'r enw Deddf Amddiffyn y Deyrnas (*Defence of the Realm Act*) oedd yn anelu at amddiffyn pobl yn ystod y rhyfel, trwy beidio dangos i'r gelyn ble roedden nhw.

Yn rhyfeddach byth, hyd at 1959 roedd hi'n anghyfreithlon I BEIDIO dathlu Noson Tân Gwyllt ym Mhrydain, felly roedd pobl yn dathlu'r digwyddiad y tu mewn…

Gall ffyn gwreichion (*sparklers*) fynd yn hynod o boeth. Gall rhai cyrraedd tymheredd o 1000 -1600 Celsius - sydd tua 15 gwaith poethach na dŵr berwedig!

Gall roced sy'n cael ei thanio ar Noson Tân Gwyllt deithio ar gyflymder o hyd at 150 milltir yr awr!

Gallwch weld tân gwyllt yn ffrwydro cyn i chi glywed y glec, gan fod goleuni yn teithio'n gyflymach na sŵn.

I'r gogledd-orllewin o Ynys Santa Cruz yn Ynysoedd y Galapagos, mae casgliad o ddwy ynys siâp cilgant, nad oes neb yn byw ynddynt, wedi eu henwi'n Isla Guy Fawkes neu Ynys Guto Ffowc.

Cyn Agoriad Gwladol y Senedd, mae Iwmyn y Gwarchodlu (*Yeomen of the Guard*) gan wisgo'u gwisg Tiwdor a chan gario gwaywffyn, yn archwilio'r Tŷ Cyffredin gyda llusernau, i sicrhau nad oes cynllwynwyr yn cuddio yn y seleri. Cofiwch mae'n drefn fwy traddodiadol erbyn heddiw, yn hytrach na rhagofal gwrthderfysgaeth.

Nid yw ysgol St. Peter's yn Efrog, sef cyn ysgol Guto Ffowc, yn dathlu Noson Guto Ffowc, oherwydd maent yn gwrthod llosgi delw ohono, o ran parch at un o'u meibion eu hunain.

### Diogelwch

Dim ond oedolyn ddylai gynnau tân gwyllt. Mae arddangosfa gyhoeddus yn fwy diogel na thân gwyllt yn yr ardd gefn!

Peidiwch byth a rhoi ffyn gwreichion nag unrhyw fath arall o dân gwyllt yn eich poced.

Peidiwch byth a chodi un oddi ar y llawr - allwch chi byth ddeud os ydy'n dal yn boeth ar ôl ei thanio ai pheidio.

Sicrhewch fod oedolyn bob amser yn bresennol.

Gwisgwch fenig.

Daliwch eich ffon wreichion ar bellter braich oddi wrthych.

Cadwch eich anifeiliaid anwes yn y tŷ. Mae rhai yn nerfus iawn a byddai'n dda o beth i gau'r llenni a chwarae cerddoriaeth neu droi'r teledu ymlaen, fel nad ydynt yn gweld fflachiadau nac yn clywed sŵn y tân gwyllt.

Sicrhewch nad oes draenog, nag unrhyw greadur arall wedi llochesu yn eich coelcerth **cyn** i chi ei danio.

MWYNHEWCH - OND - BYDDWCH YN OFALUS!

## Yn ystod y mis a aeth heibio…

- **Camlas**. Wrth ail-gynllunio canol dinas Caerdydd darganfuwyd camlas sydd wedi ei gorchuddio ers dros hanner canrif. Mae'r 'Dock Feeder Canal' yn bodoli ers tua 180 o flynyddoedd, a bydd yr ardal o'i chwmpas yn cael ei dirlunio a'i droi'n ofod cyhoeddus o wyrddni, gyda dwy bont droed i groesi'r hen gamlas.
- **Jin**. Mae Nigel Farage yn ceisio'i orau i ail dynnu sylw ato'i hun, ac wedi lansio jin newydd wedi ei wneud yng Nghernyw. Yn naturiol, mae'r poteli ar gael mewn coch, gwyn a glas (be arall gan arch-brydeiniwr?). Mae'r ddiod yn cael ei disgrifio ganddo fel 'diod draddodiadol Brydeinig' – heb sylweddoli, wrth gwrs, mai diod o'r Iseldiroedd oedd jin yn wreiddiol.
- **Blas**. Gwnaethpwyd arolwg diddorol gan Brifysgol Durham, gan ddefnyddio arferion bwyta mamau beichiog. Gofynnwyd iddynt fwyta cêl a moron. Ddeugain munud wedi bwyta'r ddau, cafodd pob un ohonynt sgan o'u babanod. Roedd y rhai a fu'n bwyta moron yn dangos wyneb hapus gan y baban yn y groth, ond wyneb trist gan faban y rhai fu'n bwyta cêl. Mae'r Brifysgol yn ceisio darganfod a yw'r bwyd sy'n cael ei fwyta gan famau beichiog yn effeithio ar fodlonrwydd y babanod yn y groth.
- **Cyrff**. Mae Califfornia wedi rhoi hawl gyfreithiol i gyrff dynol gael eu troi yn wrtaith. Yn hytrach na chladdu neu amlosgi, rhoir yr hawl i orchuddio'r corff â darnau mân o bren a'i awyru fel bo microbau a bacteria yn ffynnu. O fewn mis bydd y corff wedi pydru a'i droi'n wrtaith.
- ***Cheetah***. Mae wyth o'r anifeiliaid hyn wedi eu trosglwyddo o Namibia yn neheudir Affrica i ranbarth o'r India yn y gobaith y byddant yn ffynnu. Cafodd y *cheetah* olaf ei ladd yn yr India mor bell yn ôl a 1952.
- **Llwyau**. Wedi llawdriniaeth o dros ddwyawr, darganfuwyd yr hyn oedd yn achosi poenau difrifol yn stumog claf o Uttar Pradesh, India. Roedd 63 o lwyau metal yn ei stumog.
- **Dannedd**. Darganfuwyd y dannedd hynaf erioed yn neheudir China, a hynny mewn ffosil o'r enw Qianodus duplicia, sef pysgodyn oedd yn fyw 440 miliwn o flynyddoedd yn ôl.
- **Tywysog**. A rhag creu drwgdeimlad rhwng cefnogwyr a gwrthwynebwyr, gadewir y gofod isod i bob darllenwr sgwennu eu barn eu hunain.
- **Ffliw adar**. Mae dros 2,600 o achosion o'r haint wedi ei ddarganfod mewn ieir ym Mhrydain, sy'n golygu fod 3.2 miliwn ohonynt wedi eu lladd. Yn Ewrop gyfan, mae dros 48 miliwn o ieir wedi eu lladd i geisio atal lledaeniad yr haint.
- **Ceir trydan**. Mae nifer y ceir trydan a brynwyd ym Mhrydain wedi dyblu ers y llynedd.
- **Nadroedd**. Mae gŵr o Efrog Newydd yn wynebu'r posibilrwydd o dreulio'r ugain mlynedd nesaf yng ngharchar yn ogystal â dirwy o £220,000. Ei drosedd? Smyglo tair peithon o Ganada i'r Unol Daleithiau a hynny tu mewn i'w drôns (tra'n eu gwisgo!).
- **Morfilod**. Bu'n rhaid difa 215 o forfilod a gafodd eu golchi i'r lan yn Ynysoedd Chatham, Seland Newydd. Beth amser yn ddiweddarach, golchwyd 250 arall ar y traethau, ac ni fu'n bosib eu hachub hwythau chwaith. Mae mudiad 'Project Jonah' sy'n bodoli i geisio achub morfilod yn Seland Newydd wedi disgrifio'r ddau ddigwyddiad fel trychineb amgylcheddol.
- **Gwres**. Mae mudiad rhyngwladol Y Groes Goch a'r Cenhedloedd Unedig wedi cyhoeddi adroddiad sy'n annog llywodraethau'r byd i baratoi'n fwy effeithiol ar gyfer cyfnodau o wres eithafol. Yn ôl yr adroddiad bu farw dros 70,000 o bobl o effeithiau gwres mewn 38 digwyddiad dros y deng mlynedd diwethaf.

# BUSNESAU LLEOL
# Cyfarchion Nadolig

Beth am roi cyfarchion Nadolig yn yr Eco i'ch cwsmeriaid?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion am fanylion.

**Hefin Jones**
Pant Mwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com


# Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa ar **nos Iau, 10fed Tachwedd**, yn Y Sefydliad, Llanrug am 7.00 o'r gloch yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 6ed o Dachwedd, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig R J Hughes i gychwyn am 2.00pm. Bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies am 2.00pm ar y 13eg o Dachwedd – gweinyddir y Cymun yn ystod yr Oedfa hon. Bydd Cyfarfod Arweinwyr i ddilyn am 3.00pm. Ar y 27ain o Dachwedd, bydd Gwasanaeth dan arweiniad Karen Owen.

Cofiwch fod Canolfan y Capel ar gael i'w llogi ar gyfer amryw o ddigwyddiadau neu ar gyfer Cymdeithasau – gellir gwneud unrhyw ymholiadau drwy e-bost ar canolfanycapel@btinternet.com. Gallwch hefyd gysylltu gyda Llywydd y Mis – fel yr arfer, bydd y manylion priodol ar hysbysfwrdd y Capel.

**Clwb Garddio Caeathro**
Cyfarfu y Clwb Garddio prynhawn dydd Mawrth 11eg o Hydref wedi seibiant o 2 flynedd. Calonogol oedd gweld cynifer o'r aelodau yn ymgynnull eto.

Estynnwyd groeso i bawb yn ôl gan yr Is-gadeirydd, Rhiannon Owen. Cydymdeimlodd â theuluoedd y diweddar Sylvia Sellers a David Palmer, dau o'r aelodau a fu farw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roeddent yn aelodau gwerthfawr o'r clwb a bydd colled fawr ar ôl eu cyfraniad.

Nid oedd angen cyflwyno ein gwraig gwadd. Cafwyd sgwrs gan Rachel Plaxton, un o'n haelodau am greu gardd gymunedol ar dir Eglwys Crist ym Mhenygroes. Gyda chymorth gan yr Orsaf, mae Rachel a rhai eraill wedi plannu llysiau ar y tir. Mae'r cynnyrch yn cael eu rhannu rhwng y gwirfoddolwyr a hefyd gyda'r banc bwyd lleol.

Rhannodd Rachel gynnwys neges a dderbyniodd y bore hwnnw. Mae'r grŵp wedi llwyddo i gael Pecyn Cychwynnol gan Gadw Cymru'n Daclus. Bydd y pecyn yn cynnwys tŷ gwydr, bocsys plannu ac offer garddio.

Diolchwyd i Rachel gan y Cadeirydd Grace Meirion Jones a dymunwyd yn dda iddi ar y gwaith o ddatblygu'r ardd ymhellach.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 1.00pm dydd Mawrth 8fed o Dachwedd yng Nghanolfan Capel Caeathro. Ein gwraig gwadd fydd Vicki Hinde o'r Soap Mine, Beddgelert.

Mae croeso i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa ymuno gyda ni. Cynhelir y cyfarfodydd trwy gyfrwng y Saesneg, er bod llawer o Gymry Cymraeg yn mynychu.

Am wybodaeth bellach cysylltwch gyda'r ysgrifennydd Liz Watkin ar 01248 671243 neu 07799026791; e-bost - watkin495@btinternet.com.

## PENISARWAUN

**Eisteddfod Bentref**
Ar 29ain Medi cyrhaeddodd Arwel, Hogia'r Wyddfa, garreg filltir wrth iddo ddathlu pen-blwydd arbennig, a mawr fu'r dathlu. Ein dymuniadau a'n cyfarchion gorau i ti Arwel a llawer o ddiolch am dy gefnogaeth gref i'r Eisteddfod fel un o'r Arweinyddion a beirniaid diduedd y Limrig, ynghyd â chefnogi cystadleuaeth fawreddog y Côr. Gobeithir ailgychwyn yr Eisteddfod yn 2023 o gwmpas Mehefin/Gorffennaf.

Dymunir diolch o galon i Gronfa Capel Bosra am y rhodd arbennig tuag at gynnal yr Eisteddfod.

**Gwellhad**
Ein cofion anwylaf at bob un ohonoch sy'n sâl, gan ddymuno adferiad buan i chi i gyd.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned Clwb Cant**
Oherwydd nad oedd modd cynnal gweithgareddau i godi arian tuag at y gost o dalu treth i'r Cyngor Sir am lanhau a gwresogi'r Neuadd, penderfynwyd codi tâl y Clwb Cant o 50c i £1 y mis, gan obeithio y cawn eich cefnogaeth gref, er gwaethaf yr orfodaeth hon. Gofynnir yn garedig am arian parod neu Archeb Banc. Diolch yn fawr i Delyth Roberts am gytuno i fod yn Is-Drysorydd i helpu Glyn.

Anfonwn ein cofion gorau at Leslie Larsen, un a fu'n Is-Drysorydd a gofalwr y Clwb Cant am flynyddoedd lawer.

**Marathon Eryri**
Cynhelir Marathon Eryri ar ddydd Sadwrn 29ain Hydref a byddwn yn stiwardio ym Mhen y Pas o 10.00AM ymlaen. Gofynnir i'r gwirfoddolwyr rannu ceir ar gyfer y Maes Parcio.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Selwyn Griffith, Llanrug (Bryntirion gynt) ar gael ei ordeinio'n Ddiacon yn yr Eglwys yng Nghymru gan drigolion y pentref. Mae nawr yn gurad ym Mro Gwydir, ardal Betws-y-Coed. Wedi'i fagu i addoli yn Eglwys Santes Helen, cafodd Selwyn y fraint o ddechrau ei hyfforddiant gyda'r diweddar Barchedig Lloyd Jones, cyn Ficer Penisarwaun.

# Clwb Gêmau Fideo Mentrau Iaith

Yn ystod y Cyfnod Clo daeth Mentrau Iaith y gogledd sef Menter Iaith Sir Ddinbych, Menter Iaith Conwy, Menter Iaith Môn, Hunaniaith, Menter Iaith Maldwyn a Menter Iaith Fflint a Wrecsam at ei gilydd i lunio gweithgaredd rhithiol ar gyfer plant a phobl ifanc gogledd Cymru sef Twrnamaint Gêm Fideo.

Bu'r ymateb yn wych gyda 112 yn cofrestru, gan amlygu pwysigrwydd y cyfrwng yma fel modd i ymgysylltu â chynulleidfa eitha' anodd ei chyrraedd, a chynulleidfa sy'n arfer cyfathrebu'n Saesneg wrth chwarae.

O hyn deilliodd y Clwb Gêmau Fideo, sef clwb misol ar gyfer dau grŵp oedran sef blynyddoedd 3-6 a 7-10, er mwyn cynnig cyfleoedd i chwarae gêmau fideo a chymdeithasu yn Gymraeg, a thrwy hynny sefydlu arfer da o'i defnyddio wrth gymdeithasu ar-lein ac wrth ymwneud â thechnoleg.

Bob mis cynhelir



# Ysgol Penisarwaun

**Croesawu disgyblion**
Braf oedd croesawu pum disgybl i'r dosbarth derbyn eleni. Roedd pawb wedi setlo yn fuan iawn ac yn mwynhau cael aros yn yr ysgol drwy'r dydd.

Dau ddisgybl yn unig sydd yn y Meithrin eleni a'r ddau yn mwynhau dod i'r ysgol o'r cychwyn un. Edrychwn ymlaen at weld pob un yn datblygu yn addysgiadol ac fel unigolion yn ystod eu cyfnod yma yn ysgol Penisarwaun.

**Taith i'r eglwys**
Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen fynd ar ymweliad ag eglwys Santes Helen Penisarwaun yn ddiweddar fel rhan o'u gwersi. Diolch yn fawr i Mr Selwyn Griffith am eu tywys o amgylch yr eglwys a'u dysgu am y gwahanol ardaloedd a'r arteffactau yn yr eglwys. Byddwn yn dychwelyd yn fuan i ddysgu mwy am ddefod priodas yn yr eglwys. Diolch yn fawr i Mr Griffith am ganiatáu i ni allu rhoi'r profiadau hyn i'r disgyblion.

**Pryfaid Pric**
Roedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen wrth eu boddau yn cael dod i adnabod y Pryfaid Pric sydd bellach wedi ymgartrefu mewn tanc yn yr ysgol. Mae nifer ohonynt yn y tanc a'r disgyblion yn hoffi eu gwylio, casglu brigau iddyn nhw ac yn eu gwylio yn symud o frigyn i frigyn yn y tanc. Rydym yn ddiolchgar iawn i frawd mawr un o'r disgyblion am eu rhoi yn rhodd i'r ysgol.
















cystadleuaeth gwahanol ar themâu arbennig i ysgogi'r dychymyg – gyda nifer o'r themâu yn ymwneud â hanes a diwylliant Cymru neu ddigwyddiad yng nghalendr y mis hwnnw, er enghraifft Dydd Gŵyl Dewi a Chalan Gaeaf.

Mae'r adborth wedi bod yn hynod galonogol o du'r chwaraewyr, rhieni a'r ysgolion lleol, er enghraifft,

"Dwi wedi mwynhau'r sesiwn yn fawr iawn. Mae chwaer fi efo pethau fel *Pony Club*. Dwi 'rioed wedi cael peth fel 'na a dwi *finally* wedi ffeindio rhywbeth, a dwi rili wedi enjoio fo."

"Diolch yn fawr iawn! *Please pass on my thanks to the team that put this online session together, xxx really enjoyed himself. It's such a great opportunity for him to hear and speak Welsh with others who also love gaming in a safe and encouraging environment. He thought the other builds were really creative and was talking about them (in great detail!) all evening*. Diolch eto😊"

"Diolch yn fawr...mae hwn yn ffantastig, ac yn ddefnyddiol iawn. 'Rwyf wedi rhoi'r posteri o amgylch yr ysgol, a byddaf yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar gyfer y cylchlythyr. Edrych ymlaen at dderbyn y canlyniadau! Diolch yn fawr."

Ers ei gychwyn, mae'r Clwb wedi rhoi cyfleoedd yn y Gymraeg na fodolai ynghynt i ddegau o blant a phobl ifanc gogledd Cymru, ac mae awydd mawr i ymestyn a chroesawu rhagor o fynychwyr ar hyd a lled Cymru... a thu hwnt! Byddai'r twf a yn cyd-fynd yn berffaith efo'r datblygiadau diweddar yn stiwdios y Gêmau Mawr, gyda'u ffocws ar ddiwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg.


Mae'r poster yn nodi rhaglen y Clwb am y chwe mis nesaf. Mae'n rhaid cofrestru ar gyfer pob sesiwn o flaen llaw drwy ddilyn y cod QR neu glicio **www.ticketsource.co.uk/clwb-gemau-fideo** .

Am ragor o fanylion plîs cysylltwch â **clwbgemaufideo5@gmail.com**

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn ag Anna, cymar Reg Edwards, 23 Cremlyn. Bu farw Reg yn yr ysbyty wedi blynyddoedd o frwydro yn erbyn salwch. Fe gofir Reg fel rhan o'r ddeuawd boblogaidd Aled a Reg a fu'n diddori cynulleidfaoedd ledled Cymru yn nyddiau bri y Noson Lawen drwy'r 50'au hwyr a'r 60'au.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Elizabeth, Blaen Parc sydd wedi dychwelyd adref wedi cyfnod yn yr ysbyty. Gwellhad buan hefyd i Mair Williams (pen-glin newydd) a Mabel Jones (clun newydd). Gwellhad buan hefyd i chwi bentrefwyr a ddaliwyd yn rhwyd ddiweddaraf y Covid.

**Gwerth yr Ymdrech**
Bu Ifan Rowlands, 13 Stâd y Ddôl yn cystadlu yn Hanner Marathon Caerdydd yn ddiweddar. Mwynhaodd y profiad a'r gwmnïaeth yn arw, ond roedd braidd yn siomedig o'r amser terfynol o 2 awr 20 munud, a hynny wedi wythnosau o ymarfer. Ei brif reswm dros gystadlu oedd




codi arian at Gronfa Ymchwil Cancr Cymru. Roedd hyn er cof am ei ewythr annwyl Huw Davies, Caerdydd. Hyd yma, mae Ifan wedi codi dros £700 ac mae'r gronfa bersonol dal yn agored os oes rhywun yn dymuno cyfrannu, drwy gysylltu yn uniongyrchol ag Ifan.

**Oedfan Tachwedd**
**SARON** : 6/11 Arwel Williams; 13/11 Dr. Jennie Hurd; 20/11 Idris Thomas; 27/11 Rhian Evans-Hill.
**CYSEGR** : 6/11 Islwyn Hughes; 13/11 Sul y Cofio; 20/11 Karen Owen; 27/11 Idris Thomas
**BETHEL** : 6/11 Richard Morris Jones; 13/11 Sul y Cofio; 20/11 Cledwyn Williams; 27/11 R.E. Hughes.

## Clwb Cerdded Bethel

Deg a fentrodd i daith gyntaf y tymor. Ar ddiwrnod claear di-wynt cafwyd taith o bum milltir wedi ei chynllunio gan Morfudd a Hefin Thomas. O orsaf rheilffordd Caernarfon ymlwybrwyd ar hyd Lôn Eifion am oddeutu milltir cyn anelu at Fferm yr Hendy, ac yna drwy'r caeau i gyfeiriad fferm Tyddyn Alis, heibio talcen hen gapel Pen-y-graig ac yna troi am adref i gyfeiriad Eglwys Llanfaglan oddi tanom. Aros am bwt o ymborth ger ffynnon Baglan. Oddi yno, edrych draw at Ddinas Dinlle a Chaer Belan, a'r Eifl dan gap yn y pellter. Anelu wedyn at ffordd y Foryd drwy dir fferm Plas a Chlwb Golff Caernarfon. Mynd 'fesul pâr' yma wrth gwrs, gan ddiolch fod y chwaraewyr yn anelu'r bêl fach wen yn syth ar y bore di-wynt.

Y bwriad o hyd yw anelu at gerddediad rhwng 4 a 6 milltir, a hynny ar wastadedd ble mae'n bosibl. Dydd Llun yw'r diwrnod penodedig ar gyfer y teithiau. Bydd y cerdded nesaf yn ardal Beddgelert/Nantmor. Ar gyfer manylion cyfarfod, amser, teithio etc. gellir cysylltu â Morfudd ar 07863399033, a bydd y rhif hefyd yn agor cyswllt â'r Grŵp Cerdded ar *WhatsApp*. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno.



**Cofion**
Danfonwn ddymuniadau am wellhad buan at y Parchg Euron Hughes, un o'n darllenwyr ffyddlon oddi cartref draw yn Llanuwchllyn. Yn ddiweddar, cafodd anffawd a thorri asgwrn ei ffêr. Er yr anhwylder cafodd 'dywysydd' parod i'w gludo i'w gyhoeddiadau Sabothol. Cymerwn y cyfle yma hefyd i ddiolch i Euron am ei barodrwydd i deithio yn ôl i'w 'gynefin' i arwain oedfaon angladdol draw yng Nghapel Saron dros y misoedd diwethaf, a hynny yn ei ffordd dawel, agos-atoch nodweddiadol. Bu'r gwasanaeth parod yma'n gysur i sawl teulu.

**Merched y Wawr**
Erbyn hyn mae'r Gangen wedi cyfarfod ddwy waith ar ddechrau tymor arall. Agorwyd y tymor yng Nghapel Cysegr gyda gair o groeso gan y Llywydd, Mair Price. Croesawyd ambell i aelod newydd yn wresog. Diolchodd Mair ar ran yr aelodau i Ann, Gwyneth, Liz a phwyllgor y llynedd am eu gwaith, yn enwedig eu hymdrechion i gyrraedd y pwynt o allu trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb unwaith eto. Mae sôn o hyd am y trip i Lerpwl ddiwedd tymor diwethaf. Cyflwynwyd rhaglen 2022-23 gan obeithio bod amrywiaith at ddant pawb yn yr arlwy. Diolch i Jen am brintio'r rhaglen ac i gwmni Delwedd am eu cymorth parod.

Y gwestai arbennig oedd Owain Roberts, 16 oed, un o dalentau ifanc y pentref. Mab i Cecile (aelod) a Gwilym, a brawd Dylan. Disgybl chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail yw Owain. Wedi canlyniadau aruchel yn safon TGAU mae bellach yn astudio Hanes, Mathemateg ac Astudiaethau Busnes. Ei ddawn arbennig yw canu'r piano, a datganiad i'w gofio gafwyd ganddo ar y noson agoriadol. Yn hollol hyderus, a'i raglen ddewisedig yn plesio. Diolchwyd iddo gan Mair Read. Ymlaen wedyn i'r festri i fwynhau'r danteithion blasus wedi eu paratoi gan y Pwyllgor. Pawb yn falch o allu cymdeithasu wyneb yn wyneb unwaith eto.

Enillwyd gwobrau'r raffl gan Anwylyd, Jen ac Anita.

O hyn ymlaen bydd gweddill y cyfarfodydd ar yr ail nos Fercher o bob mis yn y Neuadd Goffa am 7.30pm. Mae drws agored i unrhyw un ymuno â'r Gangen.

Yng nghyfarfod mis Hydref ein gwestai yn y Neuadd Goffa oedd Ann Catrin Evans. Yn ferch fferm o Dregarth, mae bellach wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon ac yn un o'r crefftwyr sy'n cynnal Siop Iard yn Stryd y Plas. Wedi cyfnodau coleg ym Mangor a Brighton dechreuodd ei gyrfa fel gof o'r beudy gartref, cyn symud i'r efail ar dir Glynllifon. Ei gwaith cyntaf oedd creu dolenni drysau mewn haearn. Enillodd y Fedal Aur am Grefft yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelwedd yn 1993. Aeth ymlaen i greu cerfluniau mawr iawn. Mae esiamplau o'i gwaith i'w gweld yng Nghaergybi, Aberystwyth, Abermaw a Chanolfan y Mileniwm, Caerdydd. Daw'r ysbrydoliaeth i'w gwaith o'r byd o'i chwmpas a'i chefndir amaethyddol. Golyga hyn dipyn o waith ymchwil cyn cynhyrchu'r gwaith haniaethol gorffenedig.

Wedi damwain ddifrifol, newidiodd i weithio gyda deunydd ysgafnach, a daeth yn adnabyddus fel crëwr coronau eisteddfodol, tlysau ac amrywiol emwaith gain. Diolchwyd iddi gan Nan Rowlands am noson ddifyr tu hwnt.

Danfonwyd cofion at Mair Williams gan ddymuno gwellhad buan wedi iddi dderbyn ail ben-glin newydd yn ddiweddar. Yr un modd braf gweld Mabel yn ôl wedi ei llawdriniaeth o dderbyn clun newydd.

Diolchwyd i Jen, Anne a Liz am baratoi'r baned. Braf oedd cael dychwelyd i'r cymdeithasu wyneb yn wyneb. Enillydd y raffl oedd Meira.

**Cyfraniadau Ariannol y Cyngor Cymuned**
Yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor Cymuned dosrannwyd y symiau canlynol i fudiadau ardal Bethel. Eleni, roedd 23 cais am gymorth ariannol gan wahanol fudiadau ledled y plwyf, y nifer uchaf ers sawl blwyddyn.

Clwb Bowlio £200, CPD Ieuenctid £200, Clwb Snwcer Bethel £200, Eisteddfod Bethel £300 a Neuadd Bethel £300.

Cofier hefyd am y swm sylweddol a gyfranwyd at sefydlu'r Clwb Ieuenctid.

**Clwb Ieuenctid Bethel**
Erbyn hyn mae'r Clwb yn dechrau magu gwreiddiau. Mae'r ymateb yn dda gydag uchafswm o 37 mewn un cyfarfod hyd yn hyn. Mae'r aelodau'n cael llais yng





## Adran Yr Urdd

Cychwynnodd y tymor gyda noson o weithgareddau hwyliog dan ofal Meleri, Vera a Menna a chyfle i bawb gymdeithasu. Hyd yma mae 33 wedi ymaelodi, a chroeso mawr i fwy. Mae'r cyfarfod nesaf ar 11eg Tachwedd dan ofal Gwenno ac Einir.

Mae angen trysorydd ar y gangen. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb, cysylltwch â'r ysgrifenyddes, Menna. Diolch.



nghynnwys rhaglen y clwb.

Eisoes dan reolaeth Ffion Jones a Siân Pritchard cafwyd sesiynau coginio, arlunio a'r cwis poblogaidd. Pan alwais i mewn roedd grŵp yn creu gwaith celf ar gyfer yr Eisteddfod Bentref. Mae'r gemau fideo'n boblogaidd, y cwrt badminton ac wrth gwrs y siop. Bydd ambell daith yn cael ei threfnu gyda noson o sglefrio ar rew yn denu sylw. Diolch i ambell bentrefwr hefyd sy'n galw i mewn i gynnig cefnogaeth. Hoffa'r clwb hefyd ddiolch i Bwyllgor y Neuadd Goffa am ei gefnogaeth barod i'r fenter newydd.

Yn ariannol, cafwyd grant o £1000 gan gwmni Adra, a £700 o Adran Ieuenctid Cyngor Gwynedd. Mae'r arian yma'n ddefnyddiol iawn i brynu offer. Diolch hefyd i gwmni Morrisons am gyfraniad niferus o offer hylendid merched. Er lles y merched fe osodwyd stoc yn y Neuadd, Caffi Perthyn ac yn y Cwt ar faes pêl-droed y pentref.

**Capel Y Cysegr**
Roedd yr oedfa ar Hydref 8ed yn bwysig yn natblygiad yr achos. Hon oedd oedfa Ddiolchgarwch y Plant, a diolch iddynt am eu cyflwyniad hyderus. Y thema oedd ein gwerthfawrogiad a diolch i sawl un sydd dal i gyfrannu at ddatblygiad a gwarineb cymdeithas. Yn ystod yr oedfa bu aelodau yn ôl eu harfer yn cyfrannu nwyddau at Fanc Bwyd Arfon. Cofiwch fod y cyfraniadau yma'n agored i unrhyw un. Byddaf yn trosglwyddo'r nwyddau i'r Banc Bwyd bob bore Mawrth. Yn ogystal â'r nwyddau gwnaed casgliad rhydd ac fe gyfranwyd £142 hefyd i goffrau'r Banc Bwyd. Yn ddiweddar bu plant yr Ysgol Sul yn cynnal taith gerdded noddedig a throsglwyddwyd £250 at elusen yn Wrecsam sy'n ariannu prosiectau cynnal trueiniaid ifanc yr Wcrain. Diolch i Myfanwy a Menna am eu ffyddlondeb yn hyrwyddo'r plant. Cofiwch fod gwahoddiad i unrhyw blentyn o'r pentref ymuno yn y dosbarthiadau Sabothol.

Ar ddechrau'r oedfa bu dau o swyddogion yr Henaduriaeth yn gweinyddu'r bleidlais o barodrwydd aelodau'r Ofalaeth i dderbyn Nerys Griffith fel darpar weinidog. Braf cyhoeddi fod y pedwar achos yn yr Ofalaeth wedi pleidleisio'n gadarnhaol. Wedi cwbwlhau ei chwrs yn llwyddiannus eir ymlaen yn awr i ordeinio Nerys. Bydd y Gwasanaeth Ordeinio draw yn Eglwys y Groes, Wrecsam ar nos Fawrth, 8fed Tachwedd. Yna eir ymlaen i drefnu Gwasanaeth Sefydlu, gyda'r gobaith i'r Gweinidog ddwechrau ar ei gwaith yn Ionawr 2023.



**Clwb Bro Bethel**
Cynhelir cyfarfod o'r Clwb bnawn dydd Mawrth y 1af o Dachwedd am 1.30pm yn festri Capel Cysegr. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl; a chroeso i unrhyw un arall droi i mewn atom. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mary Wyn Jones. Y Ddôl.

**Eisteddfod Bethel**
Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar Sadwrn, 22ain Hydref, a diolch i bawb am eu cyfraniad yng ngweinyddiaeth ac elfennau cystadlu y dydd. Gobeithiwn y gallwn gynnwys adroddiad o'r diwrnod, yn lluniau a chynnyrch, yn y rhifyn nesaf.

**Sul y Cofio**
Braf yw cyhoeddi y bydd staff a disgyblion Ysgol Bethel yn arwain Gwasanaeth Sul y Cofio awyr agored eleni ger y Gofeb ar lidiart yr Ysgol. Y dyddiad fydd 13eg Tachwedd, i ddechrau am 11.00am. Fel arfer, mae croeso i unigolion neu fudiadau'r ardal i osod torch ger y gofeb yn ystod y gwasanaeth.

**Ydi'r Hetiau'n Barod?**
Cofiwch bod gwahoddiad i wylio gemau Cymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd ar sgrin fawr yn y Neuadd Goffa. Gobeithio y byddwn yn codi'r to ac y bydd Cymru'n camu ymlaen.

**Diolch**
Dymuna Gwyneth, Llain yr Ardd, ddiolch yn ddiffuant i bawb a gofiodd amdani ar achlysur dathliad ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogir yr holl ymweliadau, galwadau ffôn, anrhegion, blodau a chardiau a dderbyniodd. Diolch yn fawr iawn.


Tafarn Y Glyntwrog Llanrug
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser

671191

EST 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# DEINIOLEN

**Llongyfarchiadau**
Croeso mawr i Gymraes fach newydd i'n plith, Mabli Fflur, merch gyntaf Gwenllian ac Adam, wyres gyntaf i John a Linda, Rhes Caradog a gor wyres i Mrs Mona Parry, Hafod Oleu. Pob dymuniad gorau i chi gyd fel teulu.

**Ysgol Feithrin**
Cynhelir Noson Cwis nos Sadwrn, 12fed Tachwedd am 7.00PM yn y Wellington. Bydd raffl ac ar ddiwedd y cwis bydd deuawd bywiog *The Gogs* yn canu! Dewch yn llu i gefnogi ac i gael hwyl!

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Mrs Phyllis Evans, 2 Rhes Cynfi a fu farw'n ddiweddar yn 91 oed. Gwraig y diweddar Ellis Evans (Garnedd) a mam, nain a hen nain arbennig.

Cydymdeimlir gyda theulu Mr Ernest Jones, 6 Porth y Gogledd hefyd yn eu colled ddiweddar, priod y diweddar Margaret Ellen a thad balch Jennifer Ellen, cofion atoch.

**Sul y Cofio**
Cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio eleni ar 13eg o Dachwedd am 11.00AM ger y gofgolofn.

**Merched y Wawr**
Braf iawn oedd cael ail ymgynnull am dymor newydd yn Nhŷ Elidir. Diolch i'r swyddogion newydd am drefnu rhaglen ddiddorol iawn eto ar ein cyfer. Cafwyd noson yng nghwmni Catrin Jones, Caergeiliog a fu'n siarad am ei gwaith gweu a chrosio yn creu '*twiggle muffs*' ar gyfer therapi dementia. Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol a diolch iddi am ei gwaith.

Bydd y cyfarfod nesaf yng nghwmni Elin Tomos, Nant Peris yn sôn am ferched y chwarel.



**Diwrnod Hwyl Deiniolen a'r Cylch**
Cynhaliwyd ein Diwrnod Hwyl gyntaf ym mis Medi - wedi gorfod gohirio dwywaith oherwydd y tywydd garw dros yr haf.

Roedd pawb wrth eu bodd yn mwynhau'r amrywiol gestyll neidio, y stondinau a'r gweithgareddau, ac wrth gwrs DJ Stretch (Emyr Gibson ) yn sicrhau fod digon o fiwsig a hwyl a sbri ar Gae'r Bwthyn. Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth. Rydym yn gobeithio y bydd y Diwrnod Hwyl yn ddigwyddiad blynyddol yn y pentra bob haf.

**Menter Fachwen**
Bydd arddangosfa hanes Deiniolen a Chlwt y Bont ar agor yng nghaffi EB ar yr ail ddydd Mercher o bob mis dros y gaeaf rhwng 1.00PM a 4.00PM.

**Clwb Ieuenctid Deiniolen**
Rydym yn falch iawn o fod wedi derbyn cyllid gan y Cyngor Cymuned i ail-ddechrau'r Clwb Ieuenctid yma yn Neiniolen ( drwy brynu'r gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd). Cyflogir 3 o bobl leol i gynnal y clwb bob nos Fawrth. Yn ystod y cyfarfod cyntaf y mis yma, daeth bron i 30 o ieuenctid y pentra i Dŷ Elidir i fwynhau gweithgareddau a chwmni ei gilydd. Rydym yn gobeithio y bydd y clwb yn mynd o nerth i nerth.

**Cyfarfod Cyhoeddus**
Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar i drafod y posibilrwydd o greu gofod amlbwrpas oedd yn ddigon mawr i gynnal amrywiaeth o weithgareddau yn y pentref. Diolch i amryw ohonoch a ddaeth i gefnogi ac i leisio barn.

Mae hi'n amlwg fod yr angen a'r awydd yn gryf ymysg y gymuned, ac rydym fel pwyllgor yn parhau i drafod, ac yn edrych ar opsiynau amrywiol o fewn y pentref wrth drio symud ymlaen. Byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth bellach ar wefannau cymdeithasol, ac wrth gwrs yn yr Eco.

**Gweithgareddau dros y gaeaf**
Mae'r Pwyllgor Pentref wedi penderfynu datblygu amserlen o weithgareddau a digwyddiadau i bawb o bob oed dros fisoedd y gaeaf. Byddwn yn cyfarfod i drefnu cyn diwedd mis Hydref, ac yn anelu at rannu amserlen amrywiol dros wefannau cymdeithasol ac yn ffenestri / hysbysfwrdd y pentra.

Rydym fel pwyllgor yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth a brwdfrydedd y gymuned. Rydym yn awyddus iawn i ddatblygu ac ehangu gwasanaethau a chyfleoedd lleol. Mae croeso i chi gysylltu hefo ni i gynnig awgrymiadau neu i ofyn unrhyw gwestiwn.





**Clwb Ieuenctid**
Da iawn oedd gweld gweithgareddau'r Clwb Ieuenctid yn ail ddechrau yn y pentref a dymunwn bob llwyddiant iddo. Mae'n cael ei gynnal pob nos Fawrth rhwng 7.00PM a 9.00PM yn Nhŷ Elidir, i rai sydd ym Mlwyddyn 7 ac i fyny. Diolch i bawb sy'n trefnu ac arwain y gweithgareddau, mor dda yw gweld eu hymroddiad a'u cefnogaeth i bobl ifanc y pentref.


E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau mis Tachwedd:
**Dydd Sul, Tachwedd 6ed**: 9:30AM - Cymun Bendigaid / 4.00PM - Gwasanaeth Teulu. Mae croeso cynnes i bawb o bob oed ymuno â ni am wasanaeth byr ac anffurfiol gyda chrefftau a lluniaeth.
**Dydd Sul, Tachwedd 13eg**: 9:30AM - Gwasanaeth Sul y Cofio
**Dydd Sul, Tachwedd 20fed**: 9:30AM - Cymun Bendigaid
**Dydd Sul, Tachwedd 27ain**: 9:30AM - Cymun Bendigaid
Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11.00AM.

Cynhelir Ffair Nadolig yn yr Eglwys ar Dachwedd 26ain, rhwng 10.00AM a 3.00PM. Mynediad £2, i gynnwys paned a mins pei.

## DINORWIG

**Eglwysi Cefn y Waun ac Ebenezer**
Dyma drefn y gwasanaethau am weddill y flwyddyn:

**23ain Hydref**: Eleri Jones, Bangor. 5.00pm
**30ain Hydref**: Arwel Williams, Caernarfon. 3.30pm
**6ed Tachwedd**: Y Parchg John Pritchard. 3.30pm.
**13eg Tachwedd**: Y Parchg R.O.Jones, Gaerwen. 5.00pm
**20fed Tachwedd**: Y Parchg John Pritchard. 3.30pm.
**27ain Tachwedd**: Alun Morton Thomas, Bangor. 3.30pm.
**4ydd Rhagfyr**: Y Parchg John Pritchard. 3.30pm.
**11eg Rhagfyr**: Parch Hugh Pritchard, Llangefni. 5.00 pm.
**18fed Rhagfyr**: Y Parchg John Pritchard. 3.30 pm.
**25ain Rhagfyr**: Diwrnod Nadolig – Oedfa yn Capel Coch, Llanberis. 10.00am.

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal ein Gweinidog ddydd Sul, Hydref 16. Roedd yn braf gweld cynulleidfa gref yn yr oedfa. Cafwyd cyfle i gyflwyno rhoddion at Fanc Bwyd Arfon. Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cyfraniadau. Trosglwyddwyd y bwydydd i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon, ac mae trefnwyr y Banc Bwyd yn ddiolchgar am y cyfan.

**Tymor yr Hydref**
Mae'r hydref wedi cyrraedd ac ias o oerni i'w deimlo fore a nos. Ond yn sgil hynny cawn werthfawrogi prydferthwch y lliwiau hydrefol ar y coed a'r carpedi o liwiau amryliw ar lawr. Dyma gyfnod troi'r cloc yn ôl; arfer sy'n bodoli ers dyddiau'r rhyfel. Rydym wedi hen arfer â hyn bellach, ond tybed a oes angen parhau'n bellach â'r traddodiad?

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at bawb o'r ardal sy'n dioddef salwch gartref neu yn yr ysbyty. Bydded i chwi wellhad buan.



# Un funud fach ...

## RHYWBETH HOLLOL WAHANOL

'Ac yn awr, rhywbeth cwbl wahanol!' Wir i chi, rwy'n dechrau meddwl mai geiriau *Monty Python's Flying Circus* ydi'r ysbrydoliaeth i lywodraeth Liz Truss: *'And now for something completely different'.* A does dim na neb yn dangos hynny'n well na phenodiad Thérèse Coffey yn Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r ddywededig lywodraeth.

A fu erioed rywun mwy anaddas na Ms Coffey ar gyfer y fath swydd? Hurtrwydd oedd yn nodweddu hiwmor *Monty Python* ers talwm. A hurtrwydd oedd gwneud Ms Coffey yn Ysgrifennydd Iechyd. Does dim byd yn ddoniol am y peth, ond rhwydd iawn fyddai meddwl mai un o greadigaethau'r gyfres deledu gomedi honno yw hi.

Ia, hurtrwydd. Pwy fyddai'n ddigon hurt ac anghyfrifol i ddweud ei bod yn syniad da i gleifion roi eu moddion gwrthfiotig i rywun arall? Neb llai na'r Ysgrifennydd Iechyd ei hun! Do, fe ddywedodd Ms Coffey ei bod wedi rhoi *antibiotics* oedd dros ben ganddi i un o'i ffrindiau. Ar wahân i'r ffaith na ddylai fod gan neb *antibiotics* dros ben beth bynnag, mae nid yn unig yn beryglus ond yn anghyfreithlon i'w rhoi i rywun arall!

Ia, hurtrwydd. Ers blynyddoedd, cafwyd deddfau sy'n gwarchod pobl rhag peryglon ysmygu. Roedd seneddau datganoledig y Deyrnas Unedig ar y blaen yn hyn o beth. Gan ddilyn eu hesiampl, pasiwyd deddf gan Senedd San Steffan yn 2007 sy'n gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus a deddf arall yn 2015 sy'n gwahardd ysmygu mewn car ac ynddo blentyn. Pwy fyddai'n ddigon ffôl ac anghyfrifol i beidio â chefnogi'r fath ddeddfau sy'n gwarchod ein hiechyd? Unwaith eto, neb llai na'r Ysgrifennydd Iechyd! Mewn cyfweliad radio, doedd Ms Coffey ddim hyd yn oed yn fodlon cydnabod bodolaeth y ddeddf wrth iddi amddiffyn hawl rhieni i ysmygu mewn car os dyna eu dewis. Ysgrifennydd Iechyd?

Ia hurtrwydd. Ni allwn ond tristau o weld person mor anaddas wedi ei phenodi i swydd mor gyfrifol. A thristau'r uwn modd a wnâi'r Arglwydd Iesu o weld y Phariseaid yn arwain a dysgu. Dyma bobl nad oedd ganddyn nhw'r syniad lleiaf o'r hyn y mae Duw yn ei ofyn. Meddai Iesu amdanynt, 'Da y proffwydodd Eseia amdanoch: "Y mae'r bobl hyn yn fy anrhydeddu â'u gwefusau, ond y mae eu calon ymhell oddi wrthyf; yn ofer y maent yn fy addoli, gan ddysgu gorchmynion dynol fel athrawiaethau"' (Mathew 15:7-9). Dyma bobl gwbl anaddas i ddysgu eraill ym mhethau Duw, a'u dysgeidiaeth yn sicr o arwain pawb ar gyfeiliorn. Does ryfedd bod Iesu'n dweud: 'Gadewch iddynt; arweinwyr dall i ddeillion ydynt. Os bydd rhywun dall yn arwain rhywun dall, bydd y ddau yn syrthio i bydew' (Mathew 15:14).

Ia, hurtrwydd fyddai gosod unrhyw un yn arweinydd ym mhethau Duw a hwythau heb ddealltwriaeth o gariad Duw nac adnabyddiaeth o ras Crist na phrofiad o'r Ysbryd Glân yn eu bywhau. Ac yng ngoleuni'r geiriau hyn o eiddo'r Arglwydd Iesu, mae wastad yn rheidrwydd arnaf fi a'm tebyg i'n holi ein hunain, rhag bod yn gyfan gwbl anaddas.

**JOHN PRITCHARD**

# Prydau ysgol am ddim ar gyfer teuluoedd ar incwm isel i barhau yn ystod y gwyliau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd prydau ysgol am ddim yn parhau i gael eu darparu i blant o deuluoedd incwm isel yng Nghymru yn ystod gwyliau'r ysgol, hyd nes hanner tymor mis Chwefror y flwyddyn nesaf. Bydd estyn y ddarpariaeth hon yn cefnogi teuluoedd incwm isel trwy'r argyfwng costau byw, wrth i brisiau ynni a chostau eraill godi dros y gaeaf.

Bydd £11m ar gael er mwyn ariannu'r cymorth hwn, mewn cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol, gyda chefnogaeth buddsoddiad o dros £100 miliwn hyd yma.

Dywedodd Sian Gwenllian, Aelod Dynodedig Plaid Cymru:

'Mae'r argyfwng costau byw yn gwaethygu, ac mae teuluoedd yn poeni'n fawr am yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn i gefnogi teuluoedd ar hyn o bryd, yn enwedig y rhai y mae costau cynyddol yn effeithio fwyaf difrifol arnynt. Yn ogystal â'n hymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod pob plentyn cynradd yn cael pryd ysgol am ddim, bydd y cymorth estynedig yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i deuluoedd incwm isel yn ystod gwyliau'r ysgol.


Mae'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cynnig cefnogaeth sy'n fawr ei angen i deuluoedd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.'



**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • AchlysuronArbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• PRIODASAU •

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk



**Tyddyn Teg**
Bwyd - Tir - Pobl

**LLYSIAU LLEOL FFRES**
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

DODREFN A LLORIAU
**PERKINS**
••• 01286 673535 •••
*www.perkinsfurniture.co.uk*
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG




Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

# CHWILAIR MIS TACHWEDD TÂN GWYLLT

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | L | E | C | I | A | N | G | E | B | S | T |
| O | L | W | Y | N | C | A | T | R | I | N | I |
| E | F | Ch | G | O | I | R | T | I | Ff | A | T |
| L | A | Ng | I | C | W | N | P | O | E | Th | Ll |
| C | T | U | A | M | A | L | Ff | T | W | P | Y |
| E | Y | O | Ll | N | R | O | C | E | D | I | W |
| R | R | P | E | C | W | O | Ff | O | T | U | G |
| Th | F | T | A | T | W | S | P | O | B | L | N |
| S | A | F | A | L | A | U | T | A | Ff | I | Â |
| G | W | R | E | I | Ch | I | O | N | E | S | T |
| T | Ll | I | W | I | A | U | Ll | A | Ch | A | R |
| Ff | Y | N | G | W | R | E | I | Ch | I | O | N |

**AFALAU TAFFI**
**CLECIAN**
**COELCERTH**
**CŴN POETH**
**FFLAMAU**
**FFYN GWREICHION**
**GUTO FFOWC**
**GWREICHION**
**LLIWIAU LLACHAR**
**OLWYN CATRIN**
**ROCEDI**
**TAFFI TRIOG**
**TÂN GWYLLT**
**TATWS PÔB**
**TYRFA**

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

**afalau taffi** - toffee apples
**clecian** - bangs
**coelcerth** - bonfire
**cŵn poeth** - hot dogs
**fflamau** - flames
**ffyn gwreichion** - sparklers
**Guto ffowc** - Guy Fawkes
**gwreichion** - sparks
**lliwiau llachar** - bright colours
**Olwyn Catrin** - Catherine Wheel
**rocedi** - rockets
**taffi triog** - treacle toffee
**tan gwyllt** - fireworks
**tatws pôb** - baked potato
**tyrfa** - crowd

## ATEBION I CHWILAIR MIS HYDREF CALAN GAEAF

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | W | N | D | P | E | G | W | R | A | Ch | O | D | Ng | I |
| A | Th | L | O | W | S | T | C | Dd | Ff | C | Ll | E | G | H |
| B | E | S | A | M | H | A | I | N | I | A | D | Y | W | C |
| R | M | E | I | P | A | N | M | E | T | L | N | E | I | O |
| U | L | A | B | E | S | Ll | P | W | U | A | O | L | S | E |
| C | A | S | T | N | E | U | G | E | I | N | I | O | G | L |
| H | D | Ph | N | A | S | U | C | N | D | G | D | C | Ff | C |
| Y | I | N | A | T | Dd | A | F | U | S | A | Y | T | A | E |
| D | W | I | D | Ch | W | R | B | H | A | E | R | E | N | R |
| R | E | T | W | C | E | R | R | I | G | A | B | Ch | S | Th |
| E | N | H | R | G | T | E | U | A | L | F | S | Ll | I | M |
| F | R | A | N | B | Th | Ch | W | Ll | Y | W | Y | T | Dd | N |

- **CALAN GAEAF**
- **CAST NEU GEINIOG**
- **CERRIG**
- **COELCERTH**
- **GWISG FFANSI**
- **GWRACHOD**
- **HWCH DDU GWTA**
- **HYDREF**
- **LADI WEN**
- **MEIPAN**
- **PWMPEN**
- **RWDAN**
- **SAMHAIN**
- **TYWYLLWCH**
- **YSBRYDION**

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*.

Diolch yn fawr.

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref. Yn eu mysg y mae'r canlynol:

**Clwb Cinio**
Yn Y Ganolfan, ar brynhawn dydd Iau, rhwng 2.00PM a 4.00PM.

**Capel Jerusalem**
Dyma drefn yr oedfaon, am 2.00PM, am y chwe wythnos nesaf:
Hydref 30ain: Mr Richard Morris Jones
Tachwedd 6ed: Mr Richard Parry Jones
Tachwedd 13eg: Mr Eurfryn Davies
Tachwedd 20fed: Dim Gwasanaeth
Tachwedd 27ain: Y Parchg Ddr Elwyn Richards
Rhagfyr 4ydd: Y Parchg John Gwilym Jones

**Arddangosfa**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10:30AM a 2:00PM o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau mis Tachwedd:
Dydd Sul, Hydref 30ain: 11.00AM - Boreol Weddi
Nos Fercher, Tachwedd 2il: 7.00PM - Dygwyl y Meirw: Offeren unedig Bro Eryri i gofio ein hanwyliaid ymadawedig.
Dydd Sul, Tachwedd 6ed: 11.00AM - Cymun Bendigaid
Dydd Sul, Tachwedd 13eg: 10.00AM - Gwasanaeth Sul y Cofio cyn symud ymlaen at y ddefod o flaen y Gofgolofn.
Dydd Sul, Tachwedd 20fed: 11.00AM - Cymun Bendigaid
Dydd Sul, Tachwedd 27ain: 8.00AM - Cymun Bendigaid / 11.00AM - Gwasanaeth teulu. Mae croeso cynnes i bawb o bob oed i ymuno â ni am wasanaeth byr ac anffurfiol gyda chrefftau a lluniaeth.

**Capel Coch**
Dyma drefn ein hoedfaon ar fore Sul dros y mis nesaf.
Hydref 30ain: Mr Dafydd Iwan
Tachwedd 6ed: Mrs Nerys Griffths
Tachwedd 13eg: Y Gweinidog
Tachwedd 20fed: Mr Richard Lloyd Jones
Tachwedd 27ain: Y Gweinidog
Cynhelir yr oedfaon am 10.00AM
Mae manylion am ddyddiadau'r Ysgol Sul i'w gweld ar wefan yr Ofalaeth (gronyn.org) ac ar dudalen *Facebook* Capel Coch.

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Bu'r grŵp yn brysur yn crosio eitemau i addurno Llanberis ar gyfer Calan Gaeaf. Gobeithio eich bod i gyd yn hoffi'r *topper* blwch post, o flaen yr hen Swyddfa Bost, a'r addurniadau yn yr Ardd Gymunedol. Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00PM tan 7.30PM.  Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!







**Pentref Taclus**
Diolch i Grŵp Datblygu Llanberis am dacluso tu allan i siop Spar. Mae'n edrych yn hyfryd yno rŵan gyda'r blodau a'r cerrig.

Mae grŵp gwirfoddolwyr Pentref Taclus yn dal yn brysur o amgylch y pentref, yn codi sbwriel ac yn dechrau plannu bylbiau cennin pedr. Os dymunwch ymuno â ni, edrychwch ar ein tudalen *Facebook* i weld beth sy'n mynd ymlaen gyda ni, neu dowch i'n cyfarfod am 10.00AM ar fore Sul, y tu allan i Siop Menter Fachwen, Stryd Fawr, Llanberis.

Daeth Pentref Taclus i ddeall fod Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i lanhau cymunedau gyda buddsoddiad newydd. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud buddsoddiad o £1.5 miliwn i fywiogi ardaloedd lleol. Bydd yn ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau gan gynnwys: clirio palmentydd, cael gwared â graffiti, tacluso ymylon, gosod biniau, delio â thipio hedfan a chwynnu.

Cysylltodd y Grŵp gyda'r Cyngor, a gofyn iddo ystyried dod i Lanberis i ddechrau tacluso. Rydym yn falch iawn ein bod wedi bod yn llwyddiannus, ac mae tîm Ardal Ni wedi cychwyn yma i wneud gwahaniaeth.



# Gofod Gwyrdd Wybrennau Tywyll

BU CIRCOARTS, Y Festri, Llanberis yn mynd a'u perfformwyr ifanc i gyfres o ddigwyddiadau celfyddydol cyffrous sy'n cael eu galw'n "Gofod Gwyrdd Wybrennau Tywyll"(GGWT). Fe'u crëwyd gan y gyfundrefn gelfyddydol *Walk the Plank* a datblygwyd y digwyddiadau i amlygu ein perthynas i'r tir a sut allwn ni ei fwynhau mewn ffordd gyfrifol, fel rhan o'r prosiect "*UNBOXED: Creativity in the UK*".


Liz Pugh a John Wassell, sydd â chariad arbennig at Ogledd Cymru, sy'n rhedeg ***Walk the Plank*** a leolir ym Manceinion. Maen nhw a'u tîm o arbenigwyr celf awyr agored yn cyd-weithio i feddwl am, creu a chynhyrchu profiadau theatr awyr agored a chyfranogiad anhygoel. Mae ganddynt hanes hir o greu digwyddiadau ac achlysuron ar raddfa fawr, sy'n dod a phobl at ei gilydd mewn dathliadau cyhoeddus, yn seiliedig ar eu gallu i fedru creu syniadau mawr artistig sy'n cysylltu pobl o bob math. Dweud stori sydd wrth galon popeth maent yn ei wneud, a'r awyr agored yw eu man perfformio. Eu perwyl yw cyfoethogi bywydau drwy rannu profiadau creadigol. Cynhyrchodd *Walk the Plank* Gofod Gwyrdd Wybrennau Tywyll gan gyd-weithio efo'r cwmni technoleg Siemens, Prifysgol Salford, Parciau Cenedlaethol DU a'r Gymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Neilltuol.

Cynhaliodd Gofod Gwyrdd Wybrennau Tywyll y bennod gyntaf o ddigwyddiadau yn GGWTau ar draws y Deyrnas Unedig, gan wahodd miloedd o wahanol bobl i brofi tirluniau hardd yn y cyfnos. Rhwng misoedd Ebrill i Fedi eleni, bydd tyrfaoedd yn dathlu natur a'n cyfrifoldeb ni i'w amddiffyn, ar y cyd a hawl pawb i'w archwilio. Trwy ddefnyddio Geolights effaith isel crewyd profiadau hudol, cofiadwy yn yr awyr agored. Rhoddodd *Walk the Plank* wahoddiad i CircoArts a pherfformwyr lleol i fod yn rhan o'r digwyddiadau yng Ngogledd Cymru.

Dywedodd Thomasine Tomkins, sylfaenydd CircoArts ac elusen Celfyddyd Gymunedol Y Festri, "Mae wedi bod yn fendigedig i roi cyfleoedd perfformio anhygoel i bobl ifanc sy'n rhan o'n clybiau. Ddechreuon ni drwy fynd a 10 o dîm CircoPyro a'r Syrcas Ieuenctid i Ddinas Dinlle ar gyfer y digwyddiad prawf, i ymarfer fel 'Capteiniaid Perfformio', ac ymhellach ymlaen i fod yn rhan o berfformiad mwy o 150 o bobl gyda gwahoddiad i'r cyhoedd ymuno. Wnaethon ni ddefnyddio Geolights *high tech,* grewyd gan Siemens, a *Core Lighting* yn arbennig i'r prosiect, i oleuo siapiau fel olion troed ac esgidiau a phatrymau troellog symudol ar y dirwedd. Ffilmiwyd popeth yn y cyfnos o'r awyr gan ddronau. Roeddem wrth ein bodd o gael gwahoddiad yn ôl i ddigwyddiad ar Fynydd Parys. Aeth gwirfoddolwr Y Festri, Nicola Brown a minnau a phump o'n syrcas Ieuenctid, Mzima Tomkins, Siwan Roberts, Toby Thomas, and Megan a Lauren George i sefyll ar y gorwel yn dal ffaglau fel rhan o'r digwyddiad cyhoeddus. Cawsom ein gwneud i deimlo mor arbennig o gael ein cynnwys yn y criw gan John Wassell, a siaradodd gyda'n hieuenctid am lwybrau gyrfa yn y diwydiant cynhyrchu ac achlysuron, ac mi gawson ni gyfle i wisgo'r enwog *boiler suits* coch *Walk the Plank*. Wrth i ni berfformio roedden ni'n gweld y cyhoedd yn dal y *Geolights* wrth iddynt gerdded o gylch yr hen fwynglawdd copr, heibio bardd y cerddorion lleol, a'r cerfluniau tân, celf a sain.

Yn ogystal, wrth i'r tyrfaoedd gasglu buom yn cynnal gweithdai syrcas. Wrth i'r nos dynnu ati diddanodd ein perfformwyr ifanc y







cyhoedd efo sgiliau syrcas LED tra roedd cerddorion lleol yn drymio. Drannoeth ymunodd *CircoArts* â'r tîm ym Mhorth Amlwch a chyflwynodd yr un grŵp o bobl ifanc weithdai sgiliau syrcas i'r 400 o aelodau'r cyhoedd, tra roedd cerddorion lleol yn chwarae. Wedyn cawsom wylio'r porthladd wedi ei oleuo'n wyrthiol gyda *Geolights*, yn nwylo cyfranogwyr cyhoeddus, wrth i hen long hwylio a chyn fad achub Cemaes, y ddau wedi eu haddurno efo *Geolights*, hwylio allan i'r môr. Ar ddiwedd y noson gwnaeth Liz Pugh bwynt arbennig o ddiolch yn bersonol i'r perfformwyr, gan werthfawrogi ein cyfraniad.

Darlledwyd rhaglen BBC Cymru Wybrennau Tywyll o Fynydd Parys a'r gweithgareddau Cymreig ar 2ail Hydref, a gallwch ei wylio yn awr ar BBC I-player

Aeth pennod olaf y GGWT i'r pedwar mynydd uchaf yn y pedair cenedl. Scafell Pike yn Lloegr, Ben Nevis yn yr Alban, Yr Wyddfa yng Nghymru a Slieve Donard yng Ngogledd Iwerddon.

Gwahoddwyd CircoArts yn ôl unwaith eto, y tro hwn i ddod a 16 o egin berfformwyr syrcas, dawnswyr, artistiaid a myfyrwyr amgylcheddol, oedd i gyd efo cysylltiad â'r ardal, i ymuno â'r tîm o Gapteiniaid Perfformio, i fyny ar yr Wyddfa. Dywedodd Thomasine, "Doedd o ddim i'r gwan galon, gan i ni dreulio 2 ddiwrnod yn ymarfer a ffilmio ar lan Llyn Llydaw, ar adegau'n rhedeg dros y traeth caregog yn cario *Geolights* uwch ein pennau, i greu patrymau wrth i'r haul fynd lawr. Mae cyfleoedd perfformio ar y raddfa hon yn ein hardal ni'n brin ac roeddem wedi gwirioni y bydd beth wnaethon ni ei greu, yn mynd allan i gynulleidfa o filiynau! Edrychodd *Walk the Plank* ar ein holau'n arbennig o dda ac roedd y drefniadaeth yn ddi fai. Roedd hwn yn brofiad hollol unigryw y gallai CircoArts ei gynnig, gan greu celf mewn tirwedd hollol syfrdanol a gydag un o'r cwmnïau digwyddiadau mwyaf yn y DU.





Roedd rhaid i'r perfformwyr dyngu i gadw popeth yn gyfrinachol i sicrhau bod y digwyddiad yn gwarchod a pharchu'r dirwedd. Fodd bynnag darlledwyd y ffilm derfynol ar bennod arbennig o'r rhaglen BBC Countryfile ddiwedd Hydref. Os na chawsoch chi gyfle i weld y rhaglen Countryfile arbennig hon, mae hi bellach ar gael i'w gwylio ar BBC I-player.

Dywedodd Liz Pugh o *Walk the Plank*, "Mae hi wedi bod yn wych i weld cyfranogiad pobl ifanc CircoArts, o'r alwad gychwynnol ar gyfer y digwyddiad prawf yn Ninas Dinlle i ddal ffaglau i oleuo Mynydd Parys ac yna bod yn rhan o'r cast ar gyfer y ffilmio olaf dros ddwy noson ar yr Wyddfa. Unwaith eto, cefnogodd Tom a'i thîm y bobl ifanc i ddod i gamu i fyny i weithio fel artistiaid proffesiynol a chwarae rhan yn gwneud i gelf anhygoel ddigwydd yn nhirwedd Gogledd Cymru. Buont yn arwain gweithdai syrcas fel rhan o'r digwyddiad ym Mhorth Amlwch ac yna perfformio eu hunain i'r holl gyfranogwyr, oedd yn disgwyl am fysiau, yn dilyn y digwyddiad ar Fynydd Parys - maent wedi bod yn ymroddedig a gweithio'n galed - ni fyddem wedi gallu ei wneud hebddyn nhw."


SPAR

**Y Storfa, Spar, Llanrug**

Sgwâr Llanrug

**01286 673108**



Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**

a chroeso cynnes

Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am



SAMARIAID

Gogledd Orllewin Cymru

**Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu**

**Rydyn ni yma i wrando**

**Llinell Gymraeg ddi-dâl**

**7-11pm bob nos**

**0808 164 0123**

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Crwydro gerddi





Yn y rhifyn diwethaf, sef Hydref, bûm yn crwydro Gerddi Bodnant, ond y tro yma bûm yn crwydro ychydig yn nes at adra.

Lawr y lôn o Ddeiniolen mae gardd sy'n agor ei giatiau i gofleidio'r cyhoedd o leiaf dwywaith y flwyddyn o dan y cynllun 'National Garden Schemes'. Bob tro dwi'n gweld yr arwyddion melyn ar gylchdro Tŷ Mawr, dwi'n deud, "Rhaid i ni fynd yno!" ac fel arfer pan ddaw'r diwrnod mae rhywbeth arall wedi mynd ar draws yr ymweliad.

Ond eleni ar ddiwedd mis Medi ddaeth yna ddim byd i'm rhwystro fi a'r gŵr rhag ymweld â gardd hyfryd Llys y Gwynt. I'r rhai ohonoch sydd ddim yn siŵr am le dwi'n sôn, trowch i'r chwith jest cyn cyrraedd garej a chyfleusterau 'One Stop'.

A dyma drysor heb ei ddisgwyl, gan fod ffiniau'r ardd ar yr A55 (ac mae sŵn trafnidiaeth i'w glywed yn glir o'r ardd) ac nad oes dim o'r harddwch i'w weld wrth i chi basio.

Roeddwn i wedi gweld arwyddion ar gyfer diwrnod agored yn ystod yr haf, ond yn rhy brysur yn trio dod i ben a fy ngardd fy hun i fynd am sbec. Fodd bynnag, er bod pethau eraill yn galw, roedd gen i amser i fynd am dro i weld a dysgu o ardd rhywun oedd yn ddigon dewr i adael y cyhoedd i mewn i'w gardd ym mis Medi.

Digon o le i barcio! Bonws bob amser. Dyn clên wrth y fynedfa, a'r pris mynediad yn mynd at elusen.

Dwi'n hoffi gweld bod pethau sydd eu hangen os ydych am arddio yn y golwg, nid wedi eu cuddio neu eu stwffio i ryw gongl lle na fydd neb yn eu gweld.

Mae'n amlwg fod trefn yma, yn y garddio o ddydd i ddydd ond hefyd wrth ganiatáu i ddieithriaid ddod i fusnesa ond yn bennaf oll i fwynhau'r hyn rydach chi'n ei fwynhau'n feunyddiol.

Wrth gyrraedd y tŷ llwyddais i sgrialu i fyny stepiau er mwyn gweld beth oedd yn cuddio tu hwnt. Fodd bynnag oherwydd yr arwydd llithrig a bod y gŵr yn dal, penderfynodd o i gadw draw. A dyna weld ffordd o ddefnyddio









### Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru – 'Cefnogi pobl sy'n byw gyda cholli golwg'

# Denu Ymddiriedolwyr Newydd

Eleni mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn dathlu 140 mlynedd o ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n colli eu golwg. Mae'r elusen yn gobeithio recriwtio sawl Cyfarwyddwr gwirfoddol newydd i ymuno â'r tîm ymroddedig.

Mae'r elusen, sydd wedi'i lleoli ym Mangor, yn darparu llawer o wasanaethau i blant ac oedolion sydd wedi colli eu golwg. Ymhlith y gwasanaethau y maent yn eu darparu mae: canolfan adnoddau, asesiadau a thechnoleg arbenigol, clybiau a grwpiau, recordio llyfrau lafar a llawer mwy o wasanaethau hanfodol eraill.

Dyma gyfle gwych i ymuno â grŵp bach o Gyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ymroddedig sy'n cyfarfod unwaith y mis naill ai wyneb-yn-wyneb neu drwy gyfrwng gyfarfod rhithiol.

Mae'r elusen yn chwilio am unigolion sy'n barod i roi rhywfaint o'u harbenigedd a'u hamser i helpu i arwain a gwerthuso ein gwasanaethau yn ogystal â datblygu gwasanaethau a chyfleoedd newydd ac arloesol.

Mae'n arbennig o awyddus i recriwtio rhai sydd â rhwydweithiau personol a phroffesiynol cryf a sgiliau ym maes trefniadaeth, cyllid, y gyfraith, busnes. Byddai profiad o weithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol hefyd o fantais. Byddwn yn croesawu ymholiadau oddi wrth rai sydd â phrofiad o wirfoddoli ar bwyllgorau neu oddi wrth bobl sydd am gymryd rhan am y tro cyntaf.

Ar ôl gadael ei rôl yn ddiweddar dywedodd cyn-cyfarwyddwr:

"Mwynheais fy nghyfnod fel Cyfarwyddwr gyda'r Gymdeithas yn fawr, wrth weithio'n agos gyda'r staff a'r gwirfoddolwyr i wneud penderfyniadau roeddem yn gallu eu rhoi ar waith yn gyflym. Roedd yn hynod o braf cael gweithio gydag elusen leol a gweld newid go iawn yn digwydd bob mis er mwyn gwella a datblygu gwasanaethau i bobl ddall a rhannol ddall. Byddwn yn annog unrhyw un sydd â rhywfaint o amser sbâr i ymweld â'r elusen yn 325 Stryd Fawr, Bangor, i weld drostynt eu hunain y gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud."

Os oes gennych ddiddordeb, neu os ydych yn gwybod am rywun a allai fod â diddordeb mewn gwneud cais i fod yn Gyfarwyddwr, ffoniwch Steven Thomas, Prif Weithredwr, ar 01248 353604.

Am fwy o wybodaeth am yr elusen gweler www.nwsb.org.uk





boncyffion i greu cerflun o flaen coed byw, hyfryd!


Da gweld hefyd nad tyfu pethau hardd i'w edmygu drwy'r llygaid sy'n mynd ymlaen yma. Mae yma ardd lawn o lysiau - dim yn fawr efallai - ond yn ddigon i fwydo'r perchnogion am ran o'r flwyddyn o leiaf.

Wrth grwydro o gwmpas yr ardd roedd hi'n braf gweld bod ambell i fainc i gael hoe fach ac edmygu'r hyn sy'n tyfu, gwers bwysig i bob garddwr, gwneud amser i fwynhau yn lle rhedeg o gwmpas fel ci ar ôl ei gynffon yn trio plannu, chwynnu a thocio. Heb eistedd yn ôl ambell waith dydach chi ddim yn cael siawns i weld sut mae'ch gardd yn edrych, myfyrio dipyn cyn mynd ati wedyn i wella.

Ond ymlaen a ni a'r borderi yn ein harwain o un i'r llall at *yucca* fawreddog yn ei blodau ac yna at bont garreg fach hardd yn ein tywys o un rhan o'r ardd i'r llall. A chyrraedd rhywbeth fyddwn i wrth fy modd yn ei gynnwys yn fy ngardd, petasai gen i ddigon o le - dŵr! A dim jest dŵr, lili'r dŵr a physgod aur a cherfluniau sy'n rhoi dimensiwn arall i'r ardd, ambell un yn hawdd i'w weld a'i fwynhau ac ambell un ddim mor amlwg.

Welais i ddim mo'r dylluan nes i mi gerdded heibio o gyfeiriad arall am yr eildro. Yn sicr





allech chi ddim bwyta'r fadarchen yma ac mae'r cloc haul yn hyfryd yng nghanol y *sedum* lliwgar. Rhywbeth sydd gen i adra - *sedum* nid cloc haul!

Ymlaen drwy'r bwa a sylwi bod yr hydref ar ei ffordd er mai mis Medi oeddwn i'n crwydro'r tro hwn a dotio at yr acer sydd wedi ei thocio i fod yn dwmpath porffor a nifer o ymwelwyr eraill fel finnau'n dotio at hwn.

Gardd hyfryd a diolch i'r perchnogion John Evans a Jennifer Rickart am agor eu gardd hyfryd i mi a'r gŵr a llawer un arall i'w mwynhau. Mawr obeithio y cawn ddychwelyd yn haf 2023, os byw ac iach.









# Ysgol Llanrug



**Wythnos beicio i'r Ysgol**
Er gwaethaf y tywydd daeth nifer o'r plant gyda'u beiciau neu sgwtyrs i'r ysgol.

**Parc Glynllifon**
Bu plant blwyddyn 3 a 4 ym Mharc Glynllifon yn ymchwilio i'r newidiadau yn y tymhorau.







**Pêl-rwyd**
Roeddem yn falch iawn o'r tîm pêl-rwyd yn ddiweddar yn llwyddo i gyrraedd y rownd gynderfynol yng nghystadleuaeth yr Urdd.



**Macmillan**
Bu i'r staff gynnal bore coffi i godi arian i Macmillan ddiwedd mis Medi. Cyfrannwyd £73.45 at yr achos.

**Technocamps**
Daeth Technocamps i'r ysgol gyda'r offer cyfrifiadurol a chodio mwyaf diweddar. Cafodd y plant modd i fyw yn ymchwilio ac ymateb i broblemau









**Meddylfryd o Dwf**
Rydym wedi dathlu Meddylfryd o Dwf yn ddiweddar drwy ymateb i brofiadau a phroblemau. Roedd y plant wrth eu boddau.

# Ysgol Waunfawr

**Ffarwelio**
Yr ydym yn ffarwelio gyda Mr Cemlyn gan ei fod wedi derbyn swydd newydd yn Ysgol Pendalar. Dymunwn y gorau iddo yn ei swydd newydd a diolchwn iddo am ei gymorth yn ystod y misoedd diwethaf.

**Pêl-rwyd**
Llongyfarchiadau i'r genethod a fu'n cystadlu yn nhwrnament yr Urdd ar gyfer ysgolion yn ddiweddar. Bu iddynt ennill dwy gêm a cholli dwy gêm, ond yn fwy na dim bu iddynt ddangos ymdrech a brwdfrydedd tuag at y gêm. Daliwch ati genod!




**Dosbarth Derbyn**
Dyma blant y Dosbarth Derbyn yn mwynhau cael mynd am dro i chwilio am ffrwythau’r hydref, ac yn edrych ymlaen at gael gwneud crymbl blasus yn y dosbarth!







**Deinosoriaid**
Yr oedd bwrlwm yn y dosbarthiadau ieuengaf yn ddiweddar, wrth i ddeinosoriaid ymweld â’r ysgol drwy gwmni proffesiynol Trex. Bu i’r plant ddarganfod wyau deinosor a dysgu llawer iawn o ffeithiau am y gwahanol fathau o ddeinosoriaid a’u nodweddion. Lluniwyd pob math o negeseuon o gwmpas yr ysgol wrth i’r dysgwyr ddefnyddio eu sgiliau llythrennedd i gyfathrebu am yr hyn a ddysgwyd.



**Thema Ail Ryfel Byd**
Mae plant CA2 wedi bod yn astudio rhyfel a heddwch ac wedi bod yn brysur yn casglu arteffactau a hanesion teuluol yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth a ffeithiau am yr ail ryfel byd drwy amrywiaeth o dasgau fel rhan o’u gwaith cartref. Mae pawb wedi mwynhau’r thema yn fawr iawn hyd yma ac yn awyddus i glywed gennych os oes stori neu rhywbeth i’w ddangos.














# LLANRUG

**Gwellhad buan**
Rydym yn falch o glywed fod Gwenda Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf yn gwella yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymuniadau gorau a chofion cynnes ati.

Rydym yn dymuno'r gorau ac yn anfon cofion cynnes i Rhian Jacques ac Islwyn Roberts, y ddau o Stâd Glanffynnon sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

**Clwb Snwcer**
Mae Clwb Snwcer Llanrug yn ail ddechrau ac yn chwilio am aelodau newydd. Os oes ganddoch chi ddiddordeb ac awydd rhoi cynnig arni ar ddechrau tymor newydd, cysylltwch â Danny Griffith ar 07525 717344 am ragor o fanylion.

**Diolch**
Mae Olwen a Linda yn diolch i bawb am y gefnogaeth gafwyd yn ystod Bore Coffi Macmillan a gynhaliwyd yn y Sefydliad Coffa fore Gwener y 30ain o Fedi. Mae'r cyfanswm a godwyd dros £660 erbyn hyn, ac os oes rhywun yn dymuno rhoi cyfraniad, mae'r gronfa'n parhau i fod ar agor ar hyn o bryd.

Dymuna teulu'r diweddar Gwyn Martin Williams, Tŷ'n y Coed, ddiolch o galon am yr holl gydymdeimlad, caredigrwydd a'r rhoddion hael a dderbyniwyd er cof amdano.

Ar ôl brwydro'n arwrol am gyfnod hir, bu farw Gwyn ar y 27ain o Fawrth, 2022. Ei ddymuniad oedd bod unrhyw rodd yn ei enw yn mynd tuag at gronfa Meddygfa Llanberis. Bellach, mae'r feddygfa wedi archebu nifer o beiriannau newydd a fydd o fudd mawr i drigolion y gymuned.

Hoffai Hâf, Rhys a Ffion hefyd ddiolch yn fawr i Bryn Williams (Tan Gaer) am wasanaeth mor deimladwy ac i Roberts & Owen, Penygroes, am eu gofal a threfniadau arbennig.





ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com


**Te Prynhawn er budd elusen Marie Curie**
Codwyd dros £800 er budd elusen Marie Curie mewn Te Prynhawn a drefnwyd gan Dr Esyllt Llwyd yn Nhafarn Glyntwrog ar yr 8fed o Hydref. Cafwyd adloniant arbennig gan Annette Bryn Parri yn ystod y prynhawn, a Teresa Glyntwrog fu'n gyfrifol am baratoi'r bwyd. Mae Dr Esyllt yn diolch i bawb am gefnogi.

**Profedigaeth**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Michael, Helen, Iola a John o golli gwraig addfwyn a mam annwyl sef Brenda Bayldon Jones, Treflys, Ffordd yr Orsaf yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar y 27ain o Fedi. Colled fawr i'w theulu a'i ffrindiau oll. Rydym yn meddwl amdanoch yn y cyfnod anodd yma.

Danfonwn gydymdeimlad dwys i deulu y ddiweddar Dilys Lloyd Hughes, fu farw yn dawel yng nghwmni ei theulu yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon ar y 7fed o Hydref. Priod y diweddar Dafydd Peris, a mam Rhydwen, Emyr, Harry a'r ddiweddar Ceridwen, a mam yng nghyfraith Eleri a'r diweddar Eddie a Jude. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau oll. Mae nifer o aelodau'r teulu yn byw yma yn Llanrug ac rydym yn meddwl amdanoch.

Rydym yn estyn cydymdeimlad dwys i Carolyn a John, Steven a Ffion, Efa a Macsen a Megan ac Enid o golli mam a mam yng nghyfraith, nain, hen nain a chwaer hoffus sef Phyllis Evans, 2 Rhes Cynfi Deiniolen, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar y 7fed o Hydref. Colled hynod o drist i'w theulu a'i ffrindiau oll. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu ac yn anfon ein cofion atoch.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Ffion Jon a chwmni teledu Darlun ar ennill gwobr yn y categori Cyfres Ffeithiol Orau yng Ngwobrau BAFTA Cymru yng Nghaerdydd, ddydd Sul y 9fed o Hydref, gyda'r gyfres arbennig "Ysgol Ni: Y Moelwyn." Ffion oedd Cynhyrchydd/Gyfarwyddwr y gyfres, a ffilmiwyd ar leoliad yn yr ysgol ym Mlaenau Ffestiniog ar ddechrau 2021 wrth i'r ysgol baratoi i ail agor yn dilyn y cyfnod clo. Fel un a gafodd ei magu yma yn Llanrug, rydym yn hynod falch o'i llwyddiant ac yn anfon llongyfarchion calonnog iddi.

**Plaid Cymru Llanrug a'r Cylch**
Nos Fercher yr 16eg o Dachwedd, bydd cyfle i gyfarfod a dod i adnabod tair o Gynghorwyr Sir newydd yr ardal sef Menna Jones, Sasha Williams a Kim Jones. Bydd y Cynghorydd Beca Brown hefyd yn bresennol. Cynhelir y cyfarfod yn y Sefydliad Coffa am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Genedigaeth**
Ar 15fed Medi ganwyd Mabli Fflur, merch fach i Gwenllian ac Adam Owen, 2 Parc Canol. Llongyfarchiadau i chwi ac i John a Linda (Co-op Llanrug) ar ddod yn daid a nain ac i Mona Parry a Noel sydd yn hen nain a hen ewythr i Mabli fach.

**Cronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023**
Mae llu o ddigwyddiadau a gweithgareddau codi arian er budd yr Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn nesaf wedi eu cynnal dros y misoedd diwethaf, gyda mwy ar y gweill rhwng rŵan a'r Nadolig ac i'r flwyddyn newydd.

Diolch i fusnesau lleol y pentref am gefnogi raffl arbennig oedd wedi ei drefnu fel rhan o Sioe Clwb Dawns Hudoliaeth a gynhaliwyd yn Theatr Seilo, Caernarfon nôl ym mis Mehefin. Codwyd £202 drwy werthiant y raffl. Diolch i'r holl fusnesau am eu cefnogaeth ac i bawb oedd yn bresennol yn Theatr Seilo.

Cynhaliwyd dwy sêl ddillad ail law dros y misoedd diwethaf yn y Sefydliad Coffa, a'r ddwy wedi bod yn hynod o lwyddiannus gan godi dros £600. Dosbarthwyd gweddill y dillad rhwng pedair elusen sef Ambiwlans Awyr, O Law i Law, Ysgol Pendalar a Ffoaduriaid Wcráin. Diolch i bawb wnaeth gefnogi.

Cafwyd noson lwyddiannus dros ben yng nghwmni Bwncath yn Nhafarn Penbont nos Wener y 7fed o Hydref, a'r lle dan ei sang. Roedd pob tocyn wedi ei werthu a chafwyd rhost mochyn gan John y Dyn Cig, a phawb wedi mwynhau. Diolch o galon i Jackie a Carolyn sy'n cyd-redeg Penbont ac i'r Dyn Cig am y bwyd blasus! Codwyd gyfanswm o £1,295 ar y noson.

**Noson Cwis a Cyri yn Glyntwrog** ar nos Fercher, 9ed Tachwedd am 7.30 o'r gloch. Pris mynediad fydd £15. Bydd timau o 4 aelod yn cystadlu â'i gilydd a bydd gwobrau da i'r tim buddugol. Cyfle i chi ddangos eich gwybodaeth mewn llawer o feysydd ond yn bennaf oll cyfle i chi gael llawer iawn o hwyl. I sicrhau eich lle ar y noson cysylltwch a Donna Taylor ar 07789 738649 cyn gynted ag y bo modd.

**Merched y Wawr, Llanrug**
Estynnwyd croeso i bawb, nos Fawrth 11eg Hydref yn y Sefydliad Coffa, gan ein Llywydd Mair Huws. Cychwynwyd y noson gyda chân y Mudiad gyda Susan yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan nifer o aelodau a dymunwyd adferiad iechyd buan i bawb. Hyfryd oedd croesawu aelodau newydd atom ym mis Medi.

Chwi gofiwch i ni gael noson o gyngerdd mawreddog i gychwyn ein tymor ym mis Medi gyda'r canwr amryddawn, pianydd medrus ac athro cerdd, Tim Ward, un o bentref bach Llanbêr sy'n hanu o deulu cerddorol iawn. Cyflwynodd hanes ei yrfa i ni yn ei ffordd ffraeth a difyr a chyflwynodd nifer



**Phyllis Ellis a Tim Ward**

o ganeuon amrywiol a phoblogaidd. Gyda Susan, aelod o'r gangen, yn cyfeilio iddo cafwyd gwledd o noson fythgofiadwy gyda Tim yn gwerthfawrogi cyfraniad canmoladwy Susan fel cyfeilydd proffesiynol iddo. Do cafwyd "Noson o Langollen fach", yma yn Llanrug. Diolchwyd iddo gan Phyllis, Llywydd Anrhydeddus y gangen.

Llongyfarchwyd holl blant y fro yn yr amrywiol arholiadau gan ddymuno yn dda i'r rhai sy'n parhau mewn addysg yn yr ysgol neu goleg, prentisiaeth neu ym myd gwaith.

Atgoffwyd pawb am gystadlaethau'r Ffair Aeaf ar 28 - 29ain o Dachwedd:

**Crefft:**

- Seren - unrhyw gyfrwng, unrhyw faint
- Unrhyw eitem Nadolig
- Ysgyfarnog neu gwningen, unrhyw gyfrwng

**Coginio**:

- Cacen Nadolig i unigolyn wedi'i haddurno (y gacen a'r addurn i'w feirniadu) Caniateir dwy ymgais ymhob dosbarth gan bob aelod.
- Gofynnir yn garedig i bawb ddychwelyd y ffurflen gais at Tegwen Morris, Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1JH neu ar e-bost www.merchedywawr.cymru
- Bydd Merched y Wawr yn Genedlaethol yn talu'r tâl cofrestru.

**Cystadleuaeth Cynllunio Cerdyn Nadolig, 2023**

Beth am ddangos eich doniau creadigol?

1) Cynlluniwch gerdyn mewn unrhyw gyfrwng. Rhaid i'r cynllun fod yn wreiddiol ac yn addas ar gyfer ei atgynhyrchu. Mae'n rhaid mai eich eiddo chi yw'r gwaith gwreiddiol. Bydd y buddugwyr yn cydweithio gyda'r Wasg i argraffu'r cardiau.

2) Cyfansoddwch gerdd neu farddoniaeth wreiddiol i'w roi o fewn y cerdyn. Rhaid i'r cardiau a'r enwau gyrraedd y Ganolfan Genedlaethol erbyn 10fed Rhagfyr, 2022.

Cynhelir Cwis Hwyl yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd ar 11eg Tachwedd. Yr un fydd y drefn o ran timoedd. Fe fydd dewis o naill ai salad ham neu eog ar gael a phaned o de neu goffi am £20 y pen.

Er gwybodaeth cynhelir Eisteddfod Cylch yr Urdd, Cylch Ysgol Brynrefail ar 4ydd Mawrth.



**Un o gwiltiau Wenna Hughes**

Gwraig wadd y noson oedd Wenna Hughes, o Gaernarfon yn wreiddiol ond sydd wedi dychwelyd yno wedi blynyddoedd lawer ym Môn. Cafodd yrfa amrywiol gan drin gwallt, gweithio i'r Mudiad Ysgolion Meithrin a gweithio fel tywysydd yn Yr Wylfa. Cawsom sgwrs ddifyr ganddi am ei diddordeb mewn cwiltio a'i diddordeb mawr yn y pwytho. Cafwyd wledd i'r llygaid wrth iddi ddangos ei chasgliad cywrain o wahanol gwiltiau. Ei chwilt cynharaf oedd un wedi ei wneud gyda defnydd Laura Ashley. Rhyfeddai pawb wrth iddi ddangos y gwahanol gwiltiau a difyr oedd yr hanes y tu ôl i bob un - cwilt o rosod amryliw, cwilt priodas, cwilt a bag siopa wedi ei wneud allan o hen jîns, un allan o hen grysau, cwilt morwrol, cwilt Ynys Môn gyda chalonnau, bythynnod a goleudy Llanddwyn a rhosod Tuduraidd. Diolchwyd i Wenna gan Jean, un arall sydd yn freintiedig mewn sawl maes, a chytunwyd â Jean i ni gael noson arall o ryfeddod ac edmygedd.

Diolchwyd i Genod Talybont ac Eirian am baratoi'r baned. Enillydd y raffl oedd Yvonne Owen.

Ar 8fed o Dachwedd edrychir ymlaen am noson hwyliog o 'Osod Blodau', yng nghwmni Susan Land.

Byddwn yn dathlu'r Nadolig yn 'Y Wal' yng Nghaernarfon ar y 13eg o Ragfyr.

**Clwb Clychau'r Grug**

Cyfarfu'r genod yn 'Y Felin', Llanrug bnawn Mercher 12fed Hydref. Byddwn yn cyfarfod yn 'Y Felin', bnawn Mercher 11eg Tachwedd am 1.00PM. Gobeithir trefnu Cinio Nadolig ar gyfer mis Rhagfyr. Anfonwn ein cofion anwylaf at Glenys Siencyn yn Llanharan.

**Sefydliad Coffa Llanrug**

Cynhelir y gwasanaeth blynyddol i gofio y rhai a gollwyd yn y ddau ryfel byd yn y Sefydliad Coffa am 9:00 fore Sul y 13eg o Dachwedd. Cwis, Sgwrs a Phaned **-** Yn y Sefydliad Coffa ar brynhawn dydd Iau, 10fed o Dachwedd am 2.00pm cynhelir cwis darluniadol gan Dafydd Whiteside – *Nabod Cerrig* – yn cael ei ddilyn gan sgwrs am yr atebion, a phaned i iro'r llwnc (ar gyfer y dadlau tybed!). Pris £3. Elw i Gronfa Llanrug tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2023.


**Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023**

Dyma'r digwyddiadau sydd wedi eu trefnu ar gyfer mis Tachwedd ar gyfer codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023.







# Cyrens Duon a Pherllan Orennau.

Soniais yn y rhifyn diwethaf fel yr oedd dau dyddyn o tua pedair acer yr un yn ffurfio ynys o dir preifat rhwng eiddo Elusen Tlodion Rhuthun yn Llanberis, eiddo Stad Glynllifon ym mhlwyf Llanrug a hen derfyn plwyf Llanbeblig rhwng y Cefn Du a Moel Eilio. Y cyfeiriad cyntaf at chwarel lechi ym Mwlch y Groes yw 1813, ond yr enw cyntaf a'r cynharaf am dyddynnod Bwlch y Groes a Thy'n y Mynydd yw Edward Foulkes, a hynny yn 1801.

Yr oedd Edward Foulke/s a Jane Griffith yn priodi drwy drwydded yn Eglwys Llanberis ar y 12fed o Dachwedd 1790. Gallai arwyddo ei enw, ond nid felly Jane. Yr oedd y ddau'n byw o fewn plwyf Llanberis ar y pryd, ond ni roddir cyfeiriad iddynt. Cwta un mlynedd ar ddeg fu eu priodas, oherwydd claddwyd Jane ym mis Hydref 1801, a hefyd eu merch, Alice/Als. Ar y pryd roeddent yn byw yn Nhy'n y Mynydd. Roedd tair o enethod wedi eu geni iddynt yn ystod yr amser hwn: Jane, Elinor a Jonet. Priododd Edward Foulke/s am yr ail waith gyda Catherine, ond ym Mhant y Ceubren roedd y cwpl yn byw yn 1808. Enw Edward Foulke/s sydd ym meddiant Chwarel Bwlch y Groes yn 1813 pan oedd ar osod. Ond yn Nhy'n y Mynydd roedd yn byw yn 1814 pan fedyddiwyd Ann, merch arall iddo. Dair blynedd yn ddiweddarach, roedd yn byw yn y Tŷ Du. Cymhleth!

Fel yn hanes Bwlch y Groes, teuluoedd gwahanol sy'n byw yn Nhy'n y Mynydd fesul Cyfrifiad, a 'phobol ddwad' yw'r mwyafrif ohonynt. 1871 – John Owen (Llannor) a'i wraig Mary (Llanbeblig). 1881 – Owen Jones (Abererch) a'i wraig Jane (Llanystumdwy). 1891 – David Owen (Llanbeblig) a'i wraig Catherine (Llanwnda). 1901 – Humphrey Jones (Dolbenmaen). Mae'n amlwg hefyd na fu rhai o'r teuluoedd hyn yn byw yno ond am ychydig o flynyddoedd, oherwydd deuthum ar draws cyfeiriadau at deuluoedd eraill (gyda chyfenwau gwahanol) yn byw yno rhwng blynyddoedd y cyfrifiadau.

Fu Humphrey Jones ddim yno'n hir, oherwydd gwta bum mlynedd wedi Cyfrifiad 1901 roedd rhyw Cadwaladr Roberts yn byw yno, a'r hyn a'm syfrdanodd yn y cyfeiriad tuag ato oedd iddo gael y drydedd wobr yn Sioe Arddio Llanberis am dyfu cyrens duon. Meddyliwch mewn difrif calon am geisio tyfu llwyn o gyrens duon yn y fath leoliad: tir creigiog, uchel yn wynebu'r gogledd. Ond mae'n amlwg fod cyrens duon yn fwy gwydn nag a feddyliwn, oherwydd deuthum ar draws cofnod hefyd o rai'n cael eu tyfu ym mhen uchaf Lôn Garret, Dinorwig.

Ond pwy tybed oedd perchennog y tyddyn dros y degawdau hyn? Yn 1881 pan oedd Owen Jones yn byw yno, rhoddwyd y "ffarm freehold" ar werth. Does dim sôn am bris, ond roedd ymholiadau i'w hanfon at Richard Thomas, Pant Du, Coed y Ddol. Efallai mai ef oedd y perchennog, ond gallai'n hawdd fod yn asiant ar ran y gwir berchennog. Yn 1910 hefyd fe roddwyd y tyddyn ar osod, a'r person yn gyfrifol y tro hwn oedd William Roberts, 10 Min y Don, Llanberis.



Adfeilion bwthyn Ty'n y Mynydd



Cwt mochyn ar y terfyn rhwng pedair acer Ty'n y Mynydd ac eiddo Glynllifon ym mhlwyf Llanrug

Mae un teulu'n ymddangos yn Nhy'n y Mynydd ar ddau gyfrifiad – 1851 ac 1861. Roedd David Williams, y penteulu, wedi ei eni yn Llanddeiniolen, a'i wraig, Jane, o Feddgelert. Ganed iddynt o leiaf saith o blant, ond mae'n bosib mai dim ond y pedwar plentyn ieuengaf a gafodd eu geni yn Nhy'n y Mynydd. Mae cyfeiriadau at rai o'r plant wastad yn eu disgrifio fel "o Dy'n y Mynydd".

Erbyn 1861 roedd David Williams yn ŵr gweddw, ac Elin, y ferch hynaf, 15 oed, yn gofalu am y cartref. Roedd Ellis, William a Mary eisoes wedi gadael cartref. Rywdro yn ystod y blynyddoedd dilynol symudodd y teulu i un o chwech o dai ar ben Gallt Chwarel Glyn, sef Pen y Gilfach. Roedd David Williams bellach yn 61 mlwydd oed ond yn dal i weithio, gydag Elin ac Elizabeth yn gofalu am y cartref a'r ddau fab ieuengaf hefyd yn gweithio mewn chwarel – John (15 oed) a Richard (12 oed). Erbyn 1881 roedd Elizabeth yn briod gyda Robert Humphreys ac yn byw yn 6 Charlotte Street, Llanberis gyda dau blentyn ifanc. Yno hefyd roedd ei thad.

Gwyddom fod Ellis, Elin a Richard wedi mudo i'r America. Efallai nad ar yr un pryd y gadawsant Gymru, ond yn 1880 yr aeth Richard drosodd, a hynny wedi gweithio yn Chwarel y Glyn uchaf tra roedd Granvillefab yno hefyd (un arall a fudodd i'r America). Bu Richard yn byw yn y Black Hills, South Dakota am tuag ugain mlynedd cyn penderfynu prynu tir yn Califfornia, gan gredu y byddai ffermio ffrwythau yn well yn ariannol na thyllu am fwynau.

Yn Exeter, Califfornia roedd Granvillefab yn byw, ac yn gymydog agos i'w hen gyfaill a'i gydweithiwr yn Llanberis y symudodd 'Dic bach Ty'n Mynydd' hefyd. Treuliodd weddill ei oes yn sefydlu perllan orennau, a daeth yn gryn arbenigwr ar y grefft o dyfu a meithrin 'aur-afalau' fel roedd yn eu galw. Mae'r deyrnged a roddwyd iddo yn dilyn ei farwolaeth yn dangos ei ddiddordeb mewn gwella dulliau o dyfu ffrwythau: *"Roedd yn efrydydd helaeth yn nirgelion y deyrnas lysieuol"* ac yr oedd ei berllan *"y drefnusaf"* yn y dalaith. Mae'n amlwg ei fod *"byth a hefyd yn dyfeisio dulliau a pheiriannau newydd i hyrwyddo amaethyddiaeth"*. Daeth ei lwyddiant ag elw mawr iddo, ac yr oedd yn noddwr hael i bob sefydliad Cymraeg a Chymreig yng Nghaliffornia. Mae un cyfeiriad ato'n dod â digonedd o orennau i bob un o'r gwahoddedigion a ddaeth i ddathlu Gŵyl Ddewi yn San Francisco yn 1915.

Ar ymweliad â'i ffrind ym mis Ebrill 1916 cafodd ei daro'n wael yn ddisymwth, a bu farw yng nghartref Granvillefab. Roedd yn ddi-briod ac yn ddi-ewyllys, a rhoddwyd y cyfrifoldeb o weinyddu ei stad i'w ffrind. Rhannwyd y cyfan rhwng ei frawd John, ei chwaer, Elin *"a phlant ei frodyr a'i chwiorydd sydd wedi marw".* Roedd John Dafydd Ty'n y Mynydd yn byw erbyn hyn yn Gorseddau, Ceunant, Llanrug – un o'r tai uchaf ar fynydd y Cefn Du. Roedd Elin (Roberts bellach), ei chwaer yn byw yn Butte, Montana. Mae'n amlwg fod William, Mary ac Elizabeth wedi marw. Felly hefyd Ellis Dafydd Ty'n y Mynydd, a fu farw mewn damwain ddifrifol yn Ashley, Pennsylvania ym Mehefin 1890 gan adael gweddw a saith o blant o'i ôl.

Tybed a wyddai Cadwaladr Roberts, Ty'n y Mynydd, a fynnai gystadlu ar gyrens duon yn Sioe Llanberis ddechrau'r ganrif ddiwethaf, fod bachgen a aned ac a fagwyd yn yr un tŷ hanner can mlynedd ynghynt yn berchen ar un o berllannau orennau cyfoethocaf Califfornia.

**Cais am enw afon**

Dros yr wythnosau diwethaf daeth cais i law o Brifysgol Aberystwyth yn holi am enw afon sy'n rhannol ym mro'r Eco. Rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn yn ymwybodol o fodolaeth yr afon hyd yn oed! Mae'n debyg y byddai'n haws ei disrgifio fel nant neu ffrwd yn hytrach nag afon. Mae'n tarddu yng nghyffiniau Rhythallt, Caeathro ac yn llifo i gyfeiriad Rhos Bach. Oddi yno mae'n cyrraedd y gylchfan newydd ar ffordd osgoi Bontnewydd/Caernarfon, cyn llifo ar draws tir fferm Rhosdican a chyrraedd Llanfaglan. Ger y Bont Faen mae'n tywallt i afon Gwyrfai.

Yr unig enw arni yn ôl Prifysgol Aberystwyth oedd Afon Rhosdican. Cefais wybodaeth mai Afon Sling oedd yr enw arni yn ardal Llanfaglan, a hynny oherwydd fod yr afon yn llifo o dan y ffordd sy'n arwain o Lanfaglan i'r Bontnewydd yn agos i gae a arferai gael ei alw yn Sling.

Ond fyddai ardalwyr Caeathro-Rhos Bach byth yn ei galw wrth yr un o'r ddau enw. Felly, oes enw arall arni?

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad am agwedd o hanes lleol at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA; ffoniwch 01286 673515, neu ar e-bost i dafydd.wthomas@btinternet.com

# Ar ben arall i'r rhaff

## Hanes y Tîm

Cyn sefydlu Tîm Achub Mynydd Llanberis, mynychwyd damweiniau mynydd ar lethrau'r Wyddfa ac ym Mwlch Llanberis gan bobl a alwyd ynghyd ar fyr rybudd gan Chris Briggs, perchennog Gwesty Pen y Gwryd, a oedd hefyd yn Safle Achub Mynydd dynodedig.

Am nifer o flynyddoedd, Chris Briggs oedd ysgogydd y galwadau achub mynydd rhwng 1947 a diwedd y 1960au. Erbyn diwedd y 1960au roedd nifer y digwyddiadau wedi cynyddu ac roedd y galwadau ar nifer fach o wirfoddolwyr yn ôl y galw yn mynd yn feichus. Gwnaed ymdrechion cynnar i ffurfio Tîm Achub Mynydd ym mhentref Llanberis. Cyfarfu penaethiaid y Canolfannau Gweithgareddau Awyr Agored niferus o amgylch y pentref ym 1968 dan gadeiryddiaeth Don Roscoe, a ffurfiwyd Embryo Tîm Achub Mynydd Llanberis. Fodd bynnag, nid tan fis Mawrth 1973 y cafodd y sefydliad ei gydnabod gan y Cyngor Achub Mynydd gyda chyfansoddiad ffurfiol.

Cytunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ganiatáu i'r Tîm ddefnyddio'r Ganolfan Wardeniaid yn Nant Peris fel ei ganolfan barhaol. Roedd hyn yn caniatáu storio offer achub yr oedd y Tîm wedi'i gaffael yn raddol dros y blynyddoedd yn briodol. Erbyn 1976 roedd y Ganolfan Wardeniaid yn Nant Peris wedi'i chydnabod yn ffurfiol gan y Cyngor Achub Mynydd fel Safle Achub 77.













## Ystadegau diweddar

Yn 2021, bu cyfanswm o 237 o achosion ac roedd 201 o'r rheiny rhwng Ionawr 1af a Hydref 14eg. Mae'r ystadegau eleni ar gyfradd debyg iawn gyda chyfanswm o 202 achos rhwng Ionawr 1af a Hydref 14eg.

Mae cyfnod yr haf yn amser prysur i'r tîm gyda nifer yr ymwelwyr yn cynyddu'n syfrdanol. Rhwng Gorffennaf a Medi yn unig eleni, roedd 91 achos. Y mis prysuraf eleni oedd Awst gyda 19% o'r achosion wedi digwydd y mis hwnnw.

O'r 202 achos hyd yn hyn yn 2022;

- Roedd 36% o'r achosion yn cael eu hystyried fel canlyniad 'penderfyniadau gwael'.
- Roedd 26% o'r achosion yn cael eu hystyried fel canlyniad diffyg profiad.
- Roedd 21% o'r achosion ar lwybr Llanberis.
- Roedd 15% o'r achosion ar lwybr Pyg.
- Roedd 14% o'r achosion ar Grib Goch.
- Roedd 61% o'r rheiny a gafodd eu cynorthwyo yn wrywaidd a 39% yn fenywaidd.
- Roedd 56% o'r rheiny a gafodd eu cynorthwyo rhwng 25 a 60 oed.

Mae'r tîm wedi dyrannu 69% o'r achosion wedi'u penodi iddynt. Oriau'r tîm hyd yn hyn eleni yw 475 awr, gan olygu 4,901 o oriau achubwr. Roedd 26% o'r achosion eleni wedi cynnwys hofrennydd 'Rescue 936' neu awyren 'MCA SAR' arall.

Pan rydych yn mentro i ben mynydd, gwnewch yn siŵr eich bod yn paratoi a chynllunio'r daith o flaen llaw a gwnewch y penderfyniadau cywir. Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas a chofiwch bacio digon o fwyd a diod.


Cofiwch edrych ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y tîm ar gyfer y newyddion diweddaraf am eu hynt a'u helynt.

# Ysgol Brynrefail

**Croeso i ddisgyblion blwyddyn 7!**
Bellach mae 133 o ddisgyblion newydd blwyddyn 7 wedi setlo'n dda i fywyd a threfn Ysgol Brynrefail. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu i chwe dosbarth: 7S, 7E, 7I, 7O, 7N a 7T. O dipyn i beth maent wedi dod i ddeall eu ffordd o gwmpas yr ysgol a bellach yn gwybod yn iawn ble mae'r gwahanol wersi a gweithgareddau yn cael eu cynnal.

Rydym fel staff yr ysgol a gweddill y disgyblion wedi dod i'w hadnabod yn dda erbyn hyn. Croeso i Ysgol Brynrefail blwyddyn 7!





**Gardd Ysgol Brynrefail yn mynd o nerth i nerth!**
Rydych wedi clywed eisoes bod gennym ddwy ardd yn Ysgol Brynrefail ac mae'r ffordd maent wedi datblygu dros y misoedd diwethaf yn gyffrous iawn. Mae gennym arddwyr brwdfrydig a llwyddiannus yma yn amlwg ac mae llawer o ddisgyblion blwyddyn 7 wedi ymuno hefo'r Clwb Garddio sy'n cael ei gynnal bob amser cinio dydd Mercher. Yn ddiweddar cafwyd cnwd da o foron a thomatos o ardd yr ysgol a rannwyd i rai staff a disgyblion. Yn y llun fe welwch Alfie o flwyddyn 7 oedd wrth ei fodd hefo'r cawl moron wnaeth o goginio adref hefo moron gardd Brynrefail!

**Noson Wobrwyo**
Roedd hi'n hynod o braf eleni cael ail afael yn yr arferiad o gynnal Noson Wobrwyo wedi dwy flynedd o fethu cyfarfod yn neuadd yr ysgol i gynnal nosweithiau o'r math yma. Ar nos Iau, Medi'r pymthegfed cawsom noson fendigedig i longyfarch yn gynnes iawn y rhai hynny a lwyddodd yn arbennig yn eu harholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf yma. Yr oedd pawb a safodd arholiadau llynedd yn haeddu eu llongyfarch am eu camp yn dilyn dwy flynedd mor anodd o ganlyniad i'r cyfnodau clo. Rhoddwyd clod arbennig i'r disgyblion hynny oedd wedi ennill graddau A* ac A ym mhob un pwnc yn eu harholiadau TGAU – sef 11 o ddisgyblion y flwyddyn a'r rhai hynny wnaeth yr un gamp yn eu harholiadau Lefel A – sef 4 disgybl. Yn ychwanegol at hyn roedd pob adran wedi enwebu un disgybl i ennill gwobr cynnydd ac un i dderbyn gwobr safon yn eu pwnc ar lefel TGAU a Safon Uwch.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion hyn oll am ganlyniadau arbennig a dymuniadau gorau i'r rhai hynny sydd bellach wedi cychwyn ar eu cyrsiau coleg a phrifysgol a phrentisiaethau erbyn hyn. Cofiwch fod croeso nôl yma i chi yn Ysgol Brynrefail unrhyw bryd.












**Cyngor Ysgol 2022-23**
Wedi mis o etholiadau ar bob lefel yn yr ysgol penodwyd dau gynrychiolydd i bob dosbarth, deuddeg o gynrychiolwyr i bob blwyddyn ac un ar bymtheg o aelodau i'r Cyngor Ysgol. Ers blwyddyn bellach rydym wedi ehangu'r cyfle i wrando ar lais y dysgwyr yn Ysgol Brynrefail trwy greu pedwar pwyllgor atebol i'r Cyngor Ysgol sy'n trafod materion hollbwysig i fywyd yr ysgol. Y pwyllgorau hyn yw'r Pwyllgor Lles, Cymuned, Cydraddoldeb ac Addysg. Bydd y pwyllgorau hyn, cynghorau dosbarth a blwyddyn yn ogystal â'r Cyngor Ysgol ei hun yn cyfarfod yn rheolaidd iawn yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod barn disgyblion yn cael ei glywed yn glir. Yn y llun fe welwch aelodau'r Cyngor Ysgol eleni yn dilyn eu cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar 13eg Hydref.



**Gohebydd Chwaraeon Addawol yn yr Ysgol!**

Yn y llun fe welwch Begw Elain Roberts o flwyddyn 13, fu'n rhan o ddiwrnod go arbennig yn ddiweddar. Roedd yn rhan o banel chwaraeon Golwg 360 ar y cyd gydag un o gyn-ddisgyblion eraill llwyddiannus Ysgol Brynrefail, Malcolm Allen. Mae Begw'n hen law bellach ar sylwebu a gohebu ar ddigwyddiadau chwaraeon, mae'n siwr eich bod wedi ei chlywed yn trafod tîm pêl-droed merched Cymru yn ddiweddar ar Radio Cymru a Radio Wales. Nod y diwrnod oedd annog mwy i ddilyn ôl ei throed. Siawns am drip i Qatar tybed Begw?!



**Bore Coffi Macmillan**

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Agored Cymru Bl.11 ar gynnal arwerthiant cacennau gwerth chweil ar gyfer Bore Coffi Macmillan. Llwyddwyd i godi £168 tuag at yr elusen drwy bobi amrywiaeth o gacennau a'u gwerthu yn ystod amser egwyl yn yr ysgol.




**ECO'r Wyddfa**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com


# Llên Natur



## Llanc Llandudno?

**Teyrnged i Gareth Pritchard gan Brosiect Llên Natur**

Ymysg enwau'r adar roedd Gareth Pritchard (fu farw ddiwedd Medi eleni) yn arbennig o hoff ohono oedd enw pobl ei gylch mabwysiedig am griw o fulfrain - sef 'llanciau Llandudno'. Mi fabwysiadodd y ddywededig ardal, a'i 'lanciau', gyda brwdfrydedd heintus a thrylwyr. Dau o'r llanciau dynol oedd ganddo barch mawr atynt oedd Stan Wicklen a Tom Parry, o enwog ysgolheictod lleol ym mhapur bro'r Pentan. Bu Gareth yn un o'r '*stalwarts*' selog oedd yn cadw hwn yn fynd trwy bob storm a thrafferth. A finnau'n gyw a fagwyd yn Arfon ac sydd wedi arfer byw yn y Fro Gymraeg erioed bron, bu wastad yn syndod i mi sut oedd dyn o Dan y Coed, Llanrug, oedd yn y bôn yn llawer Cymreiciach na minnau, yn dod i ben a Seisnigrwydd ei fro fabwysiedig mewn modd mor siriol a goddefgar.





Doedd Gareth ddim fel tasa fo'n sylwi - roedd o cyn Gymreicied a neb a dywyllodd Capel y Rhos, Penbont erioed…. hyd y diwedd! Naw wfft i'r *Little Orme* bondigrybwyll meddai, 15-wfft i'r 'Gogarth Fach' (doedd ganddo ddim amser i'r enw hwnnw o gwbl!) ac 8-wfft hyd yn oed i Drwyn y Fuwch - yr enw parchus Cymraeg am y dywededig is-benrhyn. Na, atgyfododd a dyrchafodd yr is-benrhyn hwnnw i benrhyn llawn yn ei hawl ei hun, sef Rhiwledyn, enw sy'n dyddio yn ôl i oes y Tywysogion. A phrif hynodwedd penrhyn Rhiwledyn i Gareth oedd ei arwyddocâd yn hanes Cymru fel man lle'r argraffwyd y llyfr printiedig cyntaf yn yr iaith Cymraeg, yn y dirgel, mewn ogof uwchben rhu tonnau Bae Lerpwl.


Bytheiriai am yr enw *Angel Bay* - diystyr i bob golwg - a lechai yng nghysgod hen chwarel galchfaen trwyn Rhiwledyn. Hiraethai am yr hen enw Porth y Dyniewaid, porth y gwartheg deunaw oed yn nhyb rhai ac efallai gwraidd y (ffug?) enw Trwyn y Fuwch. Anodd fodd bynnag oedd credu'r cysylltiad hwnnw ar ôl gweld y lle yng nghwmni Gareth yn y cyfnod cyn aflwydd 2020. Ymhen hir a hwyr a chyda diolch i fanylder Geiriadur Prifysgol Cymru, daeth yn amlwg mai hen air am forloi oedd dyniewaid (yn ogystal â golygu buchod ifanc).

A dyna a welsom y diwrnod hwnnw, yn y porth hwn. Nid angylion (roeddem yn hollol sobor wrth gwrs!) ond morloi, yn halio'i hunain dros y gro, i fwrw neu dendio ar eu lloeau - fel y gwnaethant ers cyn cof. Oes mae yna bwrpas i hen enwau ac roedd Gareth yn gwybod hynny cystal â neb. Aeth i bregethu negeseuon o'r fath sawl tro, yn huawdl a chydag arddeliad dyn o dras y caban a'r chwarel, ar raglenni cefn gwlad S4C.

Ia, Tan y Coed, Llanrug oedd cartref llencyndod Gareth, nid nepell o fro fy mebyd innau. Cofiai'r siop trwsio beics yno, gwasanaeth hanfodol i rai fu'n beicio i'w gwaith o'r Weun i Lanbêr. Llanwodd aml i fwlch arall yn fy nghof er nad oedd ffiniau fy nghynefin innau, a rhai yntau, yn cyffwrdd ei gilydd rhyw lawer ar y pryd. Llanciau syndod o ddieithr oedd hogia Brynrefail i hogia'r 'Cownti' yng Nghaernarfon (er, yn ddigon od, bûm yn adnabod mwy o 'staff' Brynrefail a fu'n byw yn y Weun nag oeddwn o staff fy ysgol fy hun yno. Roedd y rhain yn cynnwys tri oedd yn ddolen gyswllt ddiarwybod i mi â Gareth ym 50au'r ganrif ddiwethaf, sef y 'Prif', Mr James, yr athro sỳms Mr David Jones (cymydog i mi), a'r annwyl amryddawn athrawes 'beiol' Mary Parry (ar y pryd). Mae'r dolenni cyswllt rhwng disgyblion y ddau bentref yn wahanol iawn heddiw wrth gwrs.

Un o'r bylchau yn fy nghof a lanwodd Gareth i mi oedd bod ffin gwasanaeth bysys Whiteway â gwasanaeth bysys ochrau Llanbêr, wrth y "Gatehouse" ar odreon gelltydd blin Penhafodlas. (Clywais yn ddiweddarach "Gelltydd 'Fodlas" ar lafar gan gyfaill arall o hen chwarelwr, John Roberts, "John gwr Jane"). Roedd 'Gatehouse' hyd yn oed wedi ei ysgrifennu ar y 'rolar' ar dalcen y bysus gwyn (yn ôl llun a welais unwaith) - rhywbeth i ddrysu haneswyr lleol amatur fel fi mewn blynyddoedd i ddod!

Soniodd Gareth yn aml am grwydro Cefn Du (pen Tan y Coed o'r rhostir anial hwnnw wrth gwrs) a chael ambell wiber yno - does dim gwiber ar gyfyl Cefn Du heddiw, naill ben na'r llall.



Ymhyfrydai a bytheiriai am ambell i gymeriad yn yr ysgol, am ddawn arbennig Mary Parry wrth gwrs (fel y canfûm innau yn hwyrach yn fy mywyd) ac am fryntwch ambell un - calla dawo pwy! Cyd-destun yr olaf oedd nid yn gymaint ei greulondeb ('disgyblaeth' y'i gelwid ar y pryd) ond y ffordd oedd ef, fel llawer o'r athrawon eraill mae'n siŵr, yn Gymry Cymraeg solat nes troi'n Saeson rhonc y funud iddynt groesi ffin yr ysgol. Ysgol Brynrefail o bob man! Pwy fyddai'n malio am hynny efallai, ond 'Saeson' ddigon gwael oeddynt os ddeuai i hynny!

Wn i ddim sawl gwaith y clywais y stori gan Gareth, dan chwerthin pob tro, am y cymeriad dienw hwnnw yn gweiddi ar draws cowrt yr ysgol am i fachgen fynd i *"sing the bell"*! Rydym i gyd erbyn hyn - er gwell neu waeth - wedi dysgu gwell Saesneg na hynny. Byddai Gareth fwy na neb, ac yn erbyn pob llanw, yn gofalu bod plant cynradd dan ei ofal yn cael gwell Cymraeg (a Saesneg) na hynny, a hynny yn ardal y Creuddyn Seisnig hefyd. Yr un mor bwysig dwi'n siwr, er nad oeddwn yn ei adnabod ar y pryd, byddai Gareth yn gofalu bod ei ddisgyblion yn yr ardal honno yn dod yn gyfarwydd hefyd â 'llanciau Llandudno' - llanciau o bob teip a llun.

***Duncan Brown***

# Ti'n cofio mis Tachwedd 40...30...20...10?

Mae gwefan *Eco'r Wyddfa* - **www.ecorwyddfa.co.uk** – yn drysorfa o atgofion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ein bro am 46 o flynyddoedd? Os ewch chi i'r adran 'Archif' ar y wefan fe gewch weld yr holl hen rifynnau a nifer fawr o luniau. Ewch i gael cip i weld os yw'ch llun chi yno, pa newyddion gyrhaeddodd y tudalennau blaen neu beth oedd yn digwydd ym mis eich geni!

Er mwyn rhoi blas i chi, dyma ychydig o bytiau o gynnwys *Eco'r Wyddfa* mis Tachwedd 40, 30, 20 a 10 mlynedd yn ôl…

**Tachwedd 1982**
Rhifyn 75. Pris yn 20c am 20 tudalen.

- Pedair awr ar ddeg o gystadlu yn Eisteddfod Llanrug, gyda'r cyfan yn gorffen am 1.30AM! Bu'n eisteddfod lwyddiannus serch hynny, gyda'r bardd a'r llenor buddugol yn cael eu cadeirio a'u coroni yn yr un seremoni.
- Ar 3ydd Tachwedd yn y flwyddyn hon y cynhaliwyd y bleidlais dros agor tafarndai ar y Sul.
- Aelodau Capel Jerusalem, Llanberis yn dathlu 150 mlynedd o addoli yn y capel.
- Ar 1af Tachwedd 1982 y daeth S4C i fodolaeth, felly penblwydd hapus iawn i'r sianel. Mae'r erthygl yn yr Eco o dan y pennawd 'Rhaglenni Cymraeg HTV i S4C 1-7 Tachwedd' yn dweud mai Cerddwn Ymlaen fydd y rhaglen gyntaf i gael ei darlledu, sef y cyntaf o gyfres o raglenni gan Dafydd Iwan ac Ar Log. Efallai mai hon oedd y gyntaf o raglenni stabal HTV oherwydd onid Superted oedd y rhaglen gyntaf i S4C ei darlledu? Dim ond gofyn! Mae enwau rhaglenni eraill yr wythnos gyntaf yn siŵr o brocio'r cof - Coleg, Mil o Alwadau, Y Byd ar Bedwar ac Y Byd yn ei Le.


ECO'R WYDDFA
SGIWYR GORAU CYMRU
EISTEDDFOD LLANRUG YN MYND O NERTH I NERTH
HERR I ACTORION LLEOL?

- Mae'n swyddogol mai o fro'r Eco y daeth sgïwyr ifanc gorau Cymru ddeugain mlynedd yn ôl. Cynhaliwyd Bencampwriaeth Sgïo Cymru o dan 19 oed ar lethrau artiffisial ym Mhontypridd i 150 o gystadleuwyr. Roedd 28 ohonynt o Wynedd ac 14 o'r rheiny o Ysgol Brynrefail a 2 o Ysgol Penisarwaun. Yn y llun fel welwch Timothy Lloyd, enillydd yr adran o dan 16 oed, Kirsty McCann, enillydd yr adran o dan 14 oed a Robina ei chwaer, enillydd yr adran o dan 16 oed. Aeth Timothy a Kirsty yn eu blaenau i ennill teitl a thlws sgïwyr gorau Cymru o dan 19 oed yn ogystal. Rhagorol!



- Cawn hanes Dewi Owen yn actio 'Jyrman Cymraeg' fel un o'r *extras* ar ffilm *The Keep* a ffilmiwyd yn Llanberis a hen dyllau chwarel Y Glyn.



**Tachwedd 1992**
Rhifyn 184. Pris yn 25c am 20 tudalen.

- Llwyddiant teuluol yn cael ei ddathlu ar y clawr - llwyddiant y tad a'r ferch Dafydd a Catrin Whiteside Thomas yn cael eu cadeirio yn brif lenor a phrif lenor ifanc Eisteddfod Llanrug.
- Glywsoch chi am le, nid person, o'r enw Mari? Yn 1992 daeth 9 o reolwyr busnes o'r weriniaeth hon draw i Lanberis am bythefnos er mwyn dysgu sut i 'reoli'r economi mewn marchnad rydd'. Gweriniaeth o tua 700,000 o bobl ac yn gorwedd 700 milltir i'r dwyrain o Moscow yw Mari.
- Daeth her i'r Eco ar ffurf papur lleol newydd - papur bro Ysgol Llanrug! Gwion Iwan oedd enillydd cystadleuaeth i enwi'r papur newydd, a Raga Rug oedd y teitl buddugol.
- Hanes sefydlu Cyngor Chwaraeon Arfon, sef cyngor oedd yn cynrychioli gwahanol gampau chwaraeon er mwyn ceisio gwella cyfleusterau a denu grantiau.
- Yn y llun fe welwch Hywel Evans o'r Waunfawr yn derbyn Tlws y Mis yr Eco ar ôl iddo ddychwelyd o Madrid ble bu'n is-reolwr tîm Prydain yn y Gemau Olympaidd Paramedical.


ECO'R WYDDFA
DAWN Y DONIOL
DAWN DEULUOL
TYNGED YR IAITH
RALI GENEDLAETHOL DROS DDEDDF IAITH GADARN CAERDYDD



Ann Thirsk o gwmni Rhosyn gyda Dimitry Kuzmin, a Bob ac Ann Kane, Gwesty Erw Fair.



**Tachwedd 2012**
Rhifyn 404. Pris yn 50c am 28 tudalen.

- Mae'r clawr yn rhoi dwy stori a dwy agwedd wahanol i ni o'r hyn y mae ieuenctid y fro wedi bod yn ei wneud. I ddechrau cawn weld talentau crefft ieuenctid fu'n arddangos eu gwaith mewn ffair grefftau, ac yna cawn hanes y 'llanastr' a adawyd mewn maes parcio yn Llanberis yn dilyn parti tybiedig.



- Mae'r erthygl 'Yng Ngwauncwmbrwynog' yn cofio'r Parch R Bryn Williams fu'n gofalu am Gapel Coch a Chapel Hebron ar lethrau'r Wyddfa rhwng 1936 ac 1944.
- Sêr lleol aeth â hi yn Marathon Eryri, gyda Rob Samuel o Lanrug yn gyntaf a Mathew Roberts o Lanberis yn ail.



# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod 6ed o Fedi, 2022

Rhoddwyd croeso gan y Cadeirydd, Emma Chappell a gair o weddi gan Richard Ll. Jones.
Cydymdeimlir â'r Cynghorydd Elwyn Jones ar golli ei wraig, ac anfonwn ein cofion at Victor a theulu'r ddiweddar Gwenda Jones, neu 'Anti Gwenda' fel oedd sawl un yn ei hadnabod.

**Cofnodion 6ed o Orffennaf, 2022**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir:
**Materion o'r Cofnodion**
**Noddfa, Deiniolen -** Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau fod yr adeilad wedi ei adnewyddu'n ddiweddar, ac mai pobl ddigartref sy'n cael eu lleoli yno, ond yn gorfod mynd trwy asesiad risg trylwyr cyn eu lleoli yno.
**Wal ger Llys Gwynt, Penisa'r-waun** - Y wal bellach wedi ei gwneud yn ddiogel unwaith eto.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Cysgodfa Bws Brynrefail -** Mae'r gysgodfa Newydd bellach yn ei lle, ac yn edrych llawer mwy taclus nag oedd yr hen un. Fodd bynnag, mae cwyn wedi dod i law nad ydi'r gysgodfa'n cynnig digon o gysgod rhag y gwynt a'r glaw, ac nad oes ffenestr i weld os ydi'r bws yn dod. Byddwn yn ymweld â'r gysgodfa i weld beth ellir ei wneud.
**Cynllunio**
Dyma restr o gynlluniau a ddaeth i law yn ystod y mis:
**C22/0670/18/DT - Hen Ddinas Llanddeiniolen**
Codi estyniad deulawr i gefn y tŷ a llawr ychwanegol i estyniad ochr bresennol.
**C22/0746/18/DT - 4 Dinorwic House, Dinorwig**
Newid defnydd o gaban i bod-glampio.
**C22/0702/18/LL - Tir Bryn Difyr, Bethel**
Cau'r fynedfa amaethyddol bresennol ac agor un newydd, 15m i'r dwyrain.
**C22/0698/18/DT - Deiniol View, 2, Erw Bian, Bethel**
Codi shed.
**C22/0722/18/LL - Gwyndy, Bethel**
Ystafell addysg gartref, estyniad i'r cwrtil i ffurfio man chwarae diogel newydd o fewn Coedwig, gan gynnwys rheolaeth tir/coedwig ar dir dros y ffordd i'r annedd.

**Llwybrau**
**Llwybr 122 Ty Mawr, Dinorwig** - Yn dilyn ysgrifennu at adran llwybr eto ynglŷn â'r giât drydan, cafwyd llythyr yn cadarnhau fod swyddogion yn dal i weithredu ar hwn.

**Llwybr 98** - Derbyniwyd cais ar gyfer codi giât ar lwybr sy'n croesi'r tir. Yr unig beth sydd yn peri problem yw pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw ayyb.

**Llwybr 43** - Derbyniwyd llythyr yn dilyn archwiliad fod angen gosod arwydd a phost newydd. Mae'r perchennog wedi tynnu'r giât mochyn ac wedi gosod ymhellach draw beth oedd yno gynt. Hefyd wedi creu llwybr ochor y cae. Mae swyddogion wedi cysylltu yn dweud nad yw hyn yn dderbyniol, ac mae'r perchennog wedi cytuno i newid, ac yn hytrach na gosod yr hen giât fetel yn ôl, mae wedi prynu giatiau pren neis yn eu lle.

**Llwybr Cefn Cae Pêl droed Bethel** - Rydym dal i ddisgwyl gweld os yw'r llwybr yma ar restr gwelliannau gan Gyngor Gwynedd. Rydym yn deall fod llawer o waith arno, a ddim yn sicr be fu'r dyfarniad gan ei fod yn ofnadwy o wlyb. Y clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir.

**Clwb Ieuenctid -** Bu i'r Cyngor Sir benodi 6 gweithiwr i glybiau ieuenctid Deiniolen a Bethel, sydd ar hyn o bryd ar fin cychwyn yn ystod yr wythnos yn dechrau 26ain o Fedi (nos Fawrth ym Methel a nos Iau yn Neiniolen). Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi cytuno i gyllido'r gost sydd dros £5000 y Clwb. Gobeithio bydd yn llwyddiannus a bydd ieuenctid yr ardal yn gweld gwerth yn y nosweithiau yma.

**O Gwmpas y Bwrdd**
**Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd** - Yn arferol, pan mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld ag ardal, mae pob pentref yn cael targed o arian i'w godi. Roedd gan Ardaloedd Llŷn ac Eifionydd eu targedau pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yn y Faenol, a bu iddynt hefyd gyrraedd eu targedau. Erbyn hyn, yn hytrach na tharged pentrefi, targed y Gymuned ydyw, hynny ydi plwyf Llanddeiniolen. Gan nad ydym yn sicr faint yw'r targed, mae'r Clerc am gysylltu er mwyn cael gwybod a chawn drafodaeth ar hyn yng nghyfarfod mis Hydref.
**Bws i Dinorwig** - Dros yr haf, bu i fws gwasanaeth fethu mynd i Dinorwig, a gorfod refersio holl ffordd i lawr Gallt y Foel, oherwydd parcio anghyfrifol ar ben yr allt. Mae angen cysylltu â Chyngor Gwynedd i weld beth sy'n cael ei wneud i sicrhau na fydd digwyddiad o'r fath eto.
**Lôn o Fethel i Crawia** - Mae yna ordyfiant ar y ffordd yma dros ffordd i'r lôn sy'n arwain tuag at Lwyn Bedw. O bosib nad ar dir Fferm Tyn Berth mae'r gordyfiant, ond mae yn amhosib gweld, ac mae'r lon yn gul fel mae hi.


ECO'R WYDDFA
Cymru – 2 Yr Eidal – 1
sut effaith gaiff y gêm fawr a'r bêl-droed y fro?
Atgyfodi FFAIR NANT!
Galw am Fwy o Blismyn i'r Fro

**Tachwedd 2002**
Rhifyn 294. Pris yn 40c am 20 tudalen.

- Fel y gwelwch ar y clawr, atgyfodwyd ffair Nant Peris ar ôl 80 mlynedd, a digonedd o hwyl i'w gael. Ni chafwyd ffair amaethyddol, fel y cafwyd yn wreiddiol, ond cadwyd yr elfennau cymdeithasol i gyd, fel rowlio bêls a tug-of-war.
- Cynhaliwyd Gŵyl Ddrama Shakespeare i ysgolion yn Theatr Gwynedd fis Hydref 2002 ac yn y rhifyn yma o'r Eco cawn hanes perfformiad Ysgol Brynrefail o Hamlet. Cawsant gryn glod am eu perfformiad, er mae'n debyg bod Mathew Powell wedi bod yn actio Hamlet heb wybod mai penglog go iawn oedd y 'prop' yn ei law!
- Cafwyd ddiwrnod agored yn Caban y Cwm, Cwm-y-Glo i ddangos y cyfleusterau technoleg gwybodaeth a'r ystafell gymunedol.
- Ugain mlynedd yn ôl roedd yna egin freuddwyd y byddai ein tîm peldroed cenedlaethol yn mynd yn bell…wel sbîwch ble ydan ni ugain mlynedd yn ddiweddarach. Mae'r golofn chwaraeon yn 2002 yn trafod buddugoliaeth felys ac enwog Cymru yn erbyn yr Eidal yn Stadiwm y Mileniwm.


ECO'r Wyddfa
Rhif: 404 Tachwedd 2012 Pris: 50c
Crefftwyr Ifanc Lleol yn arddangos eu gwaith.
Gwydrau Catrin....
Gwaith Gwau Anwen....
Gwaith Graffig Mererid Haf...
Celf Llosg Nader Kolbodi....
'PARTI PERYGLUS?' – ALLANASTR.
APEL

**Croeso i Waunfawr!**
Braf yw croesawu dau deulu ifanc sydd wedi symud yn ddiweddar i Stad Tŷ Hen. Daeth Ashley a Lowri i fyw i 15 Stad Tŷ Hen. Er mai un o Gaernarfon yw Lowri, mae ei theulu yn dod o'r Waun ac mae'n siwr bod taid a nain, Bernard a Pat Parry, Bryn Golau ac Anti Awen wrth eu boddau eich cael chi yn byw mor agos.

Hefyd, daeth teulu newydd i fyw i 12 Stad Tŷ Hen, sef Aron a Haf a'u dwy ferch fach Efa a Sifi.

Gobeithio y byddwch i gyd yn hapus iawn yn eich cartrefi newydd.

**Paned a Sgwrs**
Yn dilyn cyfnod anodd Cofid, pan welwyd cymaint o grebachu ar weithgareddau cymdeithasol yn y pentref, mae'n bleser dweud bod clwb Paned a Sgwrs wedi ei sefydlu ers diwedd Medi. Gill Wyn, Y Frenni, sydd wedi cychwyn trefnu'r Clwb, ac fe'i cynhelir yn Y Ganolfan bob prynhawn Iau rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Mae croeso i bawb alw mewn, ac hyd yn hyn gwelwyd niferoedd da iawn o ddynion a merched o bob oed yn mynychu, gan gynnwys plant ar eu ffordd adref o'r ysgol! Mae'r croeso yn wirioneddol gynnes a'r sgwrsio anffurfiol yn ddifyr dros ben.

Does dim angen i chi wneud dim: dim ond troi fyny a mwynhau!




**Llwyddiant Artist Lleol**
Mae Teresa Jones, Fron Olau, Rhes Glyn Afon yn enedigol o Waunfawr; ond faint ohonoch oedd yn gwybod am ei dawn fel artist? Wnaeth Teresa ddim astudio celf nes iddi fod yn hanner cant oed, a hynny fel myfyriwr hŷn yng Ngholeg Menai, lle graddiodd gyda rhagoriaeth mewn celf a dylunio.

Fodd bynnag, cymrodd tan yn ddiweddar iawn iddi gael y cyfle i arddangos ei gwaith. Mae'r diolch am hynny i Ann Jones, Croesor, Stad Glyn Afon, cymdoges i Teresa, a aeth â rhai o baentiadau Teresa i Blas Glyn y Weddw, Llanbedrog, i'w dangos. Canlyniad hynny oedd i Teresa gael cynnig arddangosfa o'i gwaith, sydd wedi dod â chryn lwyddiant iddi.

Mae rhan helaeth o'r gwaith yn ymwneud â Chymru, ei hiaith a'i llenyddiaeth, ei thraddodiadau a'i thir a'i phobl. Gan fod newid hinsawdd hefyd yn agos iawn at galon Teresa, mae'r gwaith sydd yn yr arddangosfa wedi ei greu ar bapur sidan sydd wedi ei ail gylchu.

Os am gyfle i weld y gwaith arbennig yma, bydd yr arddangosfa ar agor tan Ragfyr 24ain 2022. Dymuniadau gorau i chdi ac i'r gwaith i'r dyfodol, Teresa.

Prif bwnc trafod y cyfarfod oedd sut i drefnu cefnogaeth a chymorth i bentrefwyr sy'n dioddef tlodi tanwydd a thlodi bwyd, er mor anhygoel ydi meddwl ein bod yn wynebu sefyllfa o'r fath yn yr unfed ganrif ar ugain.

Mae hefyd yn fwriad ail gychwyn ar drefnu digwyddiadau cymdeithasol yn fuan.

Bydd y Gangen yn cyfarfod yn y Dafarn ar y trydydd nos Iau o bob mis, i gychwyn am 7.30 y.h. Bydd cyfarfod ffurfiol am rhyw dri chwarter awr a chyfle i gymdeithasu wedyn. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Diolchiadau**
Dymuna Irene, John a'r teulu ddiolch o galon unwaith eto i bentrefwyr Waunfawr am eu caredigrwydd yn dilyn colli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl iawn.

Dymuna teulu'r diweddar David Greasly, Minafon ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli gŵr, tad a thaid arbennig. Diolch i'r Parchg Marcus Robinson am ei wasanaeth teimladwy, yr organyddes Catrin Keller a Roberts ac Owen, Penygroes am eu trefniadau trylwyr. Diolch hefyd am y rhoddion hael i Sefydliad Prydeinig y Galon.

Mae Ellen Griffiths a theulu'r diweddar David Emlyn Griffiths, Llechwedd hefyd yn anfon diolch i bawb anfonodd neges o gydymdeimlad atynt yn ddiweddar.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Olwen Owen, Tref Eilian ar ddod yn hen nain eto, ac i Gwenno Kerr, Syrjeri ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd Willow Enfys i Iwan a Katie, sy'n byw yn Llandudno. Dymuniadau gorau i chi ar y magu.

**Gwellhad buan**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd ddim wedi bod yn dda neu wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar, gan gynnwys Diane Davies, Siop y Waun, a Mrs Enid Williams, Heli.

**Plaid Cymru Waunfawr**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gangen yn y Dafarn ar Fedi 15fed. Y swyddogion am y flwyddyn ganlynol fydd - Cadeirydd: Gareth Williams, Plas Bodhyfryd; Is-Gadeirydd: Alun Williams, Glandwr; Ysgrifennydd: Iola Gruffydd, Teganedd; Is-Ysgrifennydd: Nia Llwyd, Stad Tŷ Hen; Trysorydd: John Gwynedd, Nant.






BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

**Taith Feic Arwrol!**

Yn ystod mis Medi, cyflawnodd Tomos Morgan, Cartrefle daith feicio heriol iawn, sef y 'France En Velo'. Mae'r daith yn cychwyn yn St Malo yn Llydaw, ac yn gorffen yn Nice, yn Ne Ffrainc. Mae'n daith o tua 1000 milltir gan gynnwys rhai o'r dringfeydd beics mwyaf eiconig, megis y Mont Ventoux yn yr Alpau.

Llwyddodd Tomos i gyflawni hyn i gyd ar ei ben ei hun, mewn cyfnod o dair wythnos, gan gario pob dim ar ei feic, gan gynnwys ei babell!

Doedd neb balchach o'i weld yn cyrraedd y llinell derfyn yn ddiogel na'i rieni Kevin ac Olwen, a dwi'n siwr bod Tomos wedi bod yn eithaf balch o'ch gweld chi hefyd! Tipyn o gamp Tomos, da iawn chdi.



# Cornel Antur

Dilynwch hynt a helynt Antur Waunfawr yn Eco'r Wyddfa



### Cadair Antur

Daethpwyd o hyd i gadair **Eisteddfod Bentref Waunfawr 1948** yn Warws Werdd Antur Waunfawr ac fe'i hadnewyddwyd gan yr artist lleol Cefyn Burgess. Ymddangosodd y gadair ar y gyfres boblogaidd **Gwesty Aduniad ar** S4C, ac fe gafodd merch ac wyres y bardd **(Emyr Jones, Ty'n Ceunant)** weld y gadair ar ei newydd wedd!

### Melys fedd!

Mae seidar **Perllan y Fro** yn cael ei gynhyrchu gan Antur Waunfawr, ac yn ddiweddar, mae wedi cyrraedd silffoedd un o dafarndai mwyaf adnabyddus Cymru, **y Black Boy**. Mae tri blas gwahanaol ar y seidar ac enillodd Rhiwbob ac Afal y **Great Taste Award yn 2021.** Mae hefyd ar gael yn Glaslyn, Beddgelert ac yn Siop Weun!






### Dilynwch ni

Mae gan yr Antur bresenoldeb amlwg ar yr holl **gyfryngau cymdeithasol**. Pe bai dim ond **hanner** o'r holl bobol sy'n byw yn nalgylch **Eco'r Wyddfa** yn ein dilyn ar Facebook, byddai hynny'n gynnydd o **250%**!

Antur Waunfawr

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 8



Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, ychydig dros flwyddyn yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond doedd ei fywyd hyd hynny ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Wyddech chi fod gan gathod 32 o gyhyrau ym mhob clust, sy'n eu galluogi i fedru troi eu clustiau i leoli union ffynhonnell y sŵn. Yn ogystal â hynny gall cathod gylchdroi eu clustiau trwy 180 gradd!

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori ar ôl neidio dros giât y gegin i gynhesrwydd y stôf logs.

"Pan glywais i sŵn traed uwch fy mhen i unwaith yn rhagor, roeddwn i'n disgwyl amdanyn nhw, gan sefyll wrth y drws, wnaethon nhw ddiflannu drwyddo neithiwr, i'r 'llofft' neu rywle debyg. Cath a ŵyr pam bod angen diflannu i fanno, ac wedyn dwi'n clywed eu sŵn nhw'n symud uwch fy mhen, sŵn dŵr yn rhedeg ac yna distawrwydd a thywyllwch. Dim ots gen i, dwi'n siŵr bod hi'n gynhesach yma - yn enwedig gan fy mod i wedi neidio dros y giât a setlo fy hun ar y mat o flaen marwydos y tân.

Wyddoch chi beth? Mae'r ddeu droediaid yn gofyn cwestiynau gwirion. 'O Bob! Sut ddoist di i fan'ma?" oedd ei chwestiwn hi.

Asiffeta! Neidio siŵr iawn! Mae fy mol i lawer rhy fawr i mi ffitio drwy fariau'r giât. Wrth iddi gerdded o fy mlaen, gan anelu at lle'r oedd fy ngwely neithiwr, rhoddais slap sydyn i'w choes! Jest i ddangos iddi beth oeddwn i'n feddwl o'i chwestiwn hi. Wps! Ella na chai ddim brecwast rŵan… Ond chwarae teg, mi agorodd y giât a llenwi fy mhowlen. Agorodd y drws cefn a phenderfynais gan ei bod yn sych a ddim yn chwythu rhyw lawer y baswn i'n mentro allan am ryw dro bach a chael toilet naturiol yn lle'r ddau efo darnau bach pren ynddyn nhw.

Ffwrdd a fi yn llanc i gyd a ffeindio darn bach hyfryd o bridd meddal, jest y peth! Ond nefoedd yr adar, does yna ddim plesio ar rhai pobl.

"Bob! Paid! Tyd o fanna!" ges i wedyn. A finnau'n meddwl byddwn i'n sbario dipyn o waith carthu arni hi. Ond na mae ganddi ryw blanhigion yn y pridd a dydw i ddim i fod i dyrchio wrth eu hymyl nhw. Beth mae cath i fod i neud felly? Wir yr! Mae isio mynadd a gras. Dwi'n mynd yn ôl i'r tŷ wir!

Ond och a gwae! Roedd y deu-droed mawr wrthi'n gwthio peiriant swnllyd o gwmpas y lloriau. Wnes i droi ar fy mhawennau yn syth yn ôl allan! Dwi ofn y bali peth… Dwi'n siŵr gallai o fy llyncu fi! Pam mae pobl yn gwneud yr holl bethau gwirion yma! Gan ei bod yn dal yn sych dwi'n mynd i eistedd ar ben ffens bren, heb fod yn rhy bell o'r tŷ. Dwi'n saff yma ac mi fedrai weld a chlywed pan fydd y peiriant swnllyd wedi darfod. Efallai allai fentro nôl i'r tŷ wedyn.

Ga'i napan. Ella fydd yna ryw damaid bach i'w gael cyn swper wedyn… Swper! Hyfryd mae'r darnau bach o gig yma mewn saws jest y peth i'w gael ar ôl bod yn brysur drwy'r dydd. Mae'r drws tu allan wedi ei gau bellach, tân braf ac mae fy ngwely bach clud bellach wedi ei symud i'r ystafell gynnes. Mae'n rhaid nad ydyn nhw am roi fi y tu ôl i'r giât heno.

Wow! Be ar wyneb y ddaear sy'n digwydd rŵan? Allai ddim gweld y peiriant swnllyd yn nunlle. Be sy'n digwydd? Dydw i ddim yn hoffi sŵn uchel… Be sy'n digwydd? Mae yna glecian a bangio y tu allan i'r tŷ. Ond dydy'r deu-droediaid ddim yn cynhyrfu ac maent yn creu mwy o sŵn ar y bocs sgwâr a thynnu'r llenni. Diolch byth, dydw i ddim yn clywed y sŵn swnllyd bellach. Dwi'n meddwl mod i'n licio byw yma efo'r ddau yma, sy'n edrach ar fy ôl i. Dydw i ddim wedi arfer bod efo pobl sy'n fy ngwarchod."

# Cyngor Cymuned Llanberis

## Cofnodion Cyfarfod Medi 2022:

**1 Croeso:**
Cofnodion cyfarfod misol rheolaidd y Cyngor, nos Fercher y 14eg o Fedi 2022 yn Y Ganolfan, Llanberis. Estynwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd ac estynwyd cydymdeimlad dwysaf i ddau o'r aelodau. Roedd Helen Sharp a Rhys ap Gwilym wedi colli eu mam.

**2 Presennol ac Ymddiheuriadau:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Gwilym Evans, Iwan Harding, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Nia Jones, Louise Price, Helen Sharp,
***Ward Peris:*** Llinos Haf Pritchard (Cadeirydd).
***Ymddiheuriadau:*** Cyng. Kim Jones, Iola Owen, Trystan Thomas. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**3 Datgan Buddiant:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**4 Cadarnhau Cofnodion:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 13eg o Orffennaf, 2022 fel rhai cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: RhaG / HLJ.

**5 Materion yn codi o'r Cofnodion:**
***1. Cysgodfan Bws:***
Yr arian oddi wrth y cwmni yswiriant wedi dod i law, ond y TAW ar y pryniant a'r gosod i'w hawlio ar ddiwedd y flwyddyn.
***2. Trafnidiaeth a diogelwch plant Ysgol Dolbadarn:***
Ar ddechrau'r tymor roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Brifathro'r Ysgol i'w atgoffa am yr addewid a gafwyd ar ddiwedd y tymor diwethaf y byddai'n atgoffa rhieni sy'n cario eu plant i'r ysgol mewn ceir i fod yn ofalus wrth eu gollwng ger Bythynod Glanrafon ac ar Ffordd Capel Coch. O fewn pedair awr ar hugain fe anfonwyd ebost o'r Ysgol at y rhieni yn gofyn iddynt fod yn ofalus wrth ddanfon eu plant, i barcio'n gyfrifol a chyfreithlon ac i osgoi creu tagfeydd. O gofio fod nodyn wedi ei anfon sawl tro at y rhieni yn y gorffennol, mynegwyd gobaith y bydd hwn yn llwyddo, a chytunwyd y byddai'n werth gofyn am bresenoldeb yr Heddlu ambell fore.
***3. Agor toiledau:***
Diolchwyd i'r aelodau a oedd wedi gwirfoddoli i agor y toiledau cyhoeddus yn gynnar ar fore Sadwrn a Sul bob yn ail penwythnos dros yr haf. Roedd hynny oherwydd trafferthion staffio Cyngor Gwynedd (CG). Roedd KJ wedi anfon nodyn i ddiolch ac i ddweud fod y gymwynas wedi cael ei gwerthfawrogi.
***4. Clwb Ieuenctid:***
Cafwyd ar ddeall fod Pwyllgor y Ganolfan wedi ymateb i'r cais am gymorth i gyflogi arweinwyr i'r Clwb Ieuenctid a sefydlir yn yr Hydref. Bydd y Pwyllgor yn talu'r holl gostau. Mynegwyd diolch y Cyngor i Bwyllgor a swyddogion Y Ganolfan gan obeithio y bydd y fenter o agor Clwb newydd yn Llanberis yn llwyddiant ysgubol. Nodwyd hefyd gyfraniad KJ tuag at sicrhau y bydd Clwb yn Llanberis y gaeaf yma.
***5. Dolbadarn:***
Cafwyd adroddiad fod peth annifyrwch wedi bod yn gynharach yn yr haf ynglŷn â thrigolion Dolbadarn, ond fod pethau'n llawer gwell erbyn hyn, a gwell dealltwriaeth rhwng gwahanol gyrff ac asiantaethau. Er hynny, roedd angen cadw golwg ar ddigwyddiadau yno i sicrhau nad oedd ymyrraeth a thrigolion cyfagos, ac yn ôl KJ mewn nodyn at y Clerc roedd pryder nad oes gan yr asiantaethau priodol bresenoldeb yn Llanberis fel mewn trefi cyfagos i ymdrin â phroblemau.
***6. Cae'r Ddôl:***
Cafodd y Clerc ar ddeall gan KJ fod y trefniadau ar gyfer digwyddiadau ar Gae'r Ddôl wedi bod yn hwylus, ar ôl y mân drafferthion gyda'r digwyddiad cyntaf eleni. Mae'n ymddangos fod y trefniadau newydd yn gweithio'n dda ac na fu cwynion am sŵn nag ymyrraeth i drigolion cyfagos.
***7. Cae Chwarae Ger y Llyn***
Adroddwyd fod yr offer plant bach wedi ei archebu. Hefyd roedd disgwyl y byddai'r siglen newydd yn ei lle yn fuan iawn. Pwyswyd fod gwir angen am yr offer.

***8. Blaen Nant, Nantperis:***
Er holi sawl gwaith, ni chafwyd ateb i'r cwestiwn a oedd yr adeilad newydd ar y safle wedi cael 'caniatad cynllunio', ond roedd y Clerc wedi cael sicrwydd erbyn hyn fod ymchwiliad ar y gweill gan yr Awdurdod er fod y mater wedi ei godi ers mis Mawrth diwethaf gan y Cyngor hwn. Ymddiheurwyd i'r Clerc am yr oedi cyn ateb yn ôl.

**6 Materion Eraill:**
***1. Cae'r Ddôl:***
Cafwyd adroddiad gan GE fod defaid yn mynd o Gae'r Ddôl i Orsaf Rheilffordd y Llyn. Er fod staff Parc Padarn wedi ymateb, nid oedd y broblem wedi ei datrys. Addawodd y Clerc gyfarfod â GE i edrych ar y broblem.
***2. Defaid:***
Soniwyd y bu cynnydd yn nifer y defaid sy'n crwydro'r pentref a bod un ohonynt wedi ei tharo gan gerbyd yn ddiweddar. Roedd un o'r ffermwyr wedi mynnu nad ei ddefaid ef oedd pob un o ddefaid crwydrol y pentref, ac roedd wedi nodi fod un giat ar ei derfynau'n cael ei gadael ar agor yn gyson gan redwyr lleol. Dywedodd y Clerc y byddai'n holi ymhellach.
***3. Llainwen:***
Adroddwyd fod problemau traffig oherwydd parcio yn dal i greu problem yn Llainwen Uchaf. Dywedodd y Clerc y byddai'n mynd ar ôl CG eto ac yn cael gair â'r Cynghorydd.
***4. Meinciau Maes Derlwyn:***
Gan nad ydi bysiau yn mynd i Faes Derlwyn roedd CG wedi holi a ellid symud y meinciau oddi yno. Dywedwyd hefyd fod nifer o drigolion lleol wedi mynegi cefnogaeth i hynny gan eu bod yn tynnu ymwelwyr i eistedd yno, weithiau'n hwyr fin nos. Gan mai meinciau CG ydi'r rhain penderfynwyd nad oedd eu hangen yn unman arall yn y pentref.
***5. Palmant Stryd Fawr:***
Adroddwyd fod cyflwr y palmant ger y 'Llysoedd' mewn cyflwr drwg, ac wedi bod felly ers peth amser er i rai adrodd amdano i CG. Dywedodd y Clerc nad oedd neb wedi sôn amdano ynghynt, ond y byddai'n anfon at y Cyngor, a gofynnwyd iddo sôn hefyd am dyllau yn Ffordd Capel Coch.

**7 Gohebiaeth:**
***1. Snowdonia Pumped Hydro:***
Llythyr yn egluro fod gwaith i ddatblygu safle yng Nglyn Rhonwy fel gorsaf drydan dŵr yn mynd yn ei flaen. Mae'r cwmni felly yn ymgynghori ac yn gofyn barn ynglŷn â'r bwriad a fydd yn cynnwys cais i ddatblygu ar dir comin (CL15 a CL18) ar fynydd Cefn Du.
Bydd y gwaith hefyd yn golygu cau llwybrau dros dro neu'n barhaol, ond byddai'r cwmni'n gwneud iawn am hynny trwy gyflwyno tir yn lle'r tir comin a gollir ynghyd â thir ac arno hawl tramwy agored o dan ddeddfwriaeth Hawl Tramwy a Chefn Gwlad 2000.
Bwriedir dadreoli 32 erw, 18 erw ohono yn chwarel lle na fedrir ei ddefnyddio, ac yn ei le rhoi 40 erw yn dir agored ynghyd â 65 erw arall. Byddai hynny'n golygu cynnydd yn y tir comin a'r tir agored o 33 erw (8 erw tir comin a 25 erw tir hawl tramwy). Hefyd, yn ystod y cyfnod adeiladu o tua 4 blynedd bydd y cwmni'n gobeithio cau tua 30 erw o dir comin gan gynnig 25 erw tros dro yn ei le. Yn ogystal, bydd angen dargyfeirio hawliau tramwy yn ystod cyfnod adeiladu ac wedyn, ond bydd yn rhaid trefnu mynediad amgen cyn cau neu ddargyfeirio. Bydd hyn i gyd yn cael cyhoeddusrwydd ehangach ac mae'r cwmni'n croesawu unrhyw sylw ynglŷn â newid neu golli hawliau hamdden.
***2. Archwilio Cymru - Cyfrifon 2019-20 a 2020-21:***
O'r diwedd derbyniwyd cyfrifon y Cyngor am y ddwy flynedd uchod oddi wrth swyddfa Archwilio Cymru (Audit Wales). Ni chafwyd eglurhad pam yr oedi anarferol o hir, ac rydym yn dal i ddisgwyl barn ar Gyfrifon 2021-22. Yn ôl yr adroddiadau "nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol".
***3. Un Llais Cymru:***
Yn holi a oes gan y Cyngor sylw mewn perthynas â'r Ymgynghoriad Treth Gyngor Decach gan Lywodraeth Cymru. Bydd RhaG yn ymateb ar ran y Cyngor.
***4. Ymgynghoriad Cynllunio:***
Roedd y Clerc ar ôl ymgynghori ar ebost wedi ymateb i'r cais gan CG i ail-wynebu ac ail-drefnu maes parcio Y Glyn.
***5. CG - Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol:***
Cafwyd ymateb i'r llythyr oedd yn gofyn i'r Cyngor ystyried yn ofalus unrhyw ofynion gan drefnwyr digwyddiadau i 'gau ffyrdd tros dro'. Dywedodd y Pennaeth y byddai'n pwyso ar yr Adran i ystyried y gofynion yn hytrach na'u caniatau'n ddigwestiwn fel a ddigwyddodd yn ddiweddar, gyda Ras yr Wyddfa.

***6. Gweithdy Pentrefi SMART:***
Dyddiad y cyfarfod wedi ei newid i ddydd Mercher, Hydref 19eg. Tocynnau ar gael oddi wrth https://evenbrite.co.uk/o/smart-gwynedd-a-mon-44732006413
***7. Ystadau Cymru:***
Cafwyd llythyr yn nodi fod Llywodraeth Cymru'n chwilio am nifer o safleoedd ar gyfer Oriel Gyfoes Genedlaethol i Gymru. Anfonodd y Clerc y llythyr ymlaen at gwmni Engie gan feddwl y gallai Mynydd Gwefru fod yn addas fel un lleoliad. Ni chafwyd ymateb na chydnabyddiaeth.
***8. CG - Stryd y Farchnad, Llanberis:***
Rhybudd fod y stryd hon i'w chau am gyfnod na fydd yn hwy na mis. Credir y gellir gwneud y gwaith mewn rhyw 12 niwrnod rhywbryd

ar ôl y 5ed o Fedi.

***9. Ymgynghoriaeth Gwynedd - Gwarchodfeydd Bws:***
Y gwaith ar chwalu yr hen rai a chodi cysgodfannau bws newydd yn eu lle yn y gyfnewidfa bysiau ger Dôl y Goeden i ddechrau ar yr 31ain o Awst. Dywedir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn y 30ain o Fedi.

***10. CG - Swydd LleChi:***
Llythyr i nodi fod Gwenan M Pritchard swyddog CG â chyfrifoldeb am y Cynllun LleChi wedi ei phenodi i swydd arall yn y Cyngor, a'u bod yn chwilio am rywun i lenwi'r swydd yn ei lle. Cytundeb blwyddyn i ddechrau. Dymunir yn dda iddi yn ei swydd newydd.

***11. CG - Tîm Tacluso:***
Swyddog newydd fel Swyddog Prosiect ar gyfer Tîm Tacluso Ardal Ni ydi David Charles Williams

**8 CYNLLUNIO:**
**C22/0707/15/LL** - Dôl Peris, Stryd Fawr, Llanberis - Gosod 2 ffenestr gromen ar y blaen a 3 ar y cefn (ynghyd a grisiau mewnol ychwanegol).
Ymateb: Byddai'r ffenestri yma'n dod â'r adeilad yn ôl i fel yr oedd yn 1861 pan adeiladwyd ef. Dim Sylw
**C22/0770/15/LL** - 1 Bryn Golau, Llanberis - *Dymchwel estyniad cefn unllawr presennol. Codi estyniad deulawr to fflat yn y cefn. Codi porth derw newydd o flaen yr eiddo*
Ymateb: Dim sylw
**C22/00833/15/LL** - Glyn Peris, Pen y Gilfach, Llanberis - *Newid defnydd o westy (dosbarth defnydd C1 i gartref preswyl i blant mewn gofal (dosbarth defnydd C2).*
Ymateb: Mynegwyd pryder ynglŷn â'r bwriad i newid defnydd y tŷ i fod yn gartref plant. Darllenwyd llythyr gan yr elusen a oedd yn gwneud y cais yn egluro eu bwriad i greu cartref i blant o Wynedd a siroedd eraill y Gogledd ar gyfer 5 o blant. Cafwyd manylion hefyd ynglŷn â staffio, a nodwyd fod dau gartref arall ym meddiant yr elusen yn gweithredu'n llwyddiannus o fewn eu cymuned.
Dywedodd sawl aelod eu bod yn bryderus am drigolion lleol ac effaith y cartref arnynt. Roedd eraill yn gweld y lleoliad yn addas. Holwyd tybed a ellid cael y trefnwyr i siarad efo'r trigolion sy'n byw agosaf. Penderfynwyd yn unfrydol nad oedd gwrthwynebiad i'r cais, ond holwyd pam fod angen caniatad cynllunio ar gyfer newid defnydd yma pan na fu angen caniatad cynllunio yn achos Gwesty Dolbadarn. Addawodd y Clerc holi.
**C22/0828/15/LL** – Cornel Stryd Coed y Ddôl, Llanberis – *Codi bwrdd dehongli*
Ymateb: Dim gwrthwynebiad ond holwyd a oedd y sawl oedd yn codi'r bwrdd wedi cael caniatad perchennog y tir.
**NP3/15/75C** – Ynys Etws, Nantperis – *Amrywio Amod Rhif 1 (Dyddiad cychwyn 5 mlynedd) o Ganiatâd Cynllunio NP3/15/75C dyddiedig 31/07/2017 i ymestyn y dyddiad cychwyn am 5 mlynedd arall.*
Ymateb: Dim sylw.

Cynnig ac eilio: LlHP / RhaG

**9 Materion Ariannol:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Awst, 2022**
**Cyfrif Cyfredol**: £44,929.55 **Cyfrif Cadw**: £66.53
**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**Cyfanswm ... ... £845.88**
**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/06/2022 a 28/08/2022:**
**Cyfanswm ... ... £10,420.98**

Cynnig ac eilio yr oll o'r materion ariannol: RhaG / GE.

**10 Adroddiadau Eraill:**
Adroddwyd bod cyfarfod wedi bod i drafod eto ddyfodol Mynydd Gwefru. Yn y cyfarfod hwnnw dywedwyd bod cwmni Engie wedi ail ystyried ac na fyddai'n creu maes parcio, unwaith y byddai'r adeilad wedi ei ddymchwel. Byddai'r llecyn yn dychwelyd i fod yn dîr glas. Croesawyd y newydd.

**11 Cyfarfod nesaf:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf. ***Nos Fercher y 12fed o Hydref, 2022 am 7.00yh*** yn Y Ganolfan.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**
Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard
Clerc: Dei Tomos
Dyddiad: 12fed o Hydref, 2022

# BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Cafwyd diwrnod llwyddiannus cyn gwyliau'r haf yn y Ganolfan, Llanberis pan y gwahoddwyd busnesau lleol gan y Sefydliad i archebu byrddau i arddangos a gwerthu eu crefftau. Roedd y tywydd yn anffafriol iawn ar y diwrnod, a hynny'n dilyn cyfnod hafaidd, braf! Er hynny, balch oedd ein haelodau o gael cyfle i groesawu nifer helaeth o fusnesau lleol. Bu'n ddiwrnod manteisiol i'r Gangen gyda'r trefniant o Fwrdd Te a Chacennau a'r rhoddion gan ein haelodau yn llwyddiant amlwg. Mwynhawyd yr arlwy gan nifer dda o brynwyr ac ymwelwyr. Diwrnod llewyrchus yn wir; ac mae ein diolch yn fawr fel swyddogion i'r holl aelodau am eu hymroddiad gydol y dydd ac ar noson y paratoi.

Yng nghyfarfod mis Medi, y gŵr gwadd oedd Gareth Roberts, Menter Fachwen. Testun ei sgwrs oedd y Ffotograffydd Isaac Hughes o Lanberis. Diddorol oedd gwrando ar ei gyflwyniad yn egluro'r darganfyddiad diweddar o hen luniau mewn atig tŷ yn Llanberis. Roedd yn amlwg fod ein siaradwr gwadd wedi gwneud llawer o waith ymchwil i gefndir y cymeriadau yn y lluniau. Mae ein diolch yn arbennig iddo am noson bleserus dros ben.

Edrychwn at weithgareddau sydd i ddod: noson Trefnu Blodau ar gyfer y Nadolig ar Dachwedd 17eg, a'r Cinio Nadolig Blynyddol ar Ragfyr 15fed yng Ngwesty'r Black Boy, Caernarfon.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Kelvin a Rhian Jones, Ty'n Buarth ar enedigaeth eu merch fach, Nel Mair ar Hydref 9fed. Mae croeso mawr iddi gan ei chwiorydd Mali Efa a Lili Megan, taid a nain Dennis a Mair Davies, Tal y Cae, Tregarth, ei nain Marella Jones, Garnedd, Deiniolen a'r teulu oll.

## Cronfa Goffa R. H. Owen

**Grantiau bychain ar gyfer myfyrwyr mewn prifysgol a choleg ar gyfer y flwyddyn Medi 2022 – Awst 2023.**

**Gwahoddir ceisiadau am gymorth o'r Gronfa hon oddi wrth gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail.**

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Gronfa, Heather Jones, trwy e-bost neu ffôn: heatherjones37@aol.com / 07867 982518.

Bydd angen dychwelyd y ffurflen gais erbyn **30 Tachwedd 2022**.




# Cyngor Cymuned Llanrug

## Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 16eg o Awst 2022

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 19 Gorffennaf 2022**
Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**Cyfranogiad y Cyhoedd**
Diolchodd y Cadeirydd i Mr Rhisiart ap Gwilym am ei bresenoldeb ac am godi'r pwynt yma.

"Mae pawb yn ymwybodol am gyflymder ceir o gwmpas Llanrug, yn enwedig Ffordd yr Orsaf a Ffordd Llanberis, ag sydd yn bwnc llosg. Soniais i am hwn wrth yr Heddlu yn yr Eisteddfod yn Nhregaron, a dywedodd bod ganddyn nhw gynllun Community Speed Watch ble mae'r Heddlu'n hyfforddi'r cyhoedd i ddefnyddio gynnau cyflymder ble mae'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio gan yr Heddlu i ddanfon llythyr i'r gyrwyr i'w rhybuddio am oryrru. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn helpu'r Heddlu i benderfynu pryd a ble i osod y faniau diogelwch. Yr unig beth sydd angen i ni wneud yw creu grŵp o 6 neu ragor o wirfoddolwyr i weithio mewn parau i fesur y cyflymder. Y cam nesaf yw cofrestru, ond yn anffodus dydi'r linc ddim yn gymwys i Heddlu Gogledd Cymru, ac felly dwi wedi anfon e-bost atyn nhw i ofyn am gymorth. Ydi hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen?"

*Arwydd 20 mya wrth siop Spar.*

"Dydi'r gyrwyr sy'n paratoi eu hunain at dorri'r cyflymder ar hyd Ffordd Llanberis ddim yn gallu gweld yr arwydd 20 mya yn glir achos y tyfiant tu blaen iddo. Er, os maen nhw'n mynd i deithio dros 60 mya mewn 30 limit dwi ddim yn meddwl bydd o'n gwneud gwahaniaeth."

**Penderfynwyd:** Adroddwyd fod hyn wedi codi'i ben yn y gorffennol ac mai penderfyniad y Cyngor Cymuned bryd hynny oedd i beidio ymgymryd â'r cynllun 'Community Speed Watch'. Teimlad y Cyngor oedd nad mater i'r Cyngor Cymuned ydi hyn ond i gymdeithas yn gyffredinol os ydynt yn teimlo fod angen cynllun o'r fath yn Llanrug.

O ran materion traffig ger y Spar, mae hyn yn rhan o'r cynllun ble mae'r Cyngor Cymuned mewn trafodaethau â Chyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Priffyrdd.

Diolchwyd i Mr. Rhisiart ap Gwilym am ddwyn y materion hyn at sylw'r Cyngor ac am ei gyfranogiad i'r cyfarfod yma.

**Ceisiadau Cynllunio**
a) Amrywio amod 2 ar ganiatad rhif C10A/0087/23/LL (adeiladu 4 tŷ teras ac un tŷ ar wahân) ar gyfer codi 2 dŷ par a 3 tŷ teras – 1, Maes Gerddi, Cwm Y Glo.
Penderfynwyd: Gwrthwynebu'r cais ar sail y sylwadau sydd eisoes wedi eu cyflwyno a theimlad y Cyngor Cymuned ydi ei fod yn or-ddatblygiad o'r safle ac y byddai'n creu mwy o broblemau gyda mwy o geir.
b) Trosi adeilad allanol i fusnes salon trin cwn – 4, Swn Yr Efail, Llanrug.
Penderfynwyd: Cefnogi'r cais.
c) Cais ar gyfer estyniad newydd ynghyd â newidiadau mewnol, canopiau newydd, drysau a ffenestri newydd, gosod polyn CCTV 5m o uchder ar iard yr Ysgol a gwaith i'r ardal chwarae – Cyngor Gwynedd, Ysgol Gynradd Llanrug, Llanrug.
Penderfyniad: Cefnogi'r cais.
d) Dymchwel estyniad unllawr ac adeiladu estyniad deulawr – Madryn House, Ffordd Yr Orsaf, Llanrug.
Penderfyniad: Cefnogi'r cais.
e) Estyniad deulawr ar ochr y tŷ ac estyniad un llawr yng nghefn y tŷ gyda phorth newydd i'r blaen – 23, Nant Y Glyn, Llanrug.

Penderfynwyd: Teimlad y Cyngor oedd nad oedd gwahaniaeth rhwng y cynllun a gyflwynwyd yn wreiddiol am gyngor a'r cais a gyflwynwyd.

# Cyngor Cymuned Waunfawr

## Cofnodion Cyfarfod Medi 2022

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 27/07/2022 gan y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng LD.
Materion yn codi o'r Cofnodion:
Materion Caeathro – Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon: Dal ar yr agenda; aros cais PAC yn Ionawr.
Drych: Cyng EO i drefnu cyfarfod gyda Swyddog y Cyngor.
Llinellau Melyn ger Stad Erw Wen: Ar raglen waith Cyngor Gwynedd.

**Materion Waunfawr –**
Llinellau Gwyn/Melyn: Ar raglen waith Cyngor Gwynedd.

Ffordd Cefn Du: Tyllau yn cael eu cau.

Cae Aml-dywydd: Wedi arwyddo telerau y Les, aros y Les gan Gyngor Gwynedd. Cyng EO i holi ynglŷn â phrisiau llogi caeau aml dywydd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer y dyfodol.

Golau fflachio bob ochr i'r pentref: Aros am ddiweddariad ynglŷn â'r Ganolfan Iechyd newydd.

Cyflymder traffig drwy'r pentref: Heddlu yn y pentref yn aml yn monitro cyflymder traffig.

Drych: Gwaelod ffordd Ysgol a ger yr Hen Bost. Cyng EO i drefnu cyfarfod gyda Swyddog y Cyngor.

Baw Ci: Mae cwynion ynghylch baw ci ar y droedffordd yn y pentref. Mae Swyddog Cyngor Gwynedd yn ymweld â'r pentref yn rheolaidd i fonitro a bydd dirwy yn cael ei rhoi os bydd rhywun yn cael eu dal. Os oes angen bagiau baw ci ar unrhyw un yn y pentref yna plis cysylltwch â'r Clerc neu'r Cynghorydd Edgar Owen.

Goleuadau Dolig: Aros i Swyddog Cyngor Gwynedd ymweld â'r pentref i weld beth sy'n bosibl.

Potiau Blodau: Bydd Antur Waunfawr yn tacluso ac yn plannu blodau tymhorol yn y potiau yn Waunfawr a Chaeathro yn y misoedd nesaf.

**Seddi Gwag:**
Rydym wedi derbyn enw ar gyfer y sedd wag yng Nghaeathro. Y Clerc i gysylltu â'r ymgeisydd i gadarnhau. Mae 2 sedd wag ar y Cyngor Cymuned yn Waunfawr. Cysylltwch â'r Clerc os oes gennych ddiddordeb.

**Gerddi Bach:**
Tai yn barod ar y safle; aros i S104 gael ei harwyddo er mwyn cysylltu'r garthffosiaeth.

**Llochesi Bws:**
Lloches newydd wedi cael ei osod yng Nghroes y Waun. Mewn trafodaethau â Chyngor Gwynedd ynglŷn â lleoliad addas ar gyfer y lloches bws ger Stad Bod Hyfryd.

**Llwybrau:**
Gwaith Parc Dudley yn mynd ymlaen. Wedi gofyn i Gyngor Gwynedd am gynllun llwybrau yn y pentref. Llwybr ger Llys Awel a thu ôl i'r Gofgolofn angen eu clirio. Clerc i gysylltu â'r Cyngor. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 19/10/2022




# Ar ben arall i'r lein

Be fedar rhywun ddweud am y tymor eleni? A dweud y lleiaf, tipyn o siom oedd hi ar yr afonydd; ac mewn gwirionedd felly oedd hi ar ein llynnoedd ar adegau hefyd, hyd nes i'r glaw mawr cyson ar ddiwedd Medi annog rhai o'r pysgod mudol i ddechrau cymryd diddordeb yn y bluen. Mi fydd mwy am hyn yn nes ymlaen. Er y sychder, yr unig le sydd wedi bod yn eithaf cyson gyda'r daliadau yw Llyn y Dywarchen, er bod y fan yma wedi bod yn eithaf cyndyn o ddisgleirio am gyfnodau trwy Awst a dechrau Medi. Er hynny, mae pysgotwyr o bell ac agos wedi heidio yno er mwyn ceisio glanio'r brithyll brown arbennig sydd yno, ac oes, mae rhai hyd at 6 phwys wedi dod i'r bluen. Ymwelydd cyson â'r llety ym Melin y Cim ac i fwynhau'r helfa yw Tom Reimnits a'r teulu o Dde Cymru, ac mae wedi cael hwyl arbennig arni eleni. Efallai fod ganddo wersi i'w rhoi i'r criw lleol! Fel mae'n dweud, mae pysgota'r brithyll brown yma'n arbennig. Wel, gobeithio yn wir y bydd hyn a'r newid yn y tywydd yn gweld padelli pentref Llanrug unwaith eto'n gorlifo o frithylliaid!



**Brithyll brown Dywarchen i Tom Reimnits**

Unwaith eto, mae'n rhaid i mi ganu clod y tîm bach gweithgar sy'n goruchwylio'r ddeorfa yn Crawia. Yno mae'r gwaith o fagu a phesgu'r holl frithyll brown sy'n cael eu stocio i Ddywarchen. Mae'n waith cymhleth ac i gyd yn wirfoddol. Mae'n anodd iawn i ddeorfeydd proffesiynol dyfu brithyll brown hyd at 6 phwys. Ydi, mae'r gwaith yma i gyd ar gael ar drothwy ein drysau. Diolch yn fawr unwaith eto am eich gwaith.

Ydi, mae wedi bod yn anodd eleni cael gafael ar faterion positif yn ymwneud â'r byd pysgodfaol. Er i'r tywydd fod yn eithriadol o ddeniadol i'r rhai sy'n mwynhau'r haul a thor-heulo, digalon iawn fu hi i ni'r sgotwrs. Ond wrth lwc tydi amgylchiadau o'r fath ddim yn parhau am byth; a do, fe ddaeth y glaw mawr, nid yn unig i godi'r afonydd ond hefyd i ysgafnhau'n calonnau. Felly, ffwrdd â ni oedd hi. Er bod llwyddiant wedi f'osgoi i yn bersonol, mae eraill sy'n amlwg yn well sgotwrs wedi cael tipyn o hwyl arni. A da bod y llifogydd diweddaraf wedi gweld y Gwyrfai'n dod ati ei hun. Ar yr afonig hyfryd yma mae Hefin Hughes, Caeathro wedi rhoi'r oriau i mewn, ac wedi cael y wobr o eog a gwyniadau gwerth chweil.

Ar y Seiont mae tipyn mwy wedi bod wrthi, a'r rhai sy'n dod i'r brig ydi Geraint Owen, Adam Burton a Dr. Robin Parry. Mae mwy i ddod, ond tydi'r wybodaeth swyddogol heb ddod fy ffordd eto!





**Eog o Glan Gwna a brithyll brown o Stablau i Dr. Robin Parry**

Er bod y fro yn enwog am ei chyfleon hamddena sy'n ymwneud â mynydda ac ati, prin iawn yw'r hysbys a gaiff ei roi i ddiddordebau cefn gwlad, heblaw be mae'r gymdeithas yn ymdrechu i'w wneud i godi ymwybyddiaeth yn y maes yma. Dros y ffin, mae pethau tipyn yn wahanol gyda ffeiriau mawr yn ymwneud yn gyfan gwbl â materion cefn gwlad: Neuadd Ragley, Sir Warwick yw lleoliad Ffair Gêm Lloegr, ac yn yr Alban Palas Scone yw'r fan. Oes, mae ffair fechan wedi bod ambell dro mewn gwahanol fannau yng Nghymru, ond mae'r gwledydd eraill wedi profi mai bod yn sefydlog yw'r ateb. Eleni am y tro cyntaf, dros y tri diwrnod 9ed-11ed Medi daeth ffair Cymru i Stad Faenol,






a bendithiwyd y digwyddiad â thywydd ardderchog. I goroni'r cwbl, gwahoddwyd y Gymdeithas i bresenoli ei hun mewn pabell arddangos fechan, a chymryd gofal am hyfforddi taflu pluen. Wel dyna lwyddiant fu'r sioe i gyd, gyda phob math o ddiddordebau cefn gwlad, pysgota, saethu, arddangosfeydd adar ysglyfaethus, coginio. Difyr dros ben oedd arddangosiad o bysgota gyda chwragl o'r afonydd Teifi a Towy: gwerth eu gweld.

Gyda'r gaeaf yn agosau, mae tipyn o waith wedi bod yn mynd ymlaen yng Nghwt Crawia: y joban fawr oedd symud lleoliad a gosod corn simdde newydd. Cafwyd gwaith ardderchog; a diolch i Tony Brown am ei ymroddiad. Canlyniad y gwaith yw bod y stôf llosgi coed yn tynnu fel coblyn, mi fydd yn lle i ymgynull dros y misoedd nesaf ac yn gynnes brâf. Lle i arbed tipyn ar y tanwydd gartref!

Cefais wybodaeth yn ddiweddar y bydd y cynllun magu torgoch ysgolion yn cael ei redeg eleni. Ysgol Waunfawr fydd yn derbyn y wyau i'w deori a'u magu cyn i'r disgyblion ryddhau'r cywion (parr) i Lyn Padarn yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn casglu'r wyau o Afon y Bala ar ddechrau Rhagfyr eleni. Dr Robin Parry ac athrawon yr Ysgol fydd yn gofalu am y fenter, a diolch i chwi oll.

Ar ddechrau'r 1980'au dyma ddywedodd y diweddar Dr. Alister Rodgers, oedd yn gyfrifol am y gwaith o ddiogelu'r torgoch gydol amser adeiladu Gorsaf Bwêr Dinorwig. Dros y blynyddoedd y bu'n gweithio ar y cynllun, er holl dreialon y pysgodyn hyfryd yma, un peth oedd yn gyson oedd dyddiadau pan oedd y torgoch yn bwrw grawn. Y dydd tyngedfennol oedd 13ed Rhagfyr, ond mi fuasai peth claddu yn digwydd rhwng pedwar diwrnod cyn y diwrnod hwnnw neu bedwar diwrnod yn dilyn y dyddiad hwnnw. Felly, dyma'r amser i gadw llygaid ar Afon y Bala. Mae'r gwaith yma werth ei weld, a bydd lluniau ar gael erbyn rhifyn Ionawr. Ond cofiwch y byddaf o ddiwedd Hydref ymlaen yn cadw golwg ar Ben Llyn i edrych os yw'r eog a'r gwyniadau wedi dechrau ar eu gwaith cenhedlu.

Dyna ni am y tro.

**Huw Price Hughes**

# Garddio

## TACHWEDD

Erbyn hyn mae'r dydd yn byrhau a'r nosweithiau'n dywyllach a hirach. Mae mwy o ias i'w deimlo wrth godi yn y bore ac mae angen siaced neu gôt i fynd allan i'r ardd. Ar ôl deud hynny, mae'n adeg o'r flwyddyn i arddwyr gael ryw hoe fach er bod dal amser i blannu rhai pethau.

**Plannu bylbiau**

Er bod hi'n fis Tachwedd dydy hi dal ddim yn rhy hwyr i blannu cennin Pedr, yn y ddaear os nad yw'n rhy wlyb, neu mewn potiau i gael sioe werth chweil yn y gwanwyn. Dylech fynd ati i blannu bylbiau tiwlip ym mis Tachwedd ac os yw'r tywydd yn dynner gallwch hyd yn oed fentro eu plannu hyd at ddechrau mis Rhagfyr. Rydw i eisoes wedi plannu rhai acw, ond mae gen i ryw hanner dwsin wnaeth sioe fendigedig mewn cafn carreg llynedd, nad ydw i wedi eu codi. Bydd yn ddiddorol gweld os ddown nhw eto yn y gwanwyn, gan fod y gwybodusion yn dweud y dylwn i fod wedi eu cadw a'u hail-blannu! Cewch wybod beth fydd eu ffawd yn y gwanwyn!

Os am gael *hyacinth* mewn potyn yn y tŷ ar gyfer y gwanwyn, gallwch wneud hynny'r mis hwn. Os fuoch chi'n ddigon trefnus i blannu *hyacinth* a/neu'r *narcissus paperwhite* mewn potiau yn barod i lonni'r tŷ efo'u lliw a'u harogl hyfryd erbyn y Nadolig, rŵan ydy'r amser i edrych os yw'r egin gwyn yn dechrau dod allan o'r pridd. Os ydynt yn dod i'r fei, ewch a nhw o'r lle tywyll ac oer lle roedden nhw'n byw a throsglwyddwch nhw i'r tŷ i le golau (ond heb fod yn llygaid yr haul) nad yw'n rhy boeth. Os ydynt i'w gweld braidd yn araf yn tyfu ewch a nhw i le cynhesach ac i le oerach os ydach chi'n meddwl y byddan nhw'n barod yn rhy fuan.

**Plannu hadau**

Dydy hi chwaith ddim yn rhy hwyr i hau hadau ffa (*broad beans*) Un sy'n reit ddibynnol ar gyfer eu hau yn y gaeaf yw '*Aquadulce Claudia*' sydd hefyd yn rhoi cnwd reit dda. Mae ffa '*Crimson Flowered*' hefyd yn rhai diddorol i'w tyfu ac mae ganddynt flodau hardd piws a choch, sy'n denu gwenyn, fydd yn sicrhau cnwd da i chi!

Gallwch hefyd hau pys pêr (mae potiau 3 modfedd bwrpasol i'w cael yn y canolfannau garddio neu defnyddiwch ganol rholyn papur toiled neu bapur cegin, os am fod yn ddarbodus. Does dim angen gwres arnynt, felly gallwch eu cadw mewn tŷ gwydr (heb wres); o dan gloch wydr (*cloche*) neu ar silff ffenestr mewn cwt/sied. Eich gwobr fydd sioe o flodau persawrus yn gynt na rhai eich cymdogion.

**Plannu a rhannu**

Dwi eisoes wedi plannu garlleg (o'r rhai dyfais i fy hun) ond gallwch eu plannu nhw ym mis Tachwedd, gan fod angen cyfnod estynedig o oerni er mwyn i'r bylbiau ffurfio'n iawn.

Os ydy'ch riwbob chi wedi tyfu ar draws ei gilydd a heb roi llawer o gnwd i chi eleni, gallwch eu codi a'u rhannu'r mis yma (a deud y gwir allwch chi wneud hyn hyd at fis Chwefror). Unwaith y byddwch chi wedi plannu'r coronau iachaf a mwyaf (gan adael tua 75cm rhyngddynt) sicrhewch fod y blagur ar wyneb y pridd cyn rhoi pridd a chompost neu dail dros y gwreiddiau. Ni fyddwch yn gallu cynaeafu'r coesau yn y gwanwyn, gan fod angen iddynt gael amser i sefydlu'n blanhigion cryf. Gallwch botio rhai llai mewn compost a thail fferm wedi pydru a gadael iddynt dyfu'n fwy neu gallwch rannu rhai efo ffrindiau a chymdogion.

Plannwch goed rhosod neu os oes rhosod eisoes yn ffynnu yn eich gardd gallwch gymryd toriadau, efallai wrth eu tocio, o tua 30cm o hyd. Gwthiwch nhw i mewn i gompost graeanog dwfn i greu planhigion newydd. Dyliech fedru ffitio pedwar i mewn i botyn heb iddynt gyffwrdd ei gilydd. O'u cadw mewn lle cysgodol dylent fod yn barod i'w plannu erbyn yr hydref nesaf.

**Lliwiau'r hydref**

Rhaid cyfaddef mai'r hydref yw fy hoff dymor. Mi fyddai'n dotio at y lliwiau yn enwedig lliwiau'r coed masarn (*maple*) a'r *'acer'* sydd yn newid eu lliw cyn iddynt ddisgyn. Does dim rhaid i chi gael gardd fawr i dyfu un fel *Acer Palmatum 'Bi Hõ'*, fyddai'n hapus mewn border neu mewn potyn go fawr. Lleolwch unrhyw *acer* allan o ddannedd y gwynt ac maent yn hapus i fod mewn man sy'n rhannol mewn cysgod. Un peth arall, mae'n hanfodol nad ydyn nhw byth yn sychu allan! Mae teulu'r gorchwraidd (*heuchera*) yn tyfu rhwng 20cm a 30cm o uchder gan amlaf ac wedi dod yn hynod boblogaidd yn ein gerddi. Maent i'w cael mewn pob math o liwiau gyda dail crychlyd hardd. Dwi'n hoff iawn ohonynt ac mae gen i rai amrywiol liwiau mewn gwahanol lefydd yn yr ardd. Bonws arall yw eu bod yn hawdd i'w rhannu a'u hail blannu. Mae'r rhai efo dail golau yn dueddol o losgi yn yr haul felly'n hapusach mewn twipyn o gysgod, tra bod y lliwiau coch tywyll, porffor ac efydd yn gallu byw'n hapus yn llygaid yr haul. Gallwch eu tyfu nhw i gyd mewn peth cysgod cyn belled o fod deiliach golau allan o haul ganol dydd. Mae'r *sedums* hefyd yn fôr o liw ac yn werth i'w gweld.





**Clirio a thwtio**

Dyma'r mis i glirio'r planhigion fel y dahlia, gladioli a begonia er mwyn eu sychu a'u cadw ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Os ydach chi'n clirio eich planhigion blwyddol, ceisiwch dorri'r deiliach a'r coesyn ond gadewch y gwreiddiau yn y ddaear, mi wnawn nhw bydru dros y gaeaf gan fwydo microbau'r pridd yn y broses. Gallwch roi'r dail yn eich bin compost ond gochelwch rhag rhoi unrhyw beth wneith hadu fel peth gwirion yn y bin compost, neu mi fyddan nhw'n ymledu i bobman , gwell eu rhoi ym min brown y Cyngor Sir.

Gadewch y gweiriau a phlanhigion cadarn yn gyfan, fel bod cyfle i'r pennau hadau fod yn fwyd a lloches i adar a phryfetach. Os oes chwyn ar ôl - tynnwch nhw i gyd, wnawn nhw ddim tyfu rhyw lawer ond byddant yn boen yn y gwanwyn wrth dyfu a gwasgaru eu hadau a chreu gwaith heb fod angen.

Gadewch ambell i bentwr o ddail i roi cysgod i bryfetach. Fel y soniais y mis diwethaf mae dail yn gwneud deilbridd bendigedig, felly casglwch gymaint ag y gallwch chi ohonynt. Ar y llaw arall peidiwch â gadael i drwch o ddail aros ar wair y



lawnt, rhag hyrwyddo haint na rhoi cyfle i wair marw '*thatch*' ddifetha'r gwair. Byddwch ofalus hefyd i beidio â gadael iddynt droi'n slwtsh ar lwybrau, rhag ofn i chi neu aelod o'r teulu lithro arnynt, yn enwedig os yw'n rhewi. Ffaith ddiddorol - mae derwen yn cynhyrchu tua 10 miliwn o fes ar gyfartaledd yn ystod ei bywyd!

**Lawnt**


Dyma'r mis olaf o'r flwyddyn pan allwch dorri'r lawnt a thwtio'r ymylon, peidiwch â'i dorri'n rhy fyr a bydd yn edrych yn daclus tan ddaw'r gwanwyn gobeithio. Mae hefyd yn llesol i roi bwyd hydrefol pwrpasol i'r lawnt sy'n uchel mewn ffosffatasau (*phosphates*) a photash i hyrwyddo gwreiddiau cryf.

**Arbed arian**

Mae pawb yn cyfri'r ceiniogau eleni ac mae'n debyg wrth i ni fynd i'r misoedd oerach y byddwn ni i gyd yn chwilio am ffyrdd o arbed arian. Mae sawl ffordd i beidio gwario gormod wrth arddio. Un ffordd yw trwy brynu planhigion llai, sy'n costio llai, gall planhigyn bach sy'n costio £2.99 dyfu mewn blwyddyn i fod gymaint â phlanhigyn sy'n costio £10.99. Mae'r creigafal (cotoneaster) blannais i ryw ddwy flynedd yn ôl fel planhigyn bach bach yn llawn aeron ac yn dringo'r wal gerrig erbyn hyn. Yn ei flwyddyn gyntaf cafodd mwyalchen bryd o ryw ddwsin o aeron, mae













dipyn mwy o wledd iddo eleni!

Ddiwedd yr haf, gallwch ysgwyd hadau o blanhigion hoffech chi eu plannu ar gyfer y flwyddyn nesaf i mewn i fag neu amlen bapur a'u cadw'n sych ac yn barod i'w hau yn ystod misoedd y gwanwyn.


Mae plannu paced o hadau wedi ei brynu hefyd yn opsiwn rhatach na phrynu planhigion. Os oes ganddoch chi ormod o'r un planhigyn, beth am eu cyfnewid efo garddwr arall am blanhigion nad ydach chi wedi eu tyfu?

Dwi hefyd yn rhannu toriadau gymrais sydd wedi tyfu'n blanhigion efo cymdogion ac yn derbyn rhai eraill ganddyn nhw yn eu lle. Mae gen i *erysimums* yn sbâr a gorchwraidd, ddaeth o doriadau a phlanhigion nad af i'n angof a bysedd y cŵn dros ben, a'r rheiny o bacedi hadau oedd ar hanner pris ddiwedd yr haf! Rwyf wedi plannu rhai a rhannu dipyn, ond angen dod o hyd i gartrefi iddyn nhw cyn iddi fynd yn rhy hwyr i'w plannu.





Yn ogystal â hynny bydd y planhigion '*Peace Lily*' yma sy'n tyfu'n ddel ar ffenest olau yn cael eu gwerth er budd y Cylch Meithrin lleol yn nes at y Nadolig, pob un yn dod o un lili gefais yn anrheg flynyddoedd maith yn ôl. ***Rhosyn Mynydd***



# Age Cymru Gwynedd a Môn wedi ffarwelio gyda'r haf ac yn paratoi am yr hydref a'r gaeaf

Ar brynhawn Gwener tanbaid ganol Awst 2022 daeth dros 60 o wynebau cyfarwydd a newydd draw i'r Cartref yn Bontnewydd i ddathlu 5 mlynedd ers i ni ymsefydlu yma. Fel rhan o'r dathliadau daeth criwiau o ochrau Llanrug, Llanberis, Waunfawr, Caeathro, Caernarfon, a Bontnewydd yn ogystal ag ochrau Sir Ddinbych! Diddanwyd pawb gan Dafydwwd Iwan yn canu ambell i glasur a thrwy fwynhau te prynhawn, raffl, a stondinau gan sawl crefftwr lleol. Rydym yn falch o gyhoeddi fod rhodd o £250 o'r diwrnod yn mynd tuag at apêl codi arian Eisteddfod Genedlaethol 2023.

**Dafydd Iwan yn canu yn y diwrnod dathlu 5 mlynedd**



A ninnau nawr wedi cyrraedd yr hydref, a'r gaeaf yn prysur agosáu, rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar hyrwyddo llesiant corfforol, emosiynol ac ariannol y boblogaeth leol. Mae yna weithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal o'r Cartref, yn cynnwys clybiau cinio, sesiynau crefftau ac arlunio, technoleg gwybodaeth a thrin blodau. Bellach mae Caffi Galar yn cael ei gynnal yma bob yn ail prynhawn Gwener drwy gydweithio gyda Chanolfan Felinfach a Gisda.

**Rhai o'r criw ar y trip Rheilffordd Llyn Padarn**

Yn ddiweddar trefnwyd trip lle aeth dros 30 ar y bws i Lanberis a chael mynd ar




trên Rheilffordd Llyn Padarn a gweld yr arddangosfa ddiddorol sydd yn dathlu 50 mlynedd o Reilffordd Llyn Padarn. Byddwn yn trefnu rhagor o dripiau amrywiol dros y misoedd nesaf felly edrychwch allan am y manylion!

**Cyngor Ynni**

Rydym oll yn byw mewn cyfnod heriol o ran cynnydd sylweddol mewn costau byw yn cynnwys costau ynni a chynhesu'r cartref. Mae ein gwasanaeth cyngor a gwybodaeth yn parhau i fod ar gael ac yn ddiweddar aeth un o weithwyr yr elusen draw i sesiwn At Ein Gilydd yn Y Ganolfan, Llanberis er mwyn rhannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a pha gymorth sydd ar gael yn lleol dros y gaeaf, a hynny dros baned a sgwrs a bingo! Unwaith yn rhagor eleni rydym wedi llwyddo i dderbyn nawdd gan Age Uk er mwyn ymgymryd ag archwiliadau ynni yn y cartref gan adnabod a rhannu dulliau o arbed ynni ac i ddarparu offer er mwyn gwneud y cartref yn fwy ynni effeithlon. Gallwn hefyd gyfeirio pobl ymlaen i gymorth mwy arbenigol fel cynllun Nyth Cymru.

**Gwledda**

Cofiwch hefyd fod ein gwasanaeth Pryd yn y Cartref ar gael o ddydd Llun i Gwener gyda phryd bwyd maethlon poeth yn cael ei gludo i'ch cartref am £6 am brif gwrs neu £8.50 am brif gwrs a pwdin. Mae Caffi Y Cartref ar agor hefyd o ddydd Llun i Gwener felly galwch draw am baned a sgwrs neu am bryd poeth neu te prynhawn godidog!

Byddwn yn mynd ati eto eleni i gynnal cinio dathlu'r Nadolig yn Y Cartref Bontnewydd ar ddyddiau penodol yn ystod Rhagfyr 2022. Bydd cinio tri cwrs ar gael ar y 1af, 7fed, 8fed, 12fed, 13eg, 15fed, 20fed, ac 22ain o Ragfyr am £15 y pen. Mae yna grwpiau eisoes wedi cychwyn archebu byrddau felly peidiwch a'i gadael hi'n rhy hwyr cyn cysylltu gyda ni i drefnu eich dathliadau Nadolig yn 2022!

Cysylltwch gyda ni ar 01286 677 711 neu info@acgm.co.uk os am wybodaeth bellach am ein gwasanaethau neu i archebu bwrdd yn ein Caffi neu i archebu drwy'r gwasanaeth Pryd yn y Cartref!

Cadwch yn saff!



# Cyngor Cymuned Llandwrog

## Swydd Wag

## Clerc A Swyddog Gweinyddol

**Rhan amser, 51.5 awr y mis ar gyfartaledd, graddfa cyflog LC2 (18-22),
(£25,419-£27,514 pro rata)**

Gwahoddir ceisiadau gan unigolion sydd â'r cymwysterau neu'r profiad perthnasol a'r ymrwymiad i gyflawni cyfrifoldebau amrywiol y swydd uchod. Mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd.

Mae pecyn gwybodaeth a manylion ychwanegol ar gael gan David Roberts, 01286 881920 neu rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru
Dylid dychwelyd y ceisiadau erbyn ***Tachwedd 14, 2022.***

Mae'r Cyngor yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau o bob adran o'r gymuned.

*This is an advertisementfor a Clerk/ Administrative Officer for Cyngor Cymuned Llandwrog where the ability to communicate verbally and in written form in Welsh is essential.*

# Atgofion am Gwpan y Byd




*Braf oedd derbyn yr erthygl hon oddi wrth Chris, Clegir, Ffordd yr Orsaf, Llanrug yn croniclo taith tri o hogia o ardal Garndolbenmaen i wylio gemau rowndiau terfynol Cwpan y Byd 1966. Rhyfeddol yw sylwi ar brisiau mynediad i'r gemau. Diolch i Chris am ymateb a thanio ein disgwyliadau am weld 'Hogia Ni' yn herio'r gwrthwynebwyr a'r gwres yn Qatar ddiwedd mis Tachwedd. Cofiwch, os bydd rhai ohonoch o fro'r Eco yn mentro draw yno y byddaf yn falch o dderbyn adroddiad cyffelyb cyfoes. Wel, am y gemau beth bynnag!*

**Cwpan y Byd 1966**
A ninnau ar drothwy Cwpan y Byd, Qatar, dyma f'atgofion o'r rowndiau terfynol yng nghystadleuaeth 1966. Yn haf 1965 roedd tri ohonom sef, John Tan Braich, Bryn Dalar a fi Chris, Tŷ Capel Batist, Garndolbenmaen yn trafod ffwtbol ac edrych ymlaen at yr haf canlynol draw yn Llundain. Cefnogwyr Man. U. oeddem ni ac roedd John yn chwip ar gael tocynnau yn rheolaidd i ni. Beth petaem ni'n mentro cael tocynnau i Gwpan y Byd Lloegr '66? Dim problem i John; ac o fewn wythnos o archebu roedd 10 tocyn wedi cyrraedd Garn – am bris rhyfeddol o £15 15s! Roedd y paratoi wedi dechrau. (Prisiau £1 am gemau grŵp a £3 15s. am y rownd derfynol.)

Cynilo arian am flwyddyn. Cael lle i aros gyda theulu Cymraeg yn Penny Lane, Lerpwl ac yna gyda theulu yn Wimbledon, ochre Llundain am yr wythnos olaf.

Gorffennaf 11, 1966 a thrên o Fangor i Lerpwl. Y noson honno y gêm gyntaf ar Goodison – hi ac nid Anfield oedd prif stadiwm dinas Lerpwl y dyddiau hynny. Brasil 2 (Pele, Garincha) Bwlgaria 0. Noson wedyn i Fanceinion – Old Trafford. Portiwgal 3 (Augusto 2, Torres) Hwngari 1 (Bene). Yn ôl i Goodison a chwip o gêm – Hwngari 3 Brasil 1. Ar Old Trafford, Portiwgal 3 (Eusebio, Torres, Vultzov o.g.) Bwlgaria 0.

Yna, y gêm dyngedfennol ar




# Eu Dal yn Ifanc

Dyna yw hanes dwy ferch ifanc o Fethel yn y gamp bêl-rwyd. Mae'r ddwy wedi eu dewis i ymuno ag Academi Datblygu Pêl-rwyd Cymru dan 21 oed. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw oedran y ddwy ferch. Disgybl Bl.8 yn ysgol Brynrefail yw Efa Roberts, a disgybl Bl. 9 yn Ysgol Syr Huw yw Elin Cox. O'u blaen felly bydd oriau o ymroddiad rhieni a theithio i ymarfer. Mae'r wobr yn fawr gyda Gemau'r Gymanwlad ble rydym fel gwlad yn cystadlu'n unigol yn wobr i anelu ati. Fel





sy'n amlwg ym myd pel-droed a rygbi merched bellach, ni cheir carfan gref ond wedi blynyddoedd o feithrin a chynllun hyfforddi penodol. Dymuniadau gorau i'r ddwy.

**Cwpanau Cenedlaethol**
Roedd Llanrug wedi cyrraedd ail rownd Cwpan Cymru ac yn croesawu clwb Gresffordd o ardal Wrecsam. Mae'r ymwelwyr yn cystadlu yn Haen 2 o byramid Cymru. Tipyn o her i Lanrug. Ar bnawn braf a chyflwr maes Eithin Duon i'w ganmol cafwyd gêm gystadleuol. Fel mewn sawl gêm roedd Llanrug yn aml yn gweithio cyfleuon ar gwr y cwrt cosbi ond y bas dyngedfenol olaf neu'r ergyd am gôl yn ddiffygiol. Anodd deall eu system o chwarae un ymosodwr unig i fyny'r cae, ac yna pwmpio peli hir ato ac yntau wedi ei ynysu gan amddiffynwyr. Rhaid i ganol cae roddi mwy o gefnogaeth. Y tueddiad o'r dull yma o chwarae yw bod yn gul tra'n ymosod a hawdd i dîm gwell gipio'r bêl a gwrth-ymosod ar unwaith. Rhaid cofio fod Llanrug wedi colli sawl chwaraewr profiadol dros gyfnod y Covid ac mae'r fantell wedi ei throsglwyddo i nifer o chwaraewyr ifanc lleol. O ddweud hynny mae digon o awch yn nhîm ifanc Llanrug ac fe ddaw gwelliant gyda phrofiad. Colli o 3-0 fu hanes Llanrug. Byddant yn siomedig gyda'r modd yr ildiwyd y goliau gyda marcio llac iawn o giciau cornel yn cyflwyno dau gyfle hawdd i'r ymwelwyr. Magu profiad yn y gemau cynghrair fydd hi bellach, ond bydd y clwb yn falch o'r wobr ariannol o gyrraedd yr ail rownd.

Erbyn hyn, byddwn yn gwybod os bydd Llanberis yn dal yn y Tlws Cenedlaethol. Caersws o'r Canolbarth oedd yn teithio i Faes Padarn. Braidd yn anghyson fu perfformiadau'r Darans hyd yn hyn, ond cafwyd perfformiad da wrth drechu Gwalchmai o 2-1 mewn gêm gystadleuol draw ar yr Ynys.

Goodison. Roedd rhaid i Brasil guro Portiwgal neu fynd adref. Fe gofir y gêm am driniaeth ddieflig Colluna, amddiffynnwr cyhyrog Portiwgal a giciodd Pele yn ddu-las. Y chwaraewr rhyfeddol yn gorfod gadael y cae â dagrau yn ei lygaid. Ei Gwpan Byd drosodd. Portiwgal trwodd, ac yng ngêm olaf grwp y gogledd–orllewin y ceffylau duon Hwngari yn curo Bwlgaria o 3-1.

Yn anhygoel draw ar Barc Ayresome, Middlesborough, Gogledd Korea yn curo'r Eidal o 1-0 a Galacticos yr Eidal yn mynd adref yn fuan mewn cywilydd.

Yr wyth gwlad felly fyddai'n ymgiprys am y gwpan oedd Lloegr, Iwragwai, Gorllewin yr Almaen, Yr Ariannin, Portiwgal, Hwngari, yr Undeb Sofietaidd a Gogledd Korea.

Ar Goodison, G. Korea yn arwain Portiwgal o 3-0. A oedd sioc fwyaf hanes Cwpan y Byd yn datblygu? Yn ôl daeth Portiwgal a'r lluniau du a gwyn ar sawl teledu bach led-led y byd yn meithrin y fath awyrgylch mae'n siwr. Eusebio â phedair gôl a'r cawr Torres un gol. Goodison hefyd yn cynnal y rownd gyn-derfynol. Gêm dactegol, dynn ond ar y diwedd G. Almaen 2 Y Sofietiaid 1. Cael y fraint o weld Lev Yashin, y golwr gorau erioed yn nhyb llawer yn chwarae i'r Sofietiaid. G. Almaen yn y rownd derfynol, felly. Ond yn erbyn pwy?

Lawr i Lundain â ni ac i Wembley ar gyfer y gêm gyn-derfynol. Fy arwr Bobby Charlton yn rhwydo dwy gôl Lloegr ac Eusebio un i Bortiwgal. Roedd y ddau yma i ddychwelyd i Wembley ymhen dwy flynedd i gystadlu yn rownd derfynol ddagreuol Cwpan Ewrop. Yr 'hen elynion' Lloegr a G. Almaen i herio'i gilydd am y tlws. Ychydig ddyddiau i ddisgwyl. Crwydro Llundain i weld y 'sights' – dipyn mwy na Garn a Port! Draw i gae criced Lords i weld yr M.C.C. yn herio India'r Gorllewin. Gweld Charlie Griffith, oedd yn bowlio tipyn cyflymach na hogia Garn! Yn anffodus, gohiriwyd y gêm wedi hanner awr oherwydd glaw trwm, ond cawsom chwip o bryd o fwyd yn y Lords Tavern. Hogia Garn yn byw yn dda.

Sadwrn, 30ain Gorffennaf. Wembley. Y rownd derfynol. Cerdded i lawr Wembley Way ac yn cerdded wrth ein hochor Ferenc Puskas (Hwngari a Real Madrid), un o brif chwaraewyr y byd yr adeg hynny. Heb fanylu, Lloegr yn ennill o 4-2, fel y'n hatgoffir hyd heddiw. "They think its all over…".

Tair wythnos fythgofiadwy. Tri o'r Garn yn cefnogi Lloegr yr adeg hynny, ond cefnogwyr Cymru ers sawl blwyddyn bellach. Mae John bellach draw yn Llanllechid, Bryn o hyd ar y Dalar a minnau Chris draw yn Llanrug. Da ni 'Yma o Hyd'. C'mon Cymru. Chris

**O.N. (Golygydd Chwaraeon)**
Roeddwn i yn Lerpwl ar y noson y curodd Portiwgal fawrion Brasil, ond ar berwyl arall. O olygfeydd anhygoel lliwgar, swnllyd Lime St. i lawr â ni i'r dociau. Yn un o dîm criced dan 18 Ysgolion Cymru roeddwn yn croesi dros nos i herio yr Iwerddon draw yn Belfast. Cymru enillodd.

## Dilyn gyrfa ym myd rygbi

Mae bachgen a fagwyd yn Llanberis a Phenisarwaun wedi dewis dilyn gyrfa ym myd rygbi, ac eisoes wedi cynrychioli Colegau Cymru. Cychwynnodd Jac Petch-Jones chwarae rygbi i dîm dan 9 oed Bangor tra'n ddisgybl yn Ysgol Dolbadarn. Erbyn i'r teulu symud i Benisarwaun, roedd Jac yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail ac yn chwarae rygbi i Glwb Caernarfon, ble bu'n gapten y tîm iau.

Wedi canlyniadau TGAU yn 2021 penderfynodd gymhwyso mewn gwyddorau chwaraeon a dilyn cwrs yng Ngholeg Llandrillo, ac ymarfer gyda'r Academi Rygbi yno. Yno hefyd y dechreuodd ddatblygu ei sgiliau fel bachwr, a chwaraeodd nifer o weithiau i dîm y coleg. Eleni, cafodd gynnig i ymuno â thîm Rygbi Gogledd Cymru (RGC) ym Mae Colwyn, a chwaraeodd am y tro cyntaf i'r tîm fel bachwr yn erbyn Worcester Warriors.

Mae'n chwarae'n rheolaidd i dîm Coleg Llandrillo eleni yng Nghynghrair Colegau Undeb Rygbi Cymru, ac fe'i dewiswyd i garfan Academi Colegau Cymru a'i wahodd i chwarae iddynt yn erbyn Alltudion Cymru. Sgoriodd gais ym muddugoliaeth y garfan o 40 i 10. Mae'r dyfodol yn edrych yn llewyrchus iddo, a bydd yn parhau gyda'i astudiaethau a'i ymarfer rygbi gyda Choleg Llandrillo a RGC dros y tymor i ddod.



**Clwb Bowlio Dan-do Bethel**
Erbyn hyn mae tri mat wedi eu gosod yn y Neuadd Goffa ar gyfer yr ymarfer a'r gemau cynghrair. Ydy, mae'r Clwb wedi ail ymuno â'r Gynghrair wedi saib dros y Cyfnod Clo. Bydd y Clwb yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos: ar bnawn Mercher ar gyfer ymarfer a chymdeithasu; ac ar nos Wener ar gyfer y gemau Cynghrair. Ond os na fydd gêm ar nos Wener bydd cyfle at gyfer ymarfer arall rhwng 7 a 9 o'r gloch. Croeso i unrhyw un ddod draw i flasu'r gamp. Mae 15 o aelodau ar hyn o bryd, ond 6 aelod fydd yn ffurfio tîm mewn gemau cynghrair. Aelodau eraill y Gynghrair yw Bae Trearddur, Waunfawr (2 dîm), Y Ffôr a'r ffefrynau Trefor. Roedd gêm gyntaf eleni gartref yn erbyn Waunfawr. Mae'r clwb yn cydnabod y rhodd arianol gan y Cyngor Cymuned.

**Clwb Hoci Caernarfon**
Roedd hi'n ddiwrnod hanesyddol i Glwb Hoci Caernarfon ar ddydd Sadwrn, Hydref 8fed. Dyma'r diwrnod y cychwynodd ail dîm i'r clwb unwaith eto i gystadlu yn Ail Adran Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru. Nid yw'r Clwb wedi gallu cynnal ail dîm yn y gynghrair ers 2009. Mae hyn yn adlewyrchu ymrodiad a gwaith caled aelodau'r Clwb, yn hyfforddwyr a chwaraewyr.

**Cae newydd ar y gweill**
Mae'r ddau dîm wedi bod yn chwarae eu gemau cartref ym Mhwllheli y tymor yma wrth iddynt ddisgwyl yn eiddgar i'r gwaith ar gae pob tywydd Ysgol Brynrefail gael ei gwblhau. Bydd darllenwyr yn synnu bod rhaid i'r Clwb deithio mor bell i chwarae eu gemau cartref, ond y gwir yw mai cae Llanrug yw'r unig gae pob tywydd sy'n addas ar gyfer chwarae gemau hoci cystadleuol yn Arfon bellach (oni bai am un tu hwnt o brysur Prifysgol Bangor) wrth i'r caeau eraill droi'n 4G. Mae'r Clwb wedi edrych ymlaen yn fawr at ddychwelyd i'r cae yn Llanrug, a byddant wedi ailgychwyn yr ymarferion yn Ysgol Brynrefail bob nos Fercher erbyn i'r stori hon fynd i'r wasg.





**Ail dîm i'r Clwb Hoci**

# Edrych ymlaen at Gwpan y Byd Qatar



Gyda Chwpan y Byd Qatar yn agosáu a Chymru ond ychydig o wythnosau i ffwrdd o lwyfan mwyaf y byd pêl-droed, beth am edrych ymlaen at beth sy'n ein disgwyl. Cynhelir y gystadleuaeth eleni yn ystod y gaeaf yn hytrach na'r haf gan ei bod yn Qatar. Mi fyddai'r tymheredd yno'n rhy boeth o lawer i gynnal Cwpan y Byd ar yr adeg arferol ym Mehefin a Gorffennaf. Bydd y gystadleuaeth yn cychwyn ar Dachwedd 20fed, a bydd y Ffeinal ar Ragfyr 18fed. Felly bydd mis cyfan llawn dop o bêl-droed!

Cyn edrych ymlaen at yr hyn sy'n aros i Gymru yn Qatar, beth am gael golwg cyflym ar sut y cyrhaeddodd Cymru Gwpan y Byd am y tro cyntaf ers 64 o flynyddoedd! Roedd Cymru yn Grŵp E gyda Gwlad Belg, Y Weriniaeth Tsiec, Estonia a Belarus. Fe orffennodd Cymru yn yr ail safle yn y grŵp, gyda Gwlad Belg uwch eu pennau. Yn ystod yr ymgyrch fe lwyddodd Cymru i ennill pedair gêm, cael tair gêm gyfartal a cholli un. Yn dilyn eu llwyddiant yn y grŵp roedd Cymru wedi hawlio lle yn y gemau ail-gyfle, a hynny'n golygu eu bod dwy gêm i ffwrdd o Qatar. Eu her cyntaf oedd Awstria, a 2-1 i Gymru oedd y sgôr. Byddai Cymru wedyn yn wynebu un ai'r Alban neu Wcráin. Oherwydd y rhyfel yn Wcráin bu raid gohirio eu gêm nhw yn erbyn Yr Alban, a'r gêm a fyddai'n dilyn rhwng Cymru a'r enillydd. Cynhaliwyd y gemau felly ym mis Mehefin. Fe enillodd Wcráin y gêm yn erbyn Yr Alban, ac felly roeddent yn wynebu Cymru am le yng Nghwpan y Byd. Y sgôr terfynol oedd Cymru 1, Wcráin 0. Roedd Cymru wedi ei gwneud hi! Roedd y tîm wedi hawlio lle yng Nghwpan y Byd am y tro cyntaf ers 1958!

Roedd Cymru eisoes yn gwybod pwy fyddai eu gwrthwynebwyr yn Qatar gan fod y 'draw' wedi ei wneud yn flaenorol ym mis Ebrill. Roedd y gemau ail-gyfle i fod wedi eu cwblhau ym mis Mawrth, ond am resymau amlwg doedd hynny ddim yn bosib.

Felly bydd Cymru'n teithio i Qatar i wynebu Unol Daleithiau'r America (UDA), Iran a Lloegr yn Grŵp B. Dyma'r dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur – Cymru yn erbyn UDA, 21ain o Dachwedd; yna Cymru yn erbyn Iran, 25ain o Dachwedd; ac i gloi'r grŵp, Cymru yn erbyn Lloegr, 29ain o Dachwedd. Mae pob gêm grŵp Cymru yn cael eu chwarae yn yr un stadiwm, sef Al Rayyan yn Doha ac mae'r stadiwm yn dal 50,000 o bobl. Mi fydd y ddau dîm gorau yn y grŵp yn mynd ymlaen i'r 16 olaf, a bydd y ddau'n chwarae yn erbyn y ddau dîm gorau yn Grŵp A. Bydd enillydd Grŵp A yn herio'r tîm sy'n ail yn Grŵp B; a bydd y tîm sy'n ail yn Grŵp A yn herio enillydd Grŵp B.

UDA felly fydd ein her cyntaf. Nhw yw'r trydydd tîm gorau yn y CONCACAF (sef Gogledd America, Canolbarth America a'r Caribi). Dim ond un o'u pum gêm ddiwethaf maen nhw wedi ennill, ac felly mi fyddan nhw'n bendant yn chwilio am fuddugoliaeth yn eu gêm agoriadol yng Nghwpan y Byd. Mae'n debyg mai diffyg goliau yw eu problem, gyda dim ond un gôl wedi ei sgorio yn eu tair gêm ddiwethaf. Yr enwau yn eu tîm nhw i edrych allan amdanynt yw Weston McKennie a Christian Pulisic. Bydd y ddau'n sicr yn ceisio creu problemau i Gymru.

Yn dilyn hynny, mi fyddwn yn troi at Iran. Ar hyn o bryd maen nhw'n chwarae'n dda iawn ac o bosib yn dîm i'w wylio – 'underdogs' efallai? Gobeithio ddim, er lles Cymru! Ddiwedd mis Medi fe lwyddon nhw i ennill yn erbyn Uruguay. Mae Iran wedi bod mewn tair Cwpan y Byd yn olynol, ond nid ydynt erioed wedi mynd heibio'r grwpiau. Ai eleni fydd eu cyfle? Un enw i wylio amdano yn eu tîm nhw yw Mehdi Taremi. Gyda phump llechen lân mewn wyth gêm, mae'n amlwg fod ganddyn nhw amddiffyn cryf.

Ein gêm olaf yn y grŵp fydd yn erbyn ein cymdogion Lloegr. Dydi ei record nhw ar hyn o bryd ddim yn wych, heb ennill yn eu chwe gêm ddiwethaf. Maent wedi cael tair gêm gyfartal ac wedi colli'r tair arall. Er ein bod wedi gorffen ar frig y grŵp yn Ewro 2016, dwi'n siŵr y bydd Cymru'n gobeithio talu'n ôl am y golled yn Lens. Y chwaraewyr i wylio amdanyn nhw yn y tîm yma yw Phil Foden a Jude Bellingham. Mae'r ddau ifanc yn gwneud yn eithriadol o dda i'w clybiau ar hyn o bryd, a byddant yn gobeithio gwneud argraff ar y llwyfan mawr.

Felly, 64 o flynyddoedd o ddisgwyl ac mae Cymru O'R DIWEDD yn cael cyfle arall yng Nghwpan y Byd. Y tro diwethaf, ym 1958 fe gyrhaeddodd y tîm yr wyth olaf cyn colli yn erbyn Brasil, a aeth ymlaen wedyn i ennill y gystadleuaeth! Nid ydym wedi cael llawer o lwyddiant yn ddiweddar o ran canlyniadau gan fethu ennill ein pum gêm ddiwethaf. Ond er weud hynny fe wnaethom ennill ddwy gêm bwysig, sef y gemau ail-gyfle. Mae un peth yn bendant: nid yw Cymru yno i wneud y rhifau i fyny, mae Cymru yno i gystadlu. Yn sicr, mi fydd yr holl chwaraewyr yn rhoi 100% ym mhob gêm, ac ar ein dydd mi allwn guro unrhyw un! Gobeithio rŵan y bydd pawb yn aros yn holliach – mi fydd hi'n gyfnod nerfus o ddisgwyl. Mae'r hen bennau megis Bale, Ramsey, Allen a Hennessey yn haeddu'r cyfle i chwarae ar y llwyfan mawr, ac mae'n debyg mai dyma fydd yr unig gyfle gawn nhw. Mi fydd y to ifanc hefyd yn gobeithio cael eu cyfle i serennu gan nad oes wybod pryd fydd y tro nesaf y bydd Cymru yng Nghwpan y Byd. O bosib y byddwn yn yr Unol Daleithiau, Canada a Mecsico yn 2026; ond efallai y bydd yn 64 blynedd arall cyn y cawn gyfle eto! Y rhai i'w gwylio yn ein carfan ni fydd Brennan Johnson a Rubin Colwill, mae'r ddau eisoes wedi dangos eu talent a gobeithio y byddant yn cael cyfle i wneud hynny yn Qatar.

Mae'r gystadleuaeth hon yn gyfle perffaith i roi Cymru ar y map ac i ddangos ein diwylliant a'n hiaith i'r byd. Mewn un ffordd, mae'n dda ein bod yn yr un grŵp â Lloegr, oherwydd bydd pobl yn sylweddoli nad ydym yn rhan o Loegr ond yn wlad ar wahân. Dwi wir yn gobeithio y bydd yr FAW yn manteisio ar y cyfle hwn i roi Cymru ar y llwyfan mawr ac i arddangos popeth sy'n arbennig amdanom ni fel y gwnaethon nhw lwyddo i'w wneud yn Ewro 2016. Mae dal yn anodd coelio weithiau ein bod ni'n mynd i Gwpan y Byd. Dwi ddim yn meddwl y bydd yn fy nharo i yn iawn tan y byddaf yn Stadiwm Al Rayyan yn Doha yn gweld y tîm yn camu i'r cae.

Dwi'n edrych ymlaen yn barod at gael ysgrifennu erthygl ar ôl Cwpan y Byd pan fydd Cymru wedi ennill y gystadleuaeth! C'mon Cymru!!

**Mared Rhys**

ISSN 2516-7235

9 772516 723001 >